

Atodiad C – Cofnodion cyfarfodydd gyda Staff, Llywodraethwyr a Disgyblion

Cynnwys:

Cyfarfod ymgynghori gyda staff Ysgol Bro Caereinion	2
Cyfarfod ymgynghori gyda Llywodraethwyr Ysgol Bro Caereinion	24
Cyfarfodydd efo disgyblion Ysgol Bro Caereinion.....	44
Cyfarfod ymgynghori gyda staff Ysgol Rhiw Bechan	51
Cyfarfod ymgynghori gyda Llywodraethwyr Ysgol Rhiw Bechan.....	64
Cyfarfod gyda disgyblion Ysgol Rhiw Bechan	84

Cyfarfod ymgynghori gyda staff Ysgol Bro Caereinion

22 Tachwedd 2023

Presennol:

Staff:

Huw Lloyd-Jones, Pennaeth
Rachel Ashton-Roberts, Athrawes (Ysgol Uwchradd)
Emma Fitzgerald, Goruchwyliwr Cyflenwi
Sioned Myles, Athrawes (Ysgol Uwchradd)
Fflur Gottschalk, Athro (Ysgol Uwchradd)
Catrin Jones, Athrawes (Ysgol Uwchradd)
Ed Baldwin, Athro / Dirprwy Bennaeth
Delyth Ellis, Athrawes (Ysgol Uwchradd)
Alison Evans, Athro (Ysgol Gynradd)
Laura Jones, Pennaeth Cynorthwyol
Naomi King, Athrawes
Ffion Evans, Cynorthwydd Addysgu
Llyr Williams, Athro – Arweinydd Dysgu
Nicky Lewis, Athro Cyflenwi
Ann Lloyd, Cynorthwydd Addysgu
Glyn Lloyd, Gofalwr
Sioned Chapman Jones, Athrawes – Arweinydd Cyfnod Cynorthwyol
Mirain Jones, Athro
Nia Ellis, Athrawes (Ysgol Gynradd)
Rowena Huxley, Cynorthwydd Addysgu / Cynorthwydd Addysgu Lefel Uwch
Ffion Williams, Cynorthwydd Addysgu
Eluned Davies, Clerc Cyllid / Gweinyddu
Beth King, Cynorthwydd Addysgu
Gwen Edwards, Cynorthwydd Addysgu
Meinir Jones, Athrawes (Ysgol Uwchradd)
Catherine Evans, Athrawes – Arweinydd Dysgu
Rhodri Davies, Athro – Arweinydd Dysgu – Gwyddoniaeth a Thechnoleg
Elain Micah Evans, Arweinydd – Cymraeg (Dros Gyfnod Mamolaeth) / Athrawes
Elen Griffiths, Athro
Liws Merrigan, Athro – Arweinydd Dysgu
Ffion Morgan, Athrawes
Christopher Davies, Athro
Sam Andrew, Athro – Athro – Arweinydd Cyfnod Cynorthwyol
Shan Hughes, Athro – Arweinydd Dysgu
Mike Humphreys, Arweinydd y Celfyddydau Mynegiannol
Greg Jenkins, Pennaeth Cynorthwyol
Rhian Mills, Pennaeth Cynorthwyol

Swyddogion:

Lynette Lovell, Cyfarwyddwr Addysg a Phlant

Georgie Bevan, Pennaeth Addysg

Marianne Evans, Rheolwr Gwasanaeth Trawsnewid Ysgolion

Sarah Jones, Partner Busnes AD (Ysgolion)

Ffion Williams, Uwch Gynghorydd AD (Ysgolion)

Sarah Astley, Rheolwr Rhaglen Strategol, Trawsnewid Addysg

Ffion Evans, Cydlynnydd Trawsnewid Addysg

Nancy Owen, Rheolwr Cyllid Ysgolion

Bethan Price, Arweinydd Cymraeg

Croesawodd Lynette Lovell pawb i'r cyfarfod. Gwnaeth pawb a oedd yn bresennol gyflwyno eu hunain.

Eglurwyd y byddai cyflwyniad byr, ac yna cyfle i drafod, rhoi sylwadau a gofyn cwestiynau i'r swyddogion. Eglurwyd y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio at ddibenion cofnodi ond byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y bydd y cofnodion wedi'u cwblhau a'u cytuno.

Rhoddodd Sarah Astley gyflwyniad PowerPoint a oedd yn amlinellu cefndir y cynnig presennol a'r broses.

Y cynnig yw:

- I wneud newid rheoledig i gategori iaith Ysgol Bro Caereinion i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg, i'w gweithredu'n raddol gan ddechrau gyda Dosbarth Derby a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025.

Eglurwyd bod disgwyl i'r ymgynghoriad gau ar 30 Tachwedd ond ei fod wedi'i ymestyn i 7 Rhagfyr, 2023.

Yn dilyn y cyflwyniad, cafodd staff gyfle i ofyn unrhyw gwestiynau neu i wneud sylwadau mewn perthynas â'r mater.

Aelod Staff: Pam mae'r cyfnod ymgynghori yn cael ei ymestyn?

Marianne Evans: Roedd yn rhaid i ni aildrefnu cyfarfod gydag ysgol arall yn y dalgylch. Mae'r cyfarfod hwnnw bellach yn cael ei gynnal yr wythnos nesaf.

Nododd Marianne Evans fod swyddogion wedi cwrdd â phedwar grŵp o ddisgyblion uwchradd a cynradd heddiw, oedd wedi codi nifer o sylwadau a phryderon. Fe wnaeth tua 120 o ddisgyblion fynychu'r cyfarfodydd i gyd.

Aelod Staff: O ran Opsiwn 5b – newid categori iaith yr ysgol gan ddechrau gyda Derbyn, sef y model a ddilynwyd ym Mro Hyddgen, pam dewiswyd model gwahanol fan hyn? Oni fyddai'n decach defnyddio'r un model yma?

Marianne Evans: Mae'r holl opsiynau a ystyriwyd wedi'u cynnwys yn y Ddogfen Ymgynghori. Yn yr ardal hon, fodd bynnag, rydym wedi cael pwysau ers nifer o flynyddoedd am yr angen i wella'r ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg, ac am yr angen am ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg. Roedd hyn yn wahanol i sefyllfa Bro Hyddgen. Dyna pam mai'r cynnig yw i gyflwyno'r newid ym Mlwyddyn 7 ar yr un pryd â'r flwyddyn Derbyn, er mwyn cyflymu'r broses o gyflawni'r weledigaeth i gael darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg. Rydym yn gwybod mai pontio Blwyddyn 7 sy'n achosi'r pryder mwyaf i bobl, ac roeddem yn gwybod mai dyma fyddai'r achos, ond roedd yn rhaid i ni ei roi allan yna. Fel arall ni fyddai'r cynnig wedi'i weithredu'n llwyr tan y 2030au pe byddem yn dilyn model Bro Hyddgen, sef dechrau gyda'r Dosbarth Derbyn a newid yn raddol dros 12 neu 13 mlynedd. Rydym yn deall bod hwn yn faes sy'n peri pryder, ond byddai cefnogaeth Trochi ar gael i'r rhai sydd am ei fynychu i gefnogi pontio o'r cynradd i'r uwchradd. Gall Bethan ddarparu gwybodaeth am y gefnogaeth Trochi honno.

Bethan Price: Mae llawer ohonoch yn gyfarwydd â'r syniad o addysg drochi. Mae gwahanol fathau o drochi wedi cael eu cynnal ym Mhowys ers nifer o flynyddoedd. Roeddem yn bwriadu canoli trochi yma beth bynnag gan fod hwn yn ardal amlwg ar gyfer twf. Y bwriad yw y byddai aelod o staff yma a fyddai'n dysgu gwersi trochi yn y ganolfan yn yr ysgol, a fyddai'n rhoi cyfleoedd i'r rhai sydd yn y ffrwd Saesneg ar hyn o bryd, nid o reidrwydd yn y dalgylch hwn, ond sy'n dymuno trosglwyddo i addysg Gymraeg yn ddiweddarach yn eu gyrfaoedd, i allu gwneud hynny gyda chefnogaeth ddwys gan aelod o staff y Cyngor. Fel arfer maen nhw'n gweithio gyda'r ganolfan am gyfnod o 12 wythnos ac mae disgyblion yn derbyn darpariaeth ddwys i sicrhau bod eu sgiliau Cymraeg yn cynyddu i'r fath raddau fel eu bod yn gallu ymuno â'r ffrwd Gymraeg yn dilyn hynny. Mae'r gefnogaeth yna'n parhau am flwyddyn, er mwyn sicrhau bod pawb yn teimlo'n hyderus yn eu dosbarthiadau. Rydym wedi gweld llwyddiant mawr gyda'r ddarpariaeth hyd yma lle mae wedi cael ei weithredu ym Mhowys ac mae ymchwil o lawer o wledydd wedi dangos ein bod ar flaen y gad o ran addysg drochi. Byddai hyn yn golygu y byddai'r disgyblion hynny sy'n dymuno aros ym Mro Caereinion yn cael cyfle i wneud hynny. A oes unrhyw gwestiynau penodol am drochi?

Aelod Staff: Rwy'n gwybod bod trochi yn gweithio, ond mae fy mhryder yn ymwneud â'r niferoedd a sut y bydd yn cael ei staffio. Efallai nad ydych chi'n gwybod yr ateb i hyn eto, ond dyma fydd rhieni'n ei ofyn a beth sydd angen i ni ofyn fel staff ar ran ein disgyblion. Sut fydd hyn yn cael ei staffio, sut y bydd hyn yn cael ei ariannu, a oes cyllid os bydd 50 o ddisgyblion eisiau'r ddarpariaeth hon? Mae yna blant yn Rhiw Bechan a Bro Caereinion a bydd hyn yn cael effaith arny'n nhw. Beth fydd hynny'n ei olygu os cytunir ar hyn? Bydd yn cael yr effaith fwyaf ar ddisgyblion sydd ym mlwyddyn 5 ar hyn o bryd. Efallai y bydd rhai plant yn parhau yn y ffrwd Saesneg,

ond dwi eisiau gwybod os ydy hi'n bosib i ddarparu ar gyfer 50 o blant. Nid wyf yn credu ei fod yn bosibl.

Bethan Price: Rwy'n cytuno efallai na fydd modd trochi 50 ar yr un pryd, ond mae'n broses a fyddai'n digwydd dros nifer o flynyddoedd. Efallai y byddai angen i ni ganolbwyntio ar Flwyddyn 5 yn gyntaf, neu ofyn am ddatganiadau o ddiddordeb i ddechrau, ond byddem yn gobeithio gallu cynnig y ddarpariaeth i unrhyw un sydd ei eisiau.

Marianne Evans: O ran cyllid, er mwyn i hyn lwyddo mae'n rhaid i ni wario ar drochi, mae'n rhaid i ni wario ar gefnogi staff. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym wedi'i godi gyda Llywodraeth Cymru oherwydd yr hyn yr ydym yn ei wneud yma, mae ein gweledigaeth ni fel Cyngor yn gweithredu gweledigaeth Llywodraeth Cymru. Felly, rydym yn rhoi pwysau arnynt i'n cefnogi gan fod hwn yn fodel newydd i Bowys, ac er mwyn iddo lwyddo mae angen ei gefnogi.

Aelod Staff: A gaf i fynd yn ôl at yr amseru a deall yr angen i wthio hyn ymlaen ar y fath gyflymder? O ambell i sgwrs, mae 'na deimlad cryf fod popeth i'w wneud â sefydlu Ysgol Bro Caereinion wedi bod yn dipyn o ruthr o ran apwyntiadau i'r ysgol a cheisio cyflawni popeth o fewn yr amser. Fyddwn i ddim eisiau mynd ymlaen heb iddo gael ei wneud yn iawn. Dwi'n poeni am gyflymder 2025 – yn y bôn mae gennym ni flwyddyn i sortio popeth i bwynt ym mis Medi 2025 lle mae gennym ni staff cyflawn ac yn barod i redeg y ddarpariaeth. Dydw i ddim eisiau bod yn y sefyllfa lle mae'n cael ei ruthro drwyddo ac mae'n rhaid i ni ddatrys pethau wrth i ni fynd ymlaen.

Aelod Staff: Rydym eisoes wedi bod drwy gyfnod o newid wrth sefydlu Ysgol Bro Caereinion. Roeddwn i'n meddwl bod ysgolion sydd wedi bod trwy newid yn cael eu diogelu rhag newid pellach?

Marianne Evans: Nid yw hyn yn wir. Mae canfyddiad bod hyn yn wir, ond nid yw'n wir. Gyda'r holl gynigion trawsnewid ysgolion, rydym yn dweud yn y papurau nad yw hyn yn golygu na fydd ysgol yn destun cynnig ad-drefnu ysgol arall ar bwynt arall.

Rwy'n clywed yr hyn rydych chi'n ei ddweud am yr amseru a'r ffaith bod Ysgol Bro Caereinion newydd gael ei sefydlu. Rwy'n disgwyl y bydd hynny'n dod drwedd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Pan ddaw hyn yn ôl i'r Cabinet, bydd dyletswydd arnynt i ystyried yr adroddiad ymgynghori a phopeth sydd wedi dod drwy'r ymgynghoriad. Ar y pwynt hwnnw gallent ddweud gadewch i ni roi'r gorau i'r cynnig hwn, gadewch i ni symud ymlaen gyda'r cynnig fel y mae, neu gallent addasu'r cynnig, a all olygu newid y dyddiad gweithredu neu rywbeth ar hyd y llinellau hynny. Rydym wed clywed trwy'r ymgynghoriad y gallai newid Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025 fod yn rhy fuan, felly bydd angen ystyried hynny.

Aelod Staff: Mae llawer o'r myfyrwyr rwy'n siarad â nhw yn poeni'n fawr, maen nhw'n poeni am les meddyliol y myfyrwyr, maen nhw'n poeni y bydd eu brodyr a'u chwirydd iau yn cael eu rhannu, gan fynd i ddwy ysgol wahanol, gyda rhai o'r

rhieni'n gorfod symud gan na allan nhw fod mewn dau le ar yr un pryd. O fy safbwynt i, rwy'n credu bod hyn wedi bod yn fryslog iawn. Pan ddaeth y cynnig allan i newid i ysgol bob oed, pam na ddywedwyd bryd hynny bod hyn yn mynd i ddigwydd mewn cyfnod byr iawn? Mae aelodau staff wedi ymuno â'r ysgol hon, maen nhw wedi gadael swyddi eraill i ddod i'r ysgol hon i fod o bosibl heb swydd yn y dyfodol agos ac mae hynny'n rhywbeth sy'n peri pryder mawr. Yn ogystal â lles meddyliol y plant, mae angen ystyried lles meddyliol yr aelodau staff hefyd, oherwydd rydyn ni wedi bod trwy flwyddyn heriol iawn ac yna yn syth mae gennym ni hyn. Nid wyf yn dweud bod y newid hwn o reidrydd yn beth drwg, ond mae'r cyflymder y mae'n symud yn niweidiol iawn i'm lles fel aelod o staff, ac yn sicr i'r disgyblion rwy'n eu haddysgu. Mae'n wenwynig yn yr ysgol ar hyn o bryd gyda rhai o'r disgyblion rwy'n eu dysgu, maen nhw mewn dagrau. Maen nhw'n dioddef mewn gwirionedd.

Marianne Evans: Rwy'n deall hynny, fel y dywedais rydym wedi siarad â disgyblion heddiw. O ran y cyflymder, er ei bod yn ymddangos fel petai'n dod i mewn yn gyflym iawn, pan wnaethom uno Bro Caereinion, dywedodd y dogfennau a gyhoeddwyd bryd hynny y byddem yn parhau i weithio gyda'r ysgol i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg ac os oedd penderfyniad i symud yr ysgol yn ffurfiol ar hyd y continwmm iaith byddai proses arall, felly roedd hi'n amlwg yn ôl yn 2020 beth oedd gweledigaeth y Cyngor. Mae ein huchelgais i symud Ysgol Bro Caereinion neu Ysgol Uwchradd Caereinion ar y pryd ar hyd y continwmm iaith hefyd wedi bod yn ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ers nifer o flynyddoedd. Felly mae wedi bod yn ein cynlluniau ers amser maith, ond rwy'n gwerthfawrogi mai dim ond yn ddiweddar rydych chi wedi agor fel ysgol pob oed ac rydych yn dal i setlo, ac yna'n syth ar ôl gwyliau'r haf rydyn ni wedi dod allan gyda'r cynnig hwn. Fodd bynnag, ar y llaw arall gan wisgo het yr awdurdod lleol neu'r Cyngor, mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gynyddu'r niferoedd cyfrwng Cymraeg, mae hynny'n darged y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi i ni, felly mae'n rhaid i ni edrych ar yr hyn sy'n digwydd yn eich dalgylch a'ch clwstwr a'r ffaith bod y niferoedd yn y Gymraeg yn y sector cynradd ar i fyny.

Mae'n rhaid i ni gofio hefyd ein bod wedi clywed ers blynyddoedd lawer bod angen ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ac nad yw hynny'n mynd i ffwrdd, mae hynny'n fater y mae angen i ni ei ystyried.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi newid y ffordd maen nhw'n diffinio ysgolion yn ôl addysg cyfrwng Cymraeg. Mae yna gategoriau iaith newydd, ac mae Llywodraeth Cymru yn symud i wneud y rhain yn ofyniad cyfreithiol, felly mae'r sefyllfa genedlaethol gyfan o amgylch ysgolion cyfrwng Cymraeg yn newid, ac mae'n rhaid i ni fel awdurdod lleol ymateb i hynny, ond rwy'n cymryd eich pwynt ac mae lles disgyblion yn allweddol.

O ran cefnogaeth i staff, mae Sarah o AD yma, ac mae hi wedi bod yn yr ysgol yn ddiweddar hefyd. Rwy'n deall am yr effaith ar rai ohonoch nad ydych yn siaradwyr Cymraeg, er yn amlwg oherwydd ei fod yn gynnig graddol ni fyddem yn ei weld yn digwydd dros nos ac mae trafodaeth i'w chael o gwmpas y cyfnod pontio Blwyddyn 7

hwnnw. Bydd y ffaith y bydd yn digwydd yn raddol yn eich galluogi chi fel staff i gael amser i ddeall beth yw'r goblygiadau, a byddwn yn darparu cymorth ar gyfer hyfforddiant staff ac ati os oes angen.

Lynette Lovell: O ran cefnogaeth i staff, byddwn yn ystyried hynny. Rydym yn ymwybodol iawn o'r effaith y mae'r holl gynigion yn ei chael ar staff a phlant, nid ydym yn cymryd hynny'n ysgafn ac rydym yn darparu cefnogaeth. Mae gennym berson annibynnol o'r enw Kath Thomas sy'n gyn-Brifathro. Nid yw'n gweithio i'r awdurdod lleol ond rydym wedi gofyn iddi weithio i ni i gefnogi unrhyw ysgolion sy'n mynd trwy unrhyw newid. Weithiau mae hyn wedi golygu siarad â'r plant fel y gwnaeth Marianne a Sarah heddiw. Mae AD hefyd ar gael i ddarparu cymorth i staff drwy unrhyw broses ymgynghori.

Aelod Staff: Mae'n bwysig nodi nad athrawon cyfrwng Saesneg yn unig sy'n cael eu heffeithio gan y broses hon, mae ansicrwydd i bob aelod o staff.

Roeddech chi'n sôn bod y rhaglen drochi yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru, beth fydd y cyllid i Ysgol Bro Caereinion wrth symud ymlaen os bydd hyn yn digwydd yn 2025? Beth yw'r cynllun ar gyfer ariannu'r ysgol?

Marianne Evans: O ran ariannu'r ysgol, mae Nancy Owen yma o'r Tîm Cyllid. O ran cefnogaeth, mae'n rhaid i ni sicrhau y gallwn ariannu'r trochi a'r gefnogaeth i staff. Rwy'n gwybod y bydd cwestiwn yn ddiweddarach gan lywodraethwyr ynghylch cyllid cyfalaf ar gyfer yr adeilad. Mae'r rhain yn bethau y byddaf yn edrych arnynt. O ran y gyllideb ei hun, byddaf yn trosglwyddo i Nancy.

Nancy Owen: Os gall ai wahanu trochi gan fod hyn yn cael ei ariannu gan grant. Mae'n rhaid i'r awdurdod bennu ei gyllideb gyffredinol ar gyfer ysgolion ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, ac mae hyn yn cael ei wneud gan ddilyn proses, trwy gyfarfodydd y Cyngor. Mae'r Cabinet yn penderfynu ei gyllideb ac yna mae'r broses honno'n mynd drwodd i'n Cynghorwyr Sir ac maen nhw i bob pwrpas yn penderfynu sut maen nhw'n mynd i rannu'r arian sy'n dod drwodd o arian Llywodraeth Cymru, Treth y Cyngor ac unrhyw arian arall rydyn ni'n ei gynhyrchu, ond yn bennaf Llywodraeth Cymru a Treth y Cyngor fel y mae'r rhan fwyaf ohonom yn ymwybodol ohono.

Yr hyn sy'n digwydd ar ôl hynny yw, unwaith y bydd gennym y gyfran o'r arian ar gyfer cyllideb yr ysgol, rhaid i ni gael dull o gael yr arian i'r ysgolion. Mae Rheoliadau Cyllid Llywodraeth Cymru 2010 yn mynnu bod arian yn dod drwodd i'n holl ysgolion drwy cyfres o egwyddorion, rydym yn ei alw'n fformiwla ariannu ysgolion. Mae gennym fformiwlâu cyllid ar waith ar gyfer ein hysgolion cynradd, pob oedran, uwchradd a fformiwla ysgolion arbennig hefyd. Mae'n eithaf manwl, ond mae'r egwyddorion yn cael eu gweithredu gan weithgorau sy'n cynnwys penaeithiaid a llywodraethwyr, mae gennym fforwm sy'n goruchwyllo hynny ac yn y pen draw penderfyniad y Cyngor yw pa fformiwla ariannu y mae'n ei rhoi ar waith i ariannu ei ysgolion.

Yr hyn sy'n allweddol yma o ran ariannu Ysgol Bro Caereinion ac unrhyw ysgolion dwy ffrwd yw eu bod yn cael eu hariannu fel pe baent yn ddwy ysgol ar wahân, felly y ffrydiau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal. Pe bai'r broses yn mynd yn ei blaen, mae'r modelu wedi'i wneud yn seiliedig ar dybio bod y newid yn digwydd yn y Dosbarth Derbyn ac i Flwyddyn 7, a dyna lle mae'r arbedion wedi dod drwodd yn yr adroddiad. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r fformiwla ariannu yn cael ei yrru gan niferoedd disgyblion, felly mae'r arbedion yn gysylltiedig â thaliadau ychwanegol a roddwn i ysgolion bach neu ffrydiau bach. Felly mae llawer o'r arbedion yn yr adroddiad yn dod o'r ychwanegiad y mae angen i ni ddarparu'r elfen dwy ffrwd i'r ysgol hon yn benodol. Os bydd yn symud ar hyd y continwwm, byddech yn cael eich ariannu fel ysgol ffrwd Gymraeg yn unol â phob ysgol ffrwd Gymraeg arall, ysgolion cynradd ac uwchradd.

Aelod Staff: Dywedwch os aiff hyn yn ei flaen a'n niferoedd mewn grŵp blwyddyn yn gostwng, dywedwch o 70 i 35 os byddwn yn colli disgyblion, byddem yn colli cyllid. Beth fyddwn ni'n ei wneud wedyn i atal diswyddiadau staff? Allwn ni ddim helpu bod ein niferoedd wedi gostwng, rydyn ni wedi symud ar hyd continwwm Cymraeg, ond sut ydyn ni wedyn i fod i aros uwchben y dŵr?

Nancy Owen: Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid yr ydych yn ei dderbyn yn seiliedig ar gyllid fesul disgybl, felly mae swm penodol ar gyfer gwahanol gyfnodau addysg. Yr hyn y mae'r fformiwla ariannu yn caniatáu ar ei gyfer yw ychwanegiad i'r ysgolion hynny. Er enghraifft, pe baech chi'n ysgol fach, dywedwch fod y safle cynradd yn 86 fel enghraifft, byddai angen i ni wneud ychwanegiad i fynd a chi i'r dosbarth nesaf. Mae yna lawer o ychwanegiadau yn y fformiwla ar wahan i nifer y disgyblion. Mae'n rhaid i ni gydnabod y cymarebau yn ein fformiwla ariannu, felly os ydych chi'n 86 ni allwn ddweud bod yn rhaid i chi gael 2 ac ychydig o athrawon, rydyn ni'n ychwanegu fel bod gennych drydydd dosbarth. Mae yna ychwanegiadau ffrwd fach yn y fformiwla hefyd, yn ogystal ag ychwanegiadau addysgu a dysgu. Felly nid yw mor glir â cholli 35 o blant ac felly rydych chi wedi colli £4mil y disgybl. Bydd y fformiwla ariannu yn ystyried a oes angen unrhyw ychwanegiadau ar yr ysgol yn unol â'r egwyddorion cyllido a nodir yn ein fformiwla ariannu. Mae'r cyfan yn dibynnu ar sut mae'ch rhifau'n glanio pan fyddwch yn cael eich ariannu, ond mae yna ychwanegiadau ar waith ac mae gennym ddisgrifiad o'r fformiwla ariannu sydd ar gael i unrhyw un. Mae'n rhaid i ni ei gael, ac mae angen i ni sicrhau bod gan ysgolion y wybodaeth honno pan fyddwn yn cynnal ein rowndiau cyllidebol ac yna rydym yn gweithio gydag ysgolion ar hynny o ran eu cyllideb unwaith y byddant yn derbyn eu cyllid.

Aelod Staff: Fy mhryder i yw y byddwn yn colli staff yn y tymor byr, ond yna bydd angen i ni fod yn chwilio am staff ymhen pump, chwech, saith, wyth mlynedd, pan fyddwn ni wedi colli staff da yn y cyfnod pontio.

Aelod Staff: A oes cyllid ychwanegol i gefnogi ysgol sy'n mynd drwy'r broses hon?

Georgie Bevan: Mewn perthynas â'r CSCA, mae angen i ni ddarparu cefnogaeth fel y gallwn gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Yr hyn y mae

Nancy'n cyfeirio ato gyda'r ychwanegiadau, rydym yn dal yr arian hwnnw ar gyfer elfennau eraill fel y gallwn gefnogi ysgolion ar wahanol adegau yn y daith drosglwyddo. O'n safbwynt ni, fel y dywedodd Marianne, mae'n nod genedlaethol, ac yn rhan o'n gweledigaeth ar gyfer addysg Gymraeg i Bowys, ac mae gennym CSCA uchelgeisiol iawn, felly mae'r drafodaeth a gawsom yn Craffu yn ymwneud â sut gallwn ddefnyddio ein cyllid mor effeithiol â phosibl i gefnogi'r trawsnewidiadau hynny. Un o'r pethau rydym yn ei wneud ar hyn o bryd yw cefnogi elfen ariannol y gwaith yn yr ysgol gan ein bod yn gwerthfawrogi eich bod yn dal i dyfu fel ysgol wrth i chi bontio ar y continwwm 3 i 18 beth bynnag.

Marianne Evans: Mae 'na gamddealltwriaeth efallai y bydd y ffrwd Saesneg yn diflannu dros nos. Nid yw hynny'n wir, a'n dymuniad yw bod pob plentyn sy'n dewis dod i Fro Caereinion yn aros ym Mro Caereinion, nid ydym am i unrhyw blentyn fynd i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg, rydym am iddynt aros yma a chymryd y cyfle i ddod yn gwbl ddwyieithog, i gael y ddwy iaith, ac mae angen i ni weithio gyda chi i sicrhau mai dyna'r neges sy'n mynd allan, bod y cynnig yno i bob plentyn p'un a ydynt yn dod o gartrefi Cymraeg neu gartrefi di-Gymraeg. Dyna'u hawl, i gael addysg cyfrwng Cymraeg llawn er mwyn rhoi'r manteision a'r cyfleoedd o gael dwy iaith iddyn nhw, a beth mae hynny'n ei olygu iddyn nhw wrth iddyn nhw symud ymlaen mewn bywyd. Felly dyna'r neges, nid y weledigaeth yw disgwyl iddynt fynd i'r Trallwng neu'r Drenewydd yn lle.

Gan fynd yn ôl i'r pwynt ynglŷn â niferoedd disgyblion, efallai y bydd rhai rhieni yn dewis symud, efallai y bydd rhai yn dewis aros os bydd eraill yn aros. Mae amser i rieni ddeall popeth, deall mwy am addysg cyfrwng Cymraeg, gallwn adeiladu hynny mewn. Fodd bynnag, os edrychwch ar y niferoedd yn yr ysgolion cynradd yn eich clwstwr, ar hyn o bryd dim ond Bro Caereinion a Rhiw Bechan sydd â darpariaeth gynradd cyfrwng Saesneg. Edrychwch beth sy'n digwydd, mae teuluoedd yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg ac mae'r niferoedd yn cynyddu. Os bydd pob plentyn yn eich ysgolion cynradd clwstwr yn dod i Fro Caereinion bydd gennych ysgol gynaliadwy wrth symud ymlaen. Yr hyn y mae angen i ni fel awdurdod ei wneud, os yw'r broses hon yn mynd drwodd, yw sicrhau bod dealltwriaeth ar gael, bod gwaith yn cael ei wneud i godi ymwybyddiaeth a sicrhau bod mynediad i ysgol cyfrwng Cymraeg ym Mro Caereinion mor hawdd â phosibl i gynifer o ddisgyblion â phosibl. Erbyn hynny, rwy'n golygu y bydd yn rhaid i ni edrych ar ein polisi trafndiaeth i sicrhau bod disgyblion yn gallu dod i Fro Caereinion. Yr achos y byddaf yn ei wneud ar ryw adeg yw bod gwahaniaeth rhwng ysgol dwy ffrwd ac ysgol cyfrwng Cymraeg ddynodedig ac rwy'n credu bod angen adlewyrchu hynny ym mholisi'r Cyngor.

Aelod Staff: Yn y ddogfen ymgynghori mae'n dweud bod diffyg darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn cael effaith nodedig ar drosglwyddo disgyblion. Yn amlwg rydym yn ceisio ein gorau o ran Ysgol Gymraeg y Trallwng a Dafydd Llwyd ac mae gennym raglen bontio. A oes unrhyw ddata i gefnogi hynny?

Marianne Evans: Mae ble mae disgyblion yn trosglwyddo iddo wedi newid yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn hanesyddol trosglwyddodd y mwyafrif o ddisgyblion

Dafydd Llwyd neu'r Drenewydd i Gaereinion, fodd bynnag mae'r patrwm yn wahanol iawn erbyn hyn. Mae'r data yno ond rydym hefyd yn gwybod yn anecdotaidd bod rhieni'n dewis mynd i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg uwchradd o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, gwyddom mai un o'r materion yw na allant weld y dilynant, maent yn cymryd y risg o roi'r plentyn i mewn i Gylch Meithrin neu ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, ond y broblem yw bod angen i bob rhiant / teulu weld bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg ddynodedig ar gael drwy'r system. Nid yw hynny wedi bod yn glir ym Mhowys dros y tri, pedwar, pum mlynedd diwethaf yn benodol. Mae angen mynd i'r afael â hynny.

Os daw'r ysgol yn ddarparwr cyfrwng Cymraeg, bydd yr ysgol hon yn rhoi'r eglurder hwnnw nid yn unig i'ch clwstwr ond hefyd i'r ardal ehangach, dyma fydd darparwr gogledd ddwyrain Powys o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg benodedig.

Aelod Staff: Nid oes unrhyw ddata sy'n adlewyrchu hynny yn y ddogfen ymgynghori. O sgysiau gyda rhieni Ysgol Gymraeg y Trallwng y rheswm nad ydyn nhw wedi dod yma yw oherwydd eu bod yn byw yn y Trallwng ac mae'n hawdd cerdded i'r ysgol.

Marianne Evans: Byddwn yn cynnwys y data yn yr adroddiad ymgynghori.

Aelod Staff: Yn amlwg mae cryn nifer o ddisgyblion Dafydd Llwyd yn mynychu Ysgol Uwchradd Llanidloes. Ydy'r Cyngor yn meddwl gwneud rhywbeth i annog y disgyblion hynny i ddod yma?

Marianne Evans: Mae Dafydd Llwyd yn ysgol fwydo i Fro Caereinion a Llanidloes.

Aelod Staff: Maen nhw yn ein clwstwr ac yn dod i'n cyfarfodydd clwstwr.

Marianne Evans: Os yw rhiant o Dafydd Llwyd eisiau i'w plentyn fynd i Lanidloes ac mae lle yn Llanidloes yna maen nhw'n cael cynnig lle. Ac os yw'r plentyn hwnnw'n agosach at Llanidloes a dyna ei ysgol agosaf yna maent yn cael trafndiaeth am ddim. Dyna'r sefyllfa ar hyn o bryd. Yr hyn sydd angen i ni ei wneud os yw hyn yn mynd yn ei flaen yw sicrhau bod eglurder ynghylch pa ysgol mae Dafydd Llwyd yn ei bwydo. Yn y gorffennol mae wedi bod yn Fro Caereinion ond yn ddiweddar mae wedi bod yn Llanidloes a Bro Caereinion, felly mae hynny'n rhywbeth y bydd angen i ni edrych arno, oherwydd er mwyn i hyn lwyddo mae angen i ni ei wneud mor hygrych i gynifer o ddisgyblion â phosibl.

Aelod Staff: Mae dau elfen gwahanol i'r cwestiwn hwnnw. Rhaid gwneud yn siŵr bod digon o ddisgyblion cyfrwng Cymraeg yn dod i'r ysgol i wneud hyn yn ymarferol, ond o safbwynt arall mae'n golygu os oes gennych chi ddisgybl cyfrwng Saesneg a'u rhieni yn penderfynu peidio â'u hanfon i'r ysgol hon mwyach, bod ganddyn nhw le i fynd i rywle fel Llanidloes, oherwydd ar hyn o bryd mae'n cael ei ystyried yn llawn a does neb yn gallu cael mynediad iddo. Ond yn y ddogfen ymgynghori dyma'r unig ysgol sy'n dod allan fel un sy'n dda ar draws pob categori yn seiliedig ar yr arolygiad Estyn diwethaf. Pe bawn i'n rhiant yn darllen y byddwn i'n meddwl pe na bawn i

eisiau i'm plentyn fynychu'r ysgol hon ac eisiau iddyn nhw fynd i Lanidloes ni allaf oherwydd ei fod yn llawn a does dim capasiti. Nid yw'n ymddangos bod Cyngor Sir Powys eisiau gwneud yr ysgol honno'n fwy.

Georgie Bevan: Rwy'n credu mai un o'r heriau mwyaf yw dewis rhieni, mae canllawiau cenedlaethol yn dweud bod gan rieni hawl i ddewis. Yr hyn y byddwn yn ei ddweud yw ein bod yn gweithio'n agos iawn gyda derbyniadau, felly rydym yn glir iawn ynghylch dalgylchoedd a phethau felly. Mae'r polisi trafndiaeth yn adlewyrchu ein bod ar hyn o bryd yn edrych ar hynny fel cam i gefnogi hyn wrth symud ymlaen. Ar adegau mae yna ganfyddiadau mewn cymunedau o amgylch ysgolion, ac mewn gwirionedd yr hyn sy'n deillio o hynny yw gweithio mewn clwstwr ac mae hynny'n dechrau gwella go iawn, rwy'n gwybod o'r gwaith y mae'r tîm yn ei wneud o amgylch cefnogaeth i'r Cwricwlwm i Gymru. O'n safbwynt ni dyw plant ddim yn cael llefydd os nad oes llefydd ar gael, ac mae maint yr ysgol honno yn cyd-fynd â maint ei dalgylch, o ran y llefydd a'r clwstwr. Yr hyn y mae angen i ni ganolbwyntio arno nawr yw'r llwybr cyfrwng Cymraeg soniodd Marianne amdano, ac o'r cynradd i'r uwchradd felly o 3 i 18, sut mae'r trawsnewid hwnnw'n dechrau, a'r gêm hir o sut mae hynny'n edrych i blentyn ar y llwybr addysg hwnnw. Mae'r broses o amgylch derbyniadau yn glir iawn, mae'n broses statudol. Os nad oes lle mewn ysgol ac nad ydych o fewn y dalgylch ni allwch gael lle yn yr ysgol honno.

Aelod Staff: Sut mae hynny'n gweithio er enghraifft os oes gennych chi ddisgybl ym mlwyddyn 5 yn y ffrwd Saesneg a'ch bod yn penderfynu eu hanfon i'r Trallwng. Fyddden nhw'n cael trafndiaeth petaen nhw'n byw yn Llanfair? Y Trallwng fyddai eu hysgol cyfrwng Saesneg ddynodedig, a fyddent yn cael y cludiant?

Marianne Evans: Mae'r polisi trafndiaeth fel y mae ar hyn o bryd yn nodi bod gan blentyn hawl i gludiant am ddim i'w hysgol agosaf os ydynt yn byw mwy na 2 filltir i ffrwd o'r ysgol i ddisgyblion cynradd, neu fwy na 3 milltir i ffrwd ar gyfer ysgolion uwchradd. Felly pe bai rhieni sy'n byw yn Llanfair Caereinion yn penderfynu nad oedden nhw am i'w plentyn ddod i Fro Caereinion pe byddai'n dod yn ysgol Gymraeg, ac fe benderfynon nhw eu bod am iddyn nhw fynd i'r Trallwng, yna ni fyddant yn cael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol am nad yw'r polisi trafndiaeth yn gwahaniaethu rhwng yr ieithoedd. Rwy'n mynd i ddod â Sarah i mewn fan hyn.

Sarah Astley: Ydy mae hynny'n iawn, cludiant i'r ysgol agosaf beth bynnag fo'r iaith, ond os nad yw'r ysgol agosaf yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg yna byddai cludiant i'r darparwr cyfrwng Cymraeg agosaf yn cael ei ddarparu hefyd. Fodd bynnag, nid yw'r polisi trafndiaeth presennol yn cynnwys yr un darpariaeth i gael mynediad i'r darparwr cyfrwng Saesneg agosaf os yw'r ysgol agosaf yn ysgol cyfrwng Cymraeg.

Aelod Staff: Felly dywedwch eich bod chi'n symud o Ganolbarth Lloegr i Lanerfyl ymhen ychydig flynyddoedd, os aiff hyn drwodd a fydddech chi'n cael cludiant i ysgol cyfrwng Saesneg?

Sarah Astley: Yn seiliedig ar y polisi trafndiaeth presennol na. Ond mae trafndiaeth yn rhywbeth sydd wedi dod trwodd yn gryf yn yr ymateb i'r ymgynghoriad, felly mae'n rhywbeth y bydd yn rhaid i ni edrych arno os bydd hyn yn mynd yn ei flaen. Hefyd, ysgrifennwyd y polisi trafndiaeth presennol mewn cyfnod pan nad oedd gennym ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg felly nid oedd yn broblem, ond nawr gan fod pethau wedi dechrau newid mae'n rhywbeth sydd angen edrych arno eto efallai.

Aelod Staff: Yn fy nosbarth i mae gen i ddisgyblion sydd wedi symud o Swydd Derby a Chanolbarth Lloegr ac wedi bod yn byw mewn parc carafanau ac maen nhw'n meddwl prynu neu rentu tŷ ac yn amlwg mae angen iddyn nhw wybod. Mae'r rhain yn benderfyniadau mawr i deuluoedd, onid ydyn nhw? Mae mwy i hyn na dim ond yr ysgol ei hun.

Georgie Bevan: Rydyn ni wedi cael sefyllfaoedd tebyg yn nalgylch Bro Hyddgen, pobl yn symud yn ystod y pandemig, pobl yn symud i fyny o Lundain a'r dinasoedd i fyw ond wedyn mae'r gefnogaeth honno wedi ei darparu i'r teulu drwy raglen Trochi, ac maen nhw wedi dod i mewn ac eisiau cofleidio'r arlwy addysg Gymraeg ac mae hynny wedi bod yn llwyddiannus. Ac mae'r gefnogaeth honno ar gael. Does dim rhaid i chi fynd i ysgol cyfrwng Saesneg pan fyddwch yn dod i mewn o'r tu allan, mae cefnogaeth i'ch helpu i bontio i addysg cyfrwng Cymraeg hefyd. Mae'n sefyllfa fesul achos, ond rydym yn ymwybodol o'r pryderon ynghylch y polisi trafndiaeth.

Aelod Staff: Onid yw hynny'n wahaniaethol, oherwydd bod gennych hawl i anfon eich plant i gael eu haddysgu yn yr iaith a ddewisoch ond os ydych chi wedi dewis anfon eich plant i ysgol Saesneg ac nad yw hynny ar gael, yna rydych chi'n gwahaniaethu os nad ydych chi'n darparu cludiant iddyn nhw i'r iaith o'u dewis lle rydych chi'n darparu cludiant i blant Cymraeg.

Marianne Evans: Mae'r polisi trafndiaeth yn seiliedig ar ddeddfwriaeth – Mesur Teithio i Ddysgwyr Cymru 2007 – ac mae'n cyd-fynd â'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer darparu cludiant ysgol, felly mae'n drafndiaeth i'ch ysgol agosaf, ac mae hefyd yn adlewyrchu'r gofyniad i awdurdodau lleol hyrwyddo mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, dyna pam y newidiodd ein polisi trafndiaeth yn 2020 i adlewyrchu'r canllawiau hynny. Mae'r canllawiau hyn ar gael i unrhyw un edrych arnynt.

Aeth y polisi trafndiaeth presennol fel y mae ar hyn o bryd o 2020 allan i ymgynghoriad a chafwyd proses gwneud penderfyniadau clir, felly pe baem yn mynd i adolygu'r polisi trafndiaeth eto, gallem ei wneud fel rhan o'r datblygiad hwn. Byddai angen i ni ymgynghori arno a mynd ag ef i ymgynghoriad ffurfiol. Os daw her, yna byddai'n her a fyddai'n dod wedi'r penderfyniad ar y polisi trafndiaeth yn hytrach nag unrhyw benderfyniad arall.

Aelod Staff: Onid ydych chi'n meddwl eich bod chi'n mynd i gael llawer o'r heriau hyn yn dod trwodd?

Marianne Evans: Mae wedi bod yn rhedeg ers tair blynedd bellach. Chawsom ni ddim cymaint â hynny o heriau na chyhuddiadau ei fod yn wahaniaethol yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd gennym bobl a oedd yn ei ystyried yn gam cadarnhaol i Gyngor fel Powys sydd heb gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ers amser maith.

Aelod Staff: Mae'n debyg mai dyna'r ddatl a'r pryder. Un o'r pryderon mwyaf pan fydd ysgolion yn mynd trwy drawsnewid yw am y gefnogaeth sy'n mynd gyda hynny, ac mae hynny'n cynnwys trafndiaeth a'r holl bethau eraill rydyn ni wedi'u trafod. Dydyn ni ddim yn gwybod sut y gallai rhieni lleol deimlo, ac efallai nad ydyn nhw'n gwybod y gallai eu plant fynd trwy Trochi, felly iddyn nhw mae'r drafnidiaeth honno'n bwysig os gall Powys ystyried hynny. Yn amlwg ni fyddai am y tymor hir oherwydd ni fyddai ei angen ar gyfer y tymor hir, dim ond am y blynyddoedd cyntaf neu rywbeth. Y gefnogaeth honno sy'n mynd i fod yno i'r teuluoedd hynny a'r dysgwyr hynny nad ydynt yn mynd ar hyd y continwmm iaith, ond eu bod yn dal i gael eu cefnogi gan Bowys a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mewn manau eraill, os ydych chi'n gwybod beth rwy'n ei olygu.

Marianne Evans: Ie rwy'n deall, mae'n ymwneud â darparu'r cymorth hwnnw yn ystod y cyfnod pontio, ac nid o reidwydd ei osod am byth.

Aelod Staff: Nid oes angen ei ddarparu am byth, dim ond yn y blynyddoedd y mae'r trawsnewid yn mynd yn ei flaen.

Marianne Evans: Ie, pwynt da.

Aelod Staff: Mae lles staff yn allweddol. Beth yw'r ddarpariaeth ar gyfer lles oherwydd mae hwn yn gyfnod hynod o straen, yn enwedig o ran y cwricwlwm cenedlaethol a meithrin perthnasoedd. Pa ddarpariaeth a chefnogaeth sydd ar gael ar gyfer lles staff?

Aelod Staff: Mae angen i mi wybod bod fy swydd yn ddiogel. Dyna'r gefnogaeth sydd ei hangen arnaf.

Marianne Evans: Ar hyn o bryd mae'n anodd gan ein bod yn y broses ymgynghori hon felly nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud. Rydym yn ystyried pryderon pawb, mae gan bawb bryderon ac mae pobl yn delio â newidiadau mewn gwahanol ffyrdd. Mae proses i fynd drwyddi yma i gyrraedd pwynt lle rydyn ni'n gwybod a yw'n bwrw ymlaen ai peidio neu os oes newid. Mae yna broses y mae angen i ni fynd drwyddi, ac mae angen i ni sicrhau ei bod yn cael ei gwneud yn gywir. Mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau bod y broses mor gadarn â phosibl fel y gallwn gyrraedd y penderfyniad cywir.

Rwy'n deall y pryderon am eich swyddi presennol, oherwydd bydd yn cymryd cryn amser i'w gweithredu. O ran swyddi unigol, os bydd hyn yn symud ymlaen ac yn cael ei gyflwyno'n raddol o 2025 mae'n anodd gwybod sut y bydd nifer y disgyblion yn glanio, pa le fydd ei angen ar yr ysgol gynradd, sut y bydd hyn yn cael ei ddatblygu,

beth yw'r effeithiau i athrawon, pa strwythur staffio fydd ei angen, ac oherwydd ei fod yn raddol bydd yn broses sy'n esblygu, dyna mae Bro Hyddgen yn delio ag ef hefyd, maen nhw'n pontio o flwyddyn i flwyddyn sy'n effeithio ar ofynion staffio.

Georgie Bevan: O'n safbwynt ni, ein rôl ni yw cefnogi'r ysgol gyda'n gilydd drwy gydol y broses. Fel y dywedodd Lynette yn gynharach, mae gennym Kath yno i gefnogi aelodau staff.

Aelod Staff: Mae'n ddrwg gennyf, ym mha ffordd y bydd cefnogaeth yn cael ei darparu i aelodau staff, dyna beth rwy'n ei ofyn mewn gwirionedd.

Marianne Evans: Y peth cyntaf yw bod gennych chi rywun i siarad â nhw. Ni wneir unrhyw benderfyniad am gryn amser ac ni fydd union nifer y disgyblion, staffio, cyllid, y manylion yn hysbys am gryn amser. Ond os oes angen rhywun arnoch i siarad â nhw nawr, gallwn ddarparu hyn naill ai drwy Adnoddau Dynol neu ddulliau eraill, fel y gallwch chi leisio a rhannu'r pryderon. Efallai nad oes gennym atebion a dyna'r realiti a'r anfantais o beidio â gwybod sefyllfaoedd penodol, ond rydym yn gwybod y dull cyffredinol.

Georgie Bevan: Fel rhan o'ch cefnogaeth gyffredinol yn yr ysgol bydd gennych aelodau o staff sydd wedi gweithio gydag aelodau eraill o staff i gefnogi hynny hefyd. Gallwn ddarparu cefnogaeth naill ai ar gyfer sgysiau grŵp neu un i un, ond yn amlwg mae gennych eich uwch dîm arweinyddiaeth eich hun hefyd yn gwneud yr un peth.

Aelod Staff: Nid wyf mor argyhoeddedig am yr hyn sydd yn yr ysgol, ond nid yr ysgol ond beth fydd Powys yn ei ddarparu beth bynnag.

Sarah Jones: Roeddwn i yma ddoe, ac rydym yn delio â'r prosesau a beth fyddai'n digwydd pe bai hyn yn digwydd. Rydyn ni'n siarad trwy'r prosesau, sut fyddai pethau'n edrych pe bai'r penderfyniad yn cael ei wneud. Rwy'n gwybod nad yw'n ateb y cwestiwn yn benodol o ran amgylchiadau personol ond mae'n rhoi syniad i chi o ba brosesau fydd ar waith a sut mae hynny'n edrych. Gallwn gael sgws un i un gyda staff a darparu cefnogaeth. Mae gennym y rhaglen cymorth i weithwyr 'Vivup' sydd ar gael i chi, neu gallwn eich cyfeirio at wahanol lefydd yn dibynnu ar eich pryderon. Efallai na fyddwn yn gallu ateb eich union gwestiynau, ond gallwn fynd trwy beth yw'r polisiâu a sut fyddai'r broses yn gweithio. Ar ôl i'r broses bresennol ddod i ben, pe bai'r penderfyniad yn cael ei wneud i fwrw ymlaen, yna byddai drosodd i'r ysgol bryd hynny, a byddai ymgynghoriad pellach gyda chi fel staff am yr effaith arnoch chi a'r ysgol, felly byddai mwy o ymgynghoriadau a thrafodaethau un i un a thrafodaethau manylach ar sut mae hynny'n effeithio arnoch chi a'ch rôl a'r ysgol ehangach. Felly byddem yn cael llawer o gyfarfodydd ac ymgynghoriadau yn dibynnu ar ba gam yr ydym yn y prosesau.

Aelod Staff: O ran y sgysiau roeddech chi'n cyfeirio atynt gyda staff, a fyddai'r strwythur, y staffio, y cyfrifoldebau, contractau yn cael eu newid?

Sarah Jones: Mae potensial y byddai newidiadau, mae yna botensial bob amser pan fyddwch chi'n sôn am ailstrwythuro, ac efallai os oes angen i ni edrych ar ddisgrifiadau swyddi lle mae'r Gymraeg yn ddymunol ar hyn o bryd ac mae angen i'r Gymraeg fod yn hanfodol, yna byddai hynny'n newid cytundebol. Felly mae posibilrwydd, ni allaf ddweud nad oes, a byddai maint y newid yn dibynnu ar ba gynnig sy'n symud ymlaen, sut y caiff ei symud ymlaen a'r penderfyniad rhwng y pennaeth a'r llywodraethwyr o ran sut fydd hynny'n edrych. Felly allwn ni ddim dweud na fydd unrhyw newidiadau, ond fyddwn ni ddim yn gwybod faint o newid nes ein bod ni'n gwybod beth yw'r penderfyniad.

Aelod Staff: Wrth symud ymlaen does gennym ni ddim athro Mathemateg Cymraeg. Sut ydych chi'n mynd i ddarparu gwersi cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion? Sut ydych chi'n mynd i allu darparu neu warantu y bydd athro Cymraeg ar gyfer pob pwnc? Mae prinder athrawon cyfrwng Cymraeg yn y wlad. Sut ydyn ni'n mynd i fod yn ysgol Gymraeg os nad oes gennym athrawon Cymraeg?

Marianne Evans: Mae hynny wedi codi cryn dipyn gyda'r disgyblion heddiw. Mae'n broblem genedlaethol nid problem sy'n benodol i'r ysgol hon. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar yr elfen yma o athrawon cyfrwng Cymraeg, maen nhw'n gweithio'n galed iawn ar hyn. Fel rhan o'n Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg mae gennym adran ar weithlu hefyd, felly rydym yn edrych ar hynny ac yn datblygu ein gweithlu cyfrwng Cymraeg ein hunain yn y sir.

Rwy'n credu hefyd bod llawer mwy i'w wneud o ran ysgolion yn cydweithio gyda'i gilydd. Mae Ysgol Bro Hyddgen yn symud ar hyd y continwwm, os bydd y cynnig hwn yn mynd yn ei flaen byddai Bro Caereinion hefyd yn symud ar hyd y continwwm, felly mae posibiliadau yno. Rwy'n credu bod yn rhaid i ni fod yn arloesol oherwydd ar hyn o bryd rydym yn gwybod bod gan Lywodraeth Cymru weledigaeth yr ydym yn prynu i mewn iddi ac yn ei chyflawni ar eu rhan, ond gwyddom hefyd fod ganddynt lawer o waith i'w wneud i ddatblygu'r gweithlu i gyflawni'r uchelgais hwnnw.

Lynette Lovell: Mae hwn yn fater ac rwy'n gwerthfawrogi hynny'n llwyr, ond nid yw'n rheswm ar hyn o bryd i ni roi'r gorau i feddwl am y llwybr hwn yr holl ffordd drwodd. Nid wyf fi fy hun yn siaradwr Cymraeg, bydd llawer ohonoch yn gwybod fy mod wedi anfon fy mhlant trwy addysg Gymraeg yma yn Ysgol Uwchradd Llanfair Caereinion ar gyfer eu haddysg uwchradd. Fe'i gwnaed yn glir iawn i mi pan ddechreuodd fy mhlant yn yr ysgol gan y prifathro yn Ysgol Dafydd Llwyd ar y pryd, os oeddwn i'n ystyried anfon fy mhlant am addysg cyfrwng Cymraeg roedd angen iddo fod yr holl ffordd drwodd.

Yr hyn yr ydym wedi'i weld dros y blynyddoedd diwethaf, sydd eisoes wedi cael ei drafod, yw gostyngiad sylweddol o ran plant a rhieni cyfrwng Cymraeg yn cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol uwchradd. Mae hyn wedi digwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn eithaf sylweddol. Mae nifer o blant Dafydd Llwyd bellach yn mynd i Ysgol Uwchradd Y Drenewydd ar gyfer eu haddysg

uwchradd, mae Ysgol Gymraeg Y Trallwng yn tyfu'n gyflym, a'n gweledigaeth ar gyfer y dyfodol yw cael addysg Gymraeg uwchradd yma yn y rhan yma o Sir Drefaldwyn fel bod rhieni'n dewis y llwybr hwnnw yr holl ffordd drwyddo. Mae addysgu mathemateg yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4 drwy gyfrwng y Gymraeg yn hanfodol i gyflawni hyn, ond allwn ni ddim stopio gwneud hyn oherwydd nad oes athro yma ar hyn o bryd, mae'n sefyllfa ieir ac wyau. Fodd bynnag, rwy'n deall bod hyn yn broblem.

O fewn y Cyngor, rydym wedi sefydlu Gweithgor, yr hyn yr ydym am ei wneud yw denu athrawon i ddod i Ganolbarth Cymru. Ar hyn o bryd mae gennym athrawon sy'n symud yn ôl i ardaloedd mwy Cymraeg eu hiaith neu ardaloedd eraill i gael mynediad at ddarpariaeth uwchradd cyfrwng y Gymraeg ar gyfer eu plant, gan nad ydynt yn credu bod gennym y ddarpariaeth yma gan nad oes ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn denu athrawon i Sir Drefaldwyn oherwydd bydd eu plant hefyd yn cael addysg dda iawn trwy gyfrwng y Gymraeg yr holl ffordd drwodd a bydd ganddyn nhw'r llwybr hwnnw.

Mae angen i ni allu denu athrawon, ond yn y tymor byr rydym wedi sefydlu Gweithgor y mae AD yn arwain arno i chwilio am ar unrhyw bobl sy'n siarad Cymraeg ym Mhowys sydd â gradd mathemateg neu radd gwyddoniaeth ac nad ydynt yn athrawon hyfforddedig i weld a allwn ni gael ein strategaeth ein hunain ym Mhowys i'w rhoi trwy'r TAR fel ein bod yn tyfu ein hathrawon cyfrwng Cymraeg ein hunain yn y pynciau hynny, yn enwedig lle mae gennym brinder. Ac mae gennym brinder, mae gennym brinder ar draws ein hysgolion cynradd ac mae'r cyflenwad yn brin yn y sector cyfrwng Cymraeg. Mae'n fater enfawr i Lywodraeth Cymru yn y maes hwn o amgylch gweithlu.

Mewn ateb i'ch cwestiwn mae'n fater, mae gan blant yr hawl pan fyddant yn dechrau addysg cyfrwng Cymraeg i gael hynny yr holl ffordd drwodd yn Gymraeg ym mhob pwnc. Nid ydym yno eto ond ni ddylai hyn ein hatal rhag cael dyheadau i gyrraedd yno.

Aelod Staff: Mae disgyblion yn y ffrwd Gymraeg yn cael hynny ar hyn o bryd, ac nid mathemateg yn unig yw hi.

Aelod Staff: Mae'n broblem, a dwi ddim yn erbyn y newidiadau, ond os oes diffyg athrawon nawr, ac yna rydych chi'n dal i gael trafferth cael yr athrawon Cymraeg hynny ar ôl i'r ysgol newid i gyfrwng y Gymraeg, beth ydych chi'n mynd i'w wneud wedyn?

Lynette Lovell: Gobeithio fy mod i wedi ateb hynny drwy ddweud ei gwneud hi'n fwy deniadol cael pobl yma. Mae gennym ein strategaeth ein hunain i weithio drwyddi.

Aelod Staff: Ond mewn blynyddoedd i ddod os nad yw hynny'n gweithio bydd angen i'r ysgol newid eto os na allwch gael y staff hynny.

Lynette Lovell: Mae'n her ac mae'n rhywbeth y mae'n rhaid i ni fynd i'r afael ag ef wrth symud ymlaen, ac rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i fynd i'r afael â hynny.

Aelod Staff: Ar gefn hynny, efallai y byddwch yn colli cryn dipyn o staff cyfrwng Saesneg talentog yn ogystal, a all adael oherwydd eu bod yn meddwl y gallai hyn effeithio arnynt, gadewch i ni fynd cyn i mi gael fy gwthio. Mae llawer ohonom wedi hyfforddi ers sawl blwyddyn i wneud ein gwaith, nid yw fel pe bai llawer iawn o bobl eisiau mynd i addysgu. Rwy'n mynd yn ôl at les meddyliol, mae'n swydd anodd iawn, rwyf wedi bod yn ei wneud ers 31 mlynedd ac i ddal ati, mae'n alwedigaeth. Mae yna swyddi sy'n talu'n well allan yna ond rydyn ni'n gwneud hynny oherwydd ein bod ni'n poeni, ac mae'n rhaid i Bowys fod yn ofalus iawn yma dydyn nhw ddim yn colli staff da, yn y cyfrwng Cymraeg a'r cyfrwng Saesneg.

Lynette Lovell: Nid ydym am golli staff da.

Marianne Evans: Dyna pam rydym yn cyflwyno hyn fesul cam a fydd yn helpu gyda hynny, mae amser i'w ddatblygu, ni fydd yn cael ei weithredu'n llawn am nifer o flynyddoedd, byddai'n cael ei gyflwyno'n raddol. Rydym yn gwybod bod newid Blwyddyn 7 yn fater y bydd angen i ni edrych arno. Ond yr allwedd i hyn yw'r gefnogaeth y gallwn ei darparu i'r holl staff. Os yw'r ysgol ar y daith iaith hon, yna mae angen i ni gynnig y pecynnau cymorth hynny i unrhyw staff sydd eisiau dysgu Cymraeg neu wella eu rhuglder. Mae hynny'n rhywbeth y byddwn ni'n ei gynnig hefyd. Rwy'n cymryd eich pwynt ynglŷn â'r staffio, ond rwy'n credu ei fod yn ddull dwy ran, rhaid i Lywodraeth Cymru fwrw ymlaen ag ef, ac mae angen i ni fod yn rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru, ond mae angen i ni hefyd fod yn datblygu ein rhai ni fel bod mwy nag un dull.

Aelod Staff: Mae'n beth cadarnhaol i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg yng Ngogledd Powys, mae hyn yn bwysig i'w gofio. Ers blynyddoedd bu angen datblygu addysg cyfrwng Cymraeg. Mae wedi bod yn y CSCA ers 2016, ond mae hyn wedi bod yn digwydd ers degawdau. Os nad dyma'r lle i gefnogi a datblygu'r iaith beth yw ein dyfodol yma plis? Os na fydd y ddarpariaeth hon yn digwydd yma i fodloni'r ymrwymadau yn y CSCA, beth fydd yn digwydd i ni wedyn?

Marianne Evans: Cwestiwn da. Fe wyddoch am gyfnod fod sôn wedi bod am sefydlu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg newydd yn y Drenewydd neu yn Nyffryn Hafren fel y lleoliad mwyaf strategol i allu denu pawb yn ganolog. Mae yna broblemau gyda hynny. Pe bai ysgol Gymraeg newydd yn cael ei sefydlu yn Y Drenewydd neu rywle arall yn yr ardal, rydym yn ôl at y cwestiwn o sut fydddech chi'n ei staffio? Yr ail gwestiwn yw o ble fyddai'r disgyblion yn dod? Trydydd fyddai beth fyddai'r effaith ar Ysgol Bro Caereinion o ran niferoedd disgyblion. O ran datblygu addysg Gymraeg yn y sir does dim dewis heblaw gwneud hyn o fewn y strwythur sydd gennym. Yn ariannol mae'r Cyngor fel pob Cyngor arall yn wynebu sefyllfa heriol wrth symud ymlaen. Ni allwn ychwanegu ysgol uwchradd newydd arall gan na allwn ei fforddio. Felly, mae'n rhaid i ni ddatblygu o fewn y strwythur presennol. I fod

yn onest, pe bai datblygiad yn Y Drenewydd neu Ddyffryn Hafren, byddwn i'n dweud y byddai'n fygythiad i Fro Caereinion, does dim amheuaeth am hynny. Dyna pam ei bod yn bwysig datblygu hyn yma, gan mai dyma lle mae'r ddarpariaeth ar hyn o bryd, y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg orau sydd gennym, dyma lle mae gennym y niferoedd, felly yn strategol dyma'r ateb i'r broblem.

Aelod Staff: Os nad symud ymlaen yw canlyniad yr ymgynghoriad, beth sy'n digwydd wedyn? A fydd angen ailysgrifennu'r CSCA?

Marianne Evans: Mae'n debygol y byddai angen diwygio'r CSCA a'i ail ysgrifennu. Byddai'n rhaid i ni fynd yn ôl at Lywodraeth Cymru ac egluro pam nad ydym yn symud ymlaen yn y cyfeiriad a fwriadwyd. Mae Llywodraeth Cymru yn debygol o fod yn bryderus bod mwy o amser wedi cael ei wastraffu ym Mhowys wrth symud ymlaen gyda hyn, ond ar ddiwedd y dydd byddai angen i ni fod yn symud o hyd at gael ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg bwrpasol yng Ngogledd Ddwyrain Powys a byddai'n rhaid i ni edrych ar ble y byddem yn ei lleoli.

Sarah Astley: Nid yw'r pwysau i sefydlu darpariaeth uwchradd Gymraeg ddynodedig yn mynd i ddiflannu. Os nad yma ym Mro Caereinion, byddai'n rhaid i ni edrych eto ar opsiynau eraill, a byddai'r opsiynau eraill hynny'n debygol o gael effaith ar Ysgol Bro Caereinion.

Aelod Staff: Fel mam i ddau o blant sydd wedi bod drwy addysg yn Ysgol Uwchradd Caereinion roedd safon yr addysg drwy'r cyfrwng Cymraeg yn wych, ac i mi mae pob ysgol gynradd sydd yn y clwstwr neu'r dalgylch yn gallu cynnig addysg Gymraeg i bob plentyn. Mae'r dewis eisoes ar gael, onid ydyw? Os ewch chi i ffrwd Gymraeg ti'n dod i Fro Caereinion a ti'n mynd mewn i'r ffrwd Gymraeg a ti'n derbyn dy addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cyd-dynnu â'i gilydd ac mae'n rhaid i ni gofio bod yr ardal hon yn ddwyieithog a does dim llawer o boblogaeth. Mae'r plant eisiau byw gyda phawb arall. Yn fy marn i mae fy mhlant wedi cael addysg wych yn ysgol Caereinion. Roedd addysg cyfrwng Cymraeg ar agor i bawb ond roedd gan rieni ddewis. Os oeddech chi'n siarad Cymraeg yn ysgol Rhiw Bechan, Ysgol Gymraeg y Trallwng neu Ardwyn ar y pryd, neu roedd gan ysgolion eraill fel Pontrobert ddarpariaeth drwy'r cyfrwng Cymraeg. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion y dalgylch hwn yn darparu addysg yn Gymraeg. Felly, rydych chi'n dweud eich bod chi'n mynd i wella addysg Gymraeg ond roedd yma o'r blaen a daeth plant Ysgol Dafydd Llwyd yma. Mae safon yr addysg yn wych a'r Gymraeg yn wych.

Dwi'n bryderus iawn am safon y Gymraeg ac mae safon y Saesneg hefyd yn wan a beth sy'n mynd i ddigwydd i'r plant ag anghenion arbennig. Ni fyddant yn gallu ymdopi â dwy iaith. Os yw eu rhieni'n dymuno hynny, ni fyddant yn medru a mae hyn yn ffaith. Dydw i ddim yn targedu neb ond mae'n rhaid i chi fod yn eithaf deallus i allu ymdopi â dwy iaith. Dros y blynyddoedd tra roedd fy mhlant yn yr ysgol doedd dim athro Cymraeg ar gyfer rhai pynciau. Cawson nhw eu dysgu yn Saesneg, roedd arholiadau yn Gymraeg, dwi ddim yn cofio nawr, ond doedd o ddim digon da bryd hynny ac roedd sawl ymgais i gael athro Cymraeg. Rwy'n gwybod ei fod yn broblem

genedlaethol ond mae angen i'r Llywodraeth hefyd feddwl am sut rydyn ni'n mynd i ddarparu'r addysg Gymraeg orau gan fod angen i ni gofio bod safon y Gymraeg yn bwysig.

Marianne Evans: Mae'r hyn rydych chi'n ei ddweud yn synhwyrol iawn. Os byddwn yn symud ymlaen gyda'r cynnig nid ydym am gael addysg Gymraeg is-raddol. Mae angen addysg Gymraeg o'r safon uchaf arnom.

Aelod Staff: Rwy'n cytuno. Ond mae safon y Gymraeg yn lleihau ac felly hefyd safon y Saesneg dwi'n amau.

Marianne Evans: Dyma gyfle i Fro Caereinion fod yn ddarparwr nid yn unig ar gyfer y clwstwr ond hefyd y darparwr Cymraeg ar gyfer yr ardal ehangach. Dydyn ni ddim yn tynnu dim byd oddi wrth yr addysg sydd wedi ei ddarparu yma, mae Lynette yn gwybod gan fod ei phlant wedi bod yma, hefyd pethau eraill – mae Ysgol Bro Caereinion wedi bod yn amlwg gyda gweithgareddau'r Urdd dros y blynyddoedd. Fodd bynnag, mae'r pwynt yn dod pan mae'n rhaid i ni edrych a yw'r model dwy ffrwd sydd gennym yn gynaliadwy, a yw'n darparu'r hyn sydd ei angen ar deuluoedd a rhieni ac mae hyn yn dod i mewn iddo. Dyw Ysgol Bro Caereinion ddim yn ysgol fawr beth bynnag ac o fewn yr ysgol mae dwy ffrwd. Mae'r un broblem yn bodoli yn Ysgol Bro Hyddgen, ysgol fach a ffrydiau bach.

Aelod Staff: Yn 2010 arferai fod yn ysgol fawr o 660 o ddisgyblion ac oherwydd newid yn y polisi trafndiaeth gyda bysiau collon ni ddisgyblion Saesneg o'r Drenewydd. Felly roedd y ddwy ffrwd yn gynaliadwy. Roedd 660 o ddisgyblion yn yr ysgol uwchradd. Pe baech yn cynnwys yr ysgol gynradd byddai'n agos at 1000 o ddisgyblion.

Marianne Evans: Fodd bynnag, mae'r niferoedd mewn ysgolion ar draws y sir wedi gostwng

Aelod Staff: Ond mae Llanidloes wedi saethu hyd at dros 700 o ddisgyblion yn ôl staff Llanidloes.

Marianne Evans: Mae Llanidloes wedi cynyddu ond mae'r niferoedd cyffredinol wedi gostwng.

Aelod Staff: Dywedodd y Pennaeth Cynorthwyol yr wythnos diwethaf eu bod bron ar frig eu niferoedd.

Aelod Staff: Nid ydynt mor fawr ag yr oeddent yn y 2000au cynnar. Maen nhw wedi lleihau oherwydd bod nifer yr adeiladau ar y safle wedi gostwng. Felly, mae'r niferoedd yn gostwng.

O ran Dafydd Llwyd mae hyn yn wahanol, dydy rhai o'r plant sy'n mynd yno ddim o'r Drenewydd, maen nhw'n dod o ardaloedd eraill, felly bydd y disgyblion yma wastad

yn mynd i ysgolion eraill, ond mae angen i ni gynyddu'r niferoedd sy'n dod yma. Yn y flwyddyn derbyn mae ganddyn nhw 38 o blant. Mae'n rhaid i ni ddenu'r rhain a newid agweddau rhieni tuag at Gaereinion, gan fod llawer ohonyn nhw wedi bod yn gobeithio am ddarpariaeth uwchradd yn Y Drenewydd yn lle.

Aelod Staff: Rwyf wedi clywed o bryd i'w gilydd bod yr ysgol yn cael ei galw'n ysgol 3 i 18, ond nid yw ysgolion yma yng Nghymru yn derbyn plant cyn-ysgol. Mae newid yn mynd i ddod, achos mae hynny'n ffordd o gael plant i mewn i addysg Gymraeg yw eu cychwyn nhw yn y cyfnod cyn-ysgol.

Lynette Lovell: Rydych chi'n iawn, mae'r ddarpariaeth 3 oed ym Mhowys yn ein lleoliadau. Mae gennym broffil Estyn da iawn o ran ein lleoliadau. O ran cyfrwng Cymraeg rydyn ni'n gweithio'n agos iawn gyda Chylch Meithrin oherwydd rydych chi'n hollol gywir, dyna pryd mae angen y plant arnoch chi. Rydyn ni'n gweithio ar sefydlu'r ddarpariaeth 3 oed honno, ac mae'r Cylch Meithrin yn gwbl gywir ar gyfer y llwybr hwnnw.

Aelod Staff: Mae rhai rhieni'n methu anfon eu plant i'r Cylch Meithrin oherwydd oriau gwaith. Ond roedden nhw'n gallu eu hanfon i ysgolion oherwydd clwb brechwast a chlwb ar ôl ysgol, ac fe gawson nhw addysg Gymraeg yn y cyfnod cyn-ysgol. Powys yw'r unig sir yng Nghymru lle mae hyn yn wahanol, rydych chi'n dweud eich bod chi am gynyddu addysg Cymraeg, ond dyw plant ddim yn cael addysg Gymraeg fel siroedd eraill cyn ysgol.

Lynette Lovell: Mae hynny'n bwynt da iawn.

Marianne Evans: Newidiodd y polisi derbyn i ysgolion o 2007 i'r mis Medi ar ôl i'r plentyn fod yn 4 oed. Nid wyf yn credu bod cynlluniau i newid hyn yn ôl ar hyn o bryd. Os nad oes darpariaeth yn yr ysgol mae'r bartneriaeth gyda'r Mudiad Meithrin yn bwysig ac rydym yn gweithio gyda'r Mudiad ac mewn llefydd fel Dafydd Llwyd mae nifer fawr o blant yn mynychu. Mae Cylch Meithrin yn y Trallwng yn tyfu. Mae'n bwysig bod y Cylchoedd Meithrin yn rhan o'r drafodaeth hon ac yn rhan o'r llwybr, felly mae cefnogaeth y Mudiad yn bwysig iawn. Mae rhai plant yn dechrau cyn y Cylchoedd yn syth o'r crud, ac mae'n rhaid i ni gael rhieni mewn i grwpiau Ti a Fi. Nid ar gyfer Bro Caereinion yn unig y mae'r datblygiad hwn ond ar gyfer Bro Caereinion, y clwstwr a'r ardal ehangach, o'r crud hyd ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Lynette Lovell: Mae'r cynnig hwn ar gyfer yr ardal gyfan. Mae gennym ni ddwy ysgol, Ysgol Gymraeg y Trallwng sy'n tyfu gyda niferoedd hyd at gant yno, a Dafydd Llwyd sy'n dal i dyfu. Ar hyn o bryd mae'r gostyngiad yng Nghyfnod Allweddol 2 yn sylweddol, maen nhw'n mynd pob ffordd wahanol, rwy'n credu eu bod ar hyn o bryd yn trosglwyddo i 8 ysgol sy'n wirion. O ran y ddarpariaeth wrth symud ymlaen o ran y polisi trafndiaeth hefyd pe bai'r cynnig hwn yn mynd rhagddo a'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, gall rhieni ddewis unrhyw ysgol, gan mai dewis rhieni yw dewis rhieni a gallant ddewis mynd i wahanol leoedd o hyd. O ran trafndiaeth, ar hyn o

bryd o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg, y dewis yw ysgol dwy ffrwd yn Llanidloes a Bro Caereinion, felly mae'n cynnig math tebyg o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Efallai nad ydych yn cytuno ei fod yn debyg, ond o ran y ganran y gallant ei chynnig drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'n debyg. Petai'r ysgol hon yn dod yn ysgol cyfrwng Cymraeg, mae hynny'n rhoi persbectif gwahanol iawn arni, oherwydd byddai gennych ysgol dwy ffrwd a byddai gennych ysgol cyfrwng Cymraeg yn cynnig darpariaeth gwbl Gymraeg ar gyfer y clwstwr ehangach, felly gan gynnwys Ysgol Dafydd Llwyd, Ysgol Gymraeg Y Trallwng, eich ysgolion clwstwr, a'r niferoedd yn tyfu yno.

O ran y pwynt yn gynharach ynglŷn â'r ffaith bod angen i ni ddatblygu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yng ngogledd ddwyrain Powys er mwyn bodloni amcanion ein CSCA. Petai Caereinion ddim yr ysgol honno yna byddai'n rhaid edrych ar safleoedd eraill. Dyma gyfle yma i ddatblygu ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yr ydym am ei defnyddio fel ysgol flaenllaw i'n hawdurdod lleol, dyna'r weledigaeth y tu ôl i hyn oll.

Rwy'n gwybod ei fod yn gymhleth, ac rwy'n gwybod bod sylwadau a phryderon ond dyna'r weledigaeth. Mae'r pwynt Trochi yn gwbl hanfodol a'r hyn a ddywedwyd am drafnidiaeth i ddisgyblion cyfrwng Saesneg, rwy'n credu bod hynny'n rhywbeth y bydd yn rhaid i ni ei gymryd yn ôl a darparu cefnogaeth wrth symud ymlaen. O ran Trochi, rydym wedi integreiddio disgyblion Blwyddyn 6 yn llwyddiannus eisoes drwy ein rhaglen Trochi sydd wedi gwneud eu darpariaeth sylfaenol yn Saesneg hyd at Flwyddyn 6 ac sydd bellach mewn darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg. Mae'n effeithiol ond bydd angen i ni gadw mewn cof y pwyntiau a wnaed yn gynharach am y niferoedd, felly mae llawer i'w ystyried.

O ran y weledigaeth ynghylch hyn, mae'r cynnig yn gyfle cadarnhaol i sicrhau bod gennym y continwwm hwnnw i'n pobl ifanc yng ngogledd-ddwyrain Sir Drefaldwyn, ac mae hynny'n cynnwys Ysgol Dafydd Llwyd ac Ysgol Gymraeg Y Trallwng.

Aelod Staff: Oes 'na gynllun i ymestyn yr hawl i drafnidiaeth, achos mae Ysgol Dyffryn Trannon yn Nhrefglwys yn gyfrwng Cymraeg. A fydden nhw'n dod yn rhan o'r clwstwr yn y pen draw ac yn dod yma yn lle Llanidloes?

Lynette Lovell: Mae hynny'n sicr yn rhywbeth i'w ystyried. Dwi'n cofio nôl yn y dyddiau pan ddaeth Dafydd Llwyd yn ysgol ar wahân yn hytrach na ffrwd Gymraeg Ysgol Hafren, roedd yng nghlwstwr Y Drenewydd. Pan ddaeth yn ysgol cyfrwng Cymraeg yn ei rhinwedd ei hun, gofynnodd y corff llywodraethu iddi fod yn rhan o'r clwstwr cyfrwng Cymraeg yma yng Nghaereinion a dyna ddigwyddodd.

Byddai hynny'n benderfyniad i'r corff llywodraethu ynghylch a oeddent am symud i glwstwr gwahanol ai peidio, does dim ots am bellter, lle mae ysgol eisiau gweithio a lle maen nhw'n teimlo y byddai ganddyn nhw'r llwybr hwnnw. Gallai fod yn rhywbeth y byddai'r ysgol eisiau ei ystyried wrth symud ymlaen, dydyn ni ddim yn gwybod.

Aelod Staff: Lynette rydych chi wedi ei gwneud hi'n amlwg nawr bod pawb yn deall y ddadl am ddarpariaeth Gymraeg, rydyn ni wedi gwybod hynny fel llywodraethwyr, mae pawb yn yr ystafell yn deall hynny. Ond o ran y darlun ehangach, dydy rhieni Tregynon ddim yn gwybod hynny, dyw rhieni Dafydd Llwyd ddim yn gwybod hynny, ac mae angen iddyn nhw wybod achos gallai gael effaith o fewn yr ysgolion hynny. Efallai y bydd plant sydd eisiau symud, ond y tymor hir yw y bydd darlun llachar a byddwn yn gwybod ble rydym yn sefyll. Fel ysgol, byddwn yn well ein byd yn yr achos hwn.

Lynette Lovell: Yn hollol a dyna pam ein bod ni'n gwneud y cyfarfod ychwanegol fel rhan o'r ymgynghoriad. Fel y mae'n sefyll yr unig ddarpariaeth cyfrwng Saesneg yw ffrwd Saesneg Bro Caereinion a Rhiw Bechan, mae pob un o'r lleill yn ysgolion cyfrwng Cymraeg gan fod Meifod wedi mynd i mewn i glwstwr Llanfyllin. O fewn eich clwstwr mae gan rieni cyfrwng Saesneg Rhiw Bechan yn benodol bryderon, felly rydym yn cynnal cyfarfod ychwanegol efo nhw nos Fawrth am yr union reswm hwnnw, i egluro beth sydd y tu ôl i'r cynnig.

Marianne Evans: Os penderfynir symud ymlaen, mae yna waith i'r Cyngor ei wneud gyda'i sefydliadau partner i godi ymwybyddiaeth, codi'r ddealltwriaeth sydd gan rieni. Mae hynny'n rhywbeth y byddai gwir angen i ni ei gyflawni'n gyflym pe bai hyn yn mynd yn ei flaen oherwydd fel ydych wedi dweud mae angen i rieni wybod, mae angen iddyn nhw wybod beth sy'n digwydd, mae angen iddyn nhw wybod beth yw'r llwybr a chael y sicrwydd hwnnw. Rydyn ni mewn cyfnod ansicr a dyna natur rhai o'r cynigion hyn, ond unwaith y byddwn ni'n gwybod ble rydyn ni'n mynd, yna gallwn ni gyfathrebu.

Aelod Staff: Os yw'r ysgol yn newid categori iaith ac nad oes ysgol Gymraeg arall yn agos, a dim ysgol y gall plant fynd iddi, a yw'n golygu na fydd yr ysgol yn gallu cael ei chau?

Marianne Evans: Mae'n anodd cau ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae gofynion statudol ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg ac yn amlwg mae'n rhaid i ni weithio o fewn y rhain. Y ddadl wedyn yw pa mor wahanol yw ysgol Gymraeg i ysgol ddwyieithog. Os ydyn ni'n creu ysgol Gymraeg, mae'n anodd iawn symud yn ôl o hynny wedyn ar ôl i ni osod y sylfaen, oni bai bod yr un math o ddarpariaeth ar gael.

Aelod Staff: Fe wnaethoch chi sôn am y Trochi ar gyfer disgyblion. A fydd yna unrhyw Trochi ar gyfer aelodau staff? Rwy'n siarad Saesneg iaith gyntaf ond yn hyderus iawn yn ail iaith. A oes unrhyw ddarpariaeth i mi?

Bethan Price: Mae Llywodraeth Cymru wedi trefnu cynllun secondiad ar gyfer athrawon ysgolion cynradd. Rwy'n credu ei fod ar agor i unrhyw athro ond nid oedd yn gweithio i strwythur athrawon ysgolion uwchradd gan ei bod yn anodd ei hôl-lenwi. Nid yw hynny'n golygu na fydd darpariaeth, rwy'n gwybod bod Llywodraeth Cymru yn dal i edrych ar sut y gallant gynnig hynny i athrawon uwchradd. Yn y cyfamser, yn sicr byddai yna gefnogaeth i athrawon sy'n dymuno dysgu Cymraeg. Ar

hyn o bryd mae gwersi Cymraeg am ddim i staff addysg felly os oes gennych ddiddordeb gallwch gael gwersi am ddim. Os aiff y cynnig hwn yn ei flaen yna bydd pecyn o gymorth i blant a gall athrawon gael gwersi hefyd.

Aelod Staff: Mae 'na rai staff sydd angen dysgu o'r dechrau, ond mynediad i gloywi iaith sydd ddim yn bodoli i staff sydd â rhywfaint o Gymraeg. Rydw i wedi bod ar sawl cwrs yn y gorffennol, ond nid ydyn nhw'n canolbwyntio ar yr hyn sydd ei angen arnom fel staff ysgolion. Fel ti'n dweud mae 'na lot o gyrsiau sy'n rhad ac am ddim os dwi'n ddechreuwr, ond does 'na ddim mynediad i gyrsiau gloywi iaith i ni fel athrawon sy'n defnyddio'r Gymraeg, a dwi ddim mor hyderus yn dysgu yn y Gymraeg ag ydw i'n dysgu yn Saesneg. Dyna'r mynediad sydd ei angen arnom ni hefyd.

Bethan Price: Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, yna ie, byddwn yn ceisio darparu'r hyfforddiant pwrpasol hwnnw sydd ei angen arnoch.

Aelod Staff: A fyddai hynny'n cael ei dalu amdano ac a fyddem yn cael ein tynnu allan o ddysgu i gyrraedd y safon honno?

Bethan Price: Os mai dyna sydd ei angen. Mae trefniadau gwahanol y gellir eu gwneud yn dibynnu ar y sefyllfa.

Lynette Lovell: Mae'n bwynt da iawn pan rydych chi'n siarad am Trochi, mae trochi yn rhywbeth y mae'n bwysig y gallwn ei ddarparu i athrawon hefyd, y profiad trochi hwnnw yr oedd y prifysgolion hynny'n ei gynnig i ni, pethau felly.

Aelod Staff: Beth bynnag sy'n cael ei gynnig, mae'n rhaid iddo fod yn gysylltiedig â byd addysg, ni all fod yn siarad am y tywydd yn unig.

Lynette Lovell: Mae hynny'n bwynt da iawn. Mae siarad Cymraeg a gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn wahanol hefyd, ei gallu i addysgu a chyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n sgil wahanol eto.

Cyfarfod ymgynghori gyda Llywodraethwyr Ysgol Bro Caereinion

22 Tachwedd 2023

Presennol

Llywodraethwyr:

Gareth Jones, Cadeirydd y Llywodraethwyr
Julie Jones, Llywodraethwr
Eleri Mills, Llywodraethwr AALI
Myfanwy Alexander, Llywodraethwr AALI
Sian Pugh, Llywodraethwr Cymunedol
Ruth Bates, Rhiant Lywodraethwr
Dai Morris, Rhiant Lywodraethwr
Glyn Lloyd, Llywodraethwr Staff
Margaret Jones, Llywodraethwr Cymunedol
Laura Jones, Athrawes Lywodraethwr
Trudi Bates, Rhiant Lywodraethwr
Nia Pryce, Rhiant Lywodraethwr
Y Cynghorydd Ian Harrison, Llywodraethwr AALI

Swyddogion:

Lynette Lovell, Cyfarwyddwr Addysg
Marianne Evans, Rheolwr Gwasanaeth Trawsnewid Ysgolion
Georgie Bevan, Pennaeth Addysg
Sarah Astley, Rheolwr Rhaglen Strategol, Trawsnewid Addysg
Bethan Price, Arweinydd y Gymraeg
Nancy Owen, Rheolwr Cyllid Ysgolion Powys
Sarah Jones, Partner Busnes AD (Ysgolion)
Ffion Williams, Uwch Gynghorydd AD (Ysgolion)

Croesawodd Lynette Lovell pawb i'r cyfarfod. Mi wnaeth bawb a oedd yn bresennol gyflwyno eu hunain.

Eglurwyd y byddai cyflwyniad byr gyda chyfle i drafod, rhoi sylwadau a holi cwestiynau i'r swyddogion wedyn. Eglurwyd y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio at ddibenion cofnodi ond byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y bydd y cofnodion wedi'u cwblhau a'u cytuno.

Rhoddodd Sarah Astley gyflwyniad PowerPoint a oedd yn amlinellu cefndir y cynnig presennol ac eglurodd fod y Cabinet wedi cytuno ym mis Medi 2023 i fwrw ymlaen i ymgynghori ar newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion. Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 19 Hydref 2023 ac roedd i fod i ddod i ben yn wreiddiol ar 30 Tachwedd 2023, ond mae bellach wedi'i ymestyn wythnos hyd at 7 Rhagfyr 2023. Y cynnig yw:

- Gwneud newid rheoledig i newid cyfrwng y dysgu yn Ysgol Bro Caereinion i gyfrwng Cymraeg. Byddai hyn yn cael ei gyflwyno'n raddol, flwyddyn wrth flwyddyn, gan ddechrau gyda Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025.

Yn dilyn y cyflwyniad, rhoddwyd cyfle i'r llywodraethwyr ofyn unrhyw gwestiynau neu i wneud unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r mater.

Marianne Evans: Hoffwn ddiolch i chi am sut rydych chi wedi rheoli a delio â hyn fel corff llywodraethol. Rwy'n gwybod ei fod wedi bod yn anodd ac mae'n debyg y bydd yn parhau i fod yn anodd am ychydig. Yr hyn rwyf wedi ei weld hyd yma yw corff llywodraethu cyfrifol a blaengar iawn sydd wedi dod gyda ni ar y daith i symud yr ysgol ar hyd y continwrm iaith. Fe wnaethoch chi gyfarfod eich rhieni neithiwr a dwi'n meddwl eich bod chi wedi bod yn gyfrifol ac yn ddewr iawn. O safbwynt yr awdurdod, diolch i chi am sut rydych chi wedi gweithio gyda ni i gyrraedd y sefyllfa hon.

Rwy'n gwybod neithiwr bod nifer o gwestiynau wedi'u gofyn gan rieni ac rydych chi wedi eu hanfon atom ni. Os gallwn eu hateb heno mae hynny'n iawn, os na, byddwn yn darparu ymatebion yn yr adroddiad ymgynghori. Nawr drosodd atoch chi.

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Mae yna nifer o gwestiynau sy'n mynd i godi ac rydyn ni eisiau cadarnhad arnyn nhw. Rwyf am ddechrau drwy ddweud bod gennym gorff llywodraethu cryf yma, ond yn ystod yr wythnosau diwethaf bu elfen o amheuaeth mewn llawer ohonom. Rydych chi wedi bod trwy'r cyfan ym Mro Hyddgen, mae'n bwnc emosiynol iawn, mae'n rhoi llawer o bwysau arnom ni i gyd, ein lles i gyd a phopeth arall.

Fel y sonioch chi ar y dechrau, rydyn ni newydd fod yn sefydlu Ysgol Bro Caereinion. Mae hynny ynddo'i hun wedi bod yn daith sydd wedi rhoi llawer iawn o bwysau nid yn unig ar y llywodraethwyr ond ar y staff. Rydyn ni wir yn teimlo drostyn nhw a hefyd y dysgwyr a'r gymuned. Mae 'na gwestiynau yn dod ata i drwy'r amser 'pryd mae'n mynd i stopio'. Mae gennych chi griw o lywodraethwyr yma sy'n barod i ddod ar y daith hon gyda chi, ond rwyf am ddechrau drwy ddweud bod angen ymrwymiad ysgrifenedig gennych chi y bydd cymorth ariannol i'n cefnogi ni drwy'r cyfnod pontio hwn. Mae'n anochel y bydd y niferoedd yn gostwng, rydyn ni'n mynd i gael trafferth gydag athrawon yn gadael yn y ffrwd Saesneg oherwydd eu bod nhw'n gwybod na fydd swydd iddyn nhw o bosibl yn y dyfodol. Ond roedd yna gwestiwn gafodd ei godi neithiwr ynglŷn â sut allwn ni gynnal safon uchel o addysg yn ystod y cyfnod yma. Mae'r niferoedd yn gostwng. Rydym wedi sôn am wneud cais am adeiladau newydd ond mae angen rhywbeth arnom mewn du a gwyn, fel y gallwn droi'n hyderus at ein cymunedau pan fyddwn yn dechrau ar y broses ymgysylltu. Mae angen i ni ddod â'r bobl hyn sydd ar y ffens, sy'n ansicr, mae angen i ni ddod â nhw gyda ni. Fel arall, mae'r ysgol yn mynd i gael ei sefydlu i fethu cyn i ni ddechrau, dydw i ddim yn siŵr a oes unrhyw un eisiau ychwanegu unrhyw beth cyn i ni ddechrau?

Llywodraethwr: Hoffwn i ddechrau am y lles. Nid dim ond y broses drawsnewid ydym ni wedi bod drwyddo fel ysgol yn ystod y 18 mis diwethaf. Roedd y ddamwain bws, ac yna colli tri aelod o staff y llynedd, mae wedi bod yn 18 mis anodd, mae hynny'n rhywbeth i Bowys ei ystyried. Rwy'n gwybod bod proses ond fel y dywedais am sicrhau bod y gefnogaeth yno, mae wedi bod yn heriol iawn.

Llywodraethwr: A gaf i wneud sylw ar les hefyd o safbwynt y plant oherwydd yn amlwg gyda'r ddamwain bws maen nhw wedi cael amser ofnadwy. Pan ddigwyddodd y ddamwain bws, cawsom rywfaint o gefnogaeth allanol, cefnogaeth seicolegol yn dod i mewn ac rwy'n credu ei bod yn debyg bod angen hynny arnynt eto.

Marianne Evans: Mae hynny'n rhywbeth y gallwn edrych arno. Byddwn yn siarad â'r Pennaeth ac yn gweld beth allwn ni ei roi ar waith. Buom hefyd yn siarad yn y cyfarfod staff am gefnogaeth i'r staff a pha fath o gymorth y gellir ei ddarparu. Ar hyn o bryd cefnogaeth yw'r prif beth oherwydd ein bod yn y cyfnod pontio hwn, nid oes penderfyniad wedi'i wneud. Y gefnogaeth sydd ar gael yw sgysiau un i un, cael rhywun i wrando, i fynd trwy beth fyddai'r broses pe bai hyn yn digwydd. Mae rhai pobl eisiau rhywun i wrando arny'n nhw. Byddwn yn trafod gydag AD beth y gallwn ei wneud i helpu i gefnogi hynny.

Llywodraethwr: Rwy'n credu'n gryf mewn arweinyddiaeth a bod yn ddilys a gwrando. Neithiwr, roedd y mwyafrif llethol yn heriol nid yn unig o gwmpas yr iaith ond diffyg dealltwriaeth am y cyfeiriad, ac hefyd yn hollol briodol am y cyllid. Rwy'n cytuno ein bod yn debygol o weld gostyngiad mewn niferoedd. Rydym yn cefnogi'r Cyngor ac rwy'n credu bod hynny'n iawn oherwydd roedd gennym ein gweledigaeth ac rydym yn gwybod y cyd-destun, ond yn y pen draw rydym yn gorff llywodraethu ar gyfer yr ysgol ac mae angen i ni hefyd ystyried buddiannau pawb a chydbwyso'r rheini, mae angen moronen arnom, fel arall mae'n rhywbeth sy'n anodd iawn i'w werthu.

Llywodraethwr: Mae'r mater arall yn ymwneud â'r pynciau STEM. Un o'r cwestiynau sy'n codi dro ar ôl tro yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu a hefyd neithiwr. Ble rydyn ni'n mynd i gael a sut rydyn ni'n mynd i allu darparu darpariaeth chweched dosbarth? O le ydyn ni'n mynd i gael athrawon mathemateg Cymraeg? Mae rhieni'n gwbl briodol yn gofyn y cwestiynau sylfaenol hynny, rydym yn ymwybodol iawn bod Ceredigion yn gwneud penderfyniadau eithaf sylweddol am ddarpariaeth chweched dosbarth, ond ni allwn anwybyddu'r ffaith bod y gymuned hon, fel cymunedau eraill sy'n gymharol fach, a'r goblygiadau ar fywydau rhieni, yn sylweddol. Os ydym yn canfod ein hunain yn gorfod canoli darpariaeth chweched dosbarth mewn ardal fel hon, mae'n benderfyniad enfawr i'w wneud. Mae pobl yn poeni'n fawr am hynny.

Marianne Evans: Byddwn yn dechrau gyda'r cyllid, yna byddwn yn dod i'r staffio.

Llywodraethwr: Dim ond un pwynt arall i'w ychwanegu, mae angen arweiniad strategol arnom hefyd oherwydd mae pobl wedi dweud wrthyf lawer gwaith yn

ddiweddar, os nad yw addysg dwy ffrwd yn gweithio yn Llanfair Caereinion pam mae'n gweithio yn Llanfyllin a Llanidloes? Mae hyn yn symudiad cyflym i ffrwd o addysg dwy ffrwd. Mae pobl yn dweud wrtha i bod eu plant ym Mhontrobert, maen nhw eisiau iddyn nhw fynd i'r ffrwd Gymraeg mewn ysgol dwy ffrwd, felly byddan nhw'n eu hanfon i Lanfyllin. Yn ddiweddar, rwyf wedi bod yn gwneud prosiect Cymraeg yn Llanfyllin a byddech chi'n cael eich brawychu gan y diffyg gwybodaeth am y diwylliant Cymreig a ddarganfyddais ymhlith y bobl ifanc yno. Dydw i ddim yn anghytuno â'r symudiad, ond sut mae ateb rhywun sy'n dweud bod dwy ffrwd yn llwyddo yn Llanfyllin a Llanidloes, ond mae'n drychineb yn Llanfair Caereinion. Ni allaf ateb hynny.

Llywodraethwr: Hoffwn i godi ar hynny hefyd. Fe wnes i gymysgu llawer neithiwr ar ôl y cyfarfod, mae 'na ganfyddiad bod ysgol dwy ffrwd yn cynnig rhwyd ddiogelwch i'r disgyblion hynny sy'n methu ymdopi yn Gymraeg ac mae opsiwn iddyn nhw drosglwyddo i'r ffrwd Saesneg. Mewn ardal fel hyn lle rydyn ni'n mynd i fod yn ddibynol ar lawer o'r teuluoedd Saesneg yn dewis addysg Gymraeg, dwi'n meddwl bod angen llawer iawn o wybodaeth i'w darbwyllo nhw mai dyma'r opsiwn cywir. Un o'r negeseuon a gymerais i ffrwd o'r cyfarfod neithiwr oedd am y wybodaeth sydd ei hangen i chwalu'r mythau, canfyddiadau, pob math o bethau sydd ar gael. O ystyried mai dyma'r ymgynghoriad ffurfiol, rydym wedi gofyn am gynllun ymgysylltu, nid yw'n ddigon dim ond i ymgynghori ar rywbeth. Yn fy marn i, dylai ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus neu ymgysylltu fod wedi cael ei chynnal dros gyfnod hir o amser i gefnogi'r symudiad hwn. Nid yw'n rhy hwyr, rwy'n credu y gallwn barhau i'w wneud, ond byddwn yn eich annog chi fel Cyngor i gael hynny yn ei le ac yn weithgar.

Llywodraethwr: Mae nifer o rieni yn Llanfair Caereinion eisiau gwybodaeth am drochi a phontio, pryd mae hyn yn mynd i ddigwydd, ai ar ôl y Nadolig neu pryd? Rwy'n cytuno bod rhieni rhesymol sy'n dweud eu bod nhw ddim yn gwybod, ond mae eraill sy'n credu bod ysgol ddwyieithog yn un sydd â ffrwd Gymraeg a Saesneg heb sylweddoli mai'r unig blant dwyieithog yw'r rhai yn y ffrwd Gymraeg. Dim ond dau riant oedd yn siarad i gefnogi'r cynnig. Un mewn gwirionedd, ac un o'r Trallwng oedd yn gofyn os na chawn addysg yn Llanfair lle byddai, gan nad yw Bro Hyddgen o fudd i bobl o'r ardal hon. Gwnaethpwyd yr un pwynt â Myfanwy am Lanfyllin a Llanidloes, maen nhw'n mynd yno gan feddwl eu bod yn cael cynnig addysg Gymraeg, ydy'r disgyblion yma'n cael cludiant am ddim i Llanidloes? Rydyn ni wedi sôn am drafnidiaeth, ac os mai dyma'r lle ar gyfer addysg Gymraeg, dyma lle dylai trafndiaeth am ddim fod, oherwydd nid yw'r ddarpariaeth yno yn Llanfyllin a Llanidloes, yn enwedig os ydym am gadw neu'n dibynnu cymaint ar blant Y Drenewydd fel yr ydym ni wedi'i wneud dros nifer o flynyddoedd.

Hyd yn oed os byddwch yn symud ymlaen gyda newid Blwyddyn 7 yn 2025, ac mae hynny'n swnio'n anodd gan na fyddwn yn gwybod y canlyniad tan fis Ebrill, ond bydd wedyn yn cymryd saith mlynedd o hynny, mae hynny'n amser hir iawn. Mae'n rhaid i ni fod yn gryf ac yn ddewr os ydyn ni am wneud hyn, saith mlynedd yw'r cyfnod i blant yn yr ysgol ac mae'r clwstwr yn bwysig, dyna oedd pobl neithiwr ddim yn sylweddoli chwaith.

Dwi'n gwybod bod rhaid i ni ateb eu cwestiynau nhw a daeth pob cwestiwn neithiwr o'r galon gan bobl oedd yn poeni ac felly dylen ni fod yn poeni amdany'n nhw ac yn rhoi atebion iddyn nhw. Fodd bynnag, ni fydd hyd yn oed y clwstwr ar y gwaelod yn dod os na wnawn ni gydweithredu yma.

Llywodraethwr: Mae digon o amheuaeth wedi bod am yr ysgol yma dros gyfnod ac mae hyn yn creu ansicrwydd. Dwi'n poeni bod y niferoedd yma yn mynd i ostwng. Mae pobl yn mynd i wneud penderfyniadau sydyn, rydw i wedi bod yn edrych ar Facebook heddiw, bydd rhai yn symud plant o'r ysgol hon oherwydd yr ansicrwydd yma.

Llywodraethwr: Nid wyf yn credu y gallwn ni wir ddisgowntio bod ansicrwydd yn gyrru pobl i wneud penderfyniadau cyflym sy'n cael canlyniad ar yr ysgol hon ac mae hyn yn fy mhoeni i mewn gwirionedd.

Llywodraethwr: Hoffwn ychwanegu hefyd, ynglŷn â'r saith mlynedd, fel corff llywodraethu mae angen i ni ystyried pob un o'n dysgwyr sydd yn yr ysgol ar hyn o bryd. Mae yna ddysgwyr ar hyn o bryd y bydd hyn yn effeithio arnynt. Dwi am i bawb ystyried hynny. Rydyn ni wedi cael ymgysylltiad gyda disgyblion heddiw ac roedd hynny'n emosiynol, mae dysgwyr yn y ffrwd Gymraeg yn poeni beth sy'n mynd i ddigwydd i'r dysgwyr hynny yn y ffrwd Saesneg ac mae dysgwyr yn y ffrwd Saesneg yn eu dagrau oherwydd nad ydyn nhw'n gwybod beth sy'n mynd i ddigwydd. Gan nad ydych yn yr ysgol ni fydddech o reidrwydd yn gwybod hynny ac efallai heb i ni siarad amdano nawr, ni fydddech yn gwybod pa mor emosiynol y mae hi yn yr ysgol ar hyn o bryd i'r dysgwyr.

Cadeirydd y Llywodraethwyr: A allwn ni gael ychydig o atebion ar gyfer lle rydyn ni nawr ac yna byddwn ni'n dod yn ôl at fwy o gwestiynau eto?

Marianne Evans: Wnawn ni ddechrau efo cyllid. Mae hwn yn gam strategol enfawr i'r awdurdod. Dyma'r cam trawsnewid mwyaf arwyddocaol y mae'r Cyngor hwn wedi'i gymryd erioed. O ganlyniad, mae cyfrifoldeb arnom i ddarparu cefnogaeth drwy'r trawsnewid, drwy'r cyfnod anodd hwn ac yn y dyfodol. Mae sawl ffordd y gallwn wneud hyn. Mae trochi yn hanfodol os ydym am symud Blwyddyn 7 yn 2025, dyma'r elfen sy'n dod trwyddo fel y pryder mwyaf. Dyma'r dyddiad yr ydym yn ei gynnig ar hyn o bryd, ond os mai dyma sy'n ei gwneud hi'n anodd symud hyn ymlaen, mae hyn yn rhywbeth y bydd yn rhaid i ni edrych arno a gweld i ble'r ydym yn mynd. Fodd bynnag, beth bynnag a wnawn mae'n rhaid i ni gynnig trochi, gan fod hyn yn hanfodol ac mae'n ymrwymiad gennym i gynnig y ddarpariaeth honno. Mae Bethan yn gweithio'n galed ar Drochi. Rydym wedi bod yn trafod gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â hyn gan ei fod yn gam pwysig i'r Cyngor, rydym wedi codi'r pwynt ynglŷn â chyllid ar gyfer Trochi, ac i ddatblygu staff. Mae'r rhain i gyd yn bethau yr ydym yn rhoi pwysau ar y Llywodraeth yn eu cylch. O ran cyllideb yr ysgol, y gyllideb ddirprwyedig, mae hyn yn rhywbeth i Georgie a Nancy ei egluro. Rhaid ariannu'r ysgol yn unol â'r fformiwla ariannu, ond mae angen i ni gydnabod bod yr ysgol yn

mynd trwy newid trosiannol, dyna un o'r datblygiadau strategol allweddol i ni fel Cyngor.

Nancy Owen: Os gallaf ddechrau gyda'r gyllideb ddirprwyedig gan fod cwpl o bethau yn y ddogfen ymgynghori lle mae'n cyfeirio at gyllid a newidiadau i gyllid. Fel yr eglurais i'r staff o'r blaen, y fformiwla ariannu yw'r fethodoleg ar gyfer darparu arian i'n hysgolion ym Mhowys ac fe wnaethon ni wthio'n fwy diweddar gyda'n Cabinet ar gyfer system ariannu fesul disgybl, felly wrth i'r dysgwyr symud trwodd, mae mwy ohono. Mae'n adlewyrchu disgyblion yn well, a lle mae awdurdodau lleol eraill yn mynd gyda'u fformiwlâu. Wedi dweud hynny, ym Mhowys mae gennym wahanol fathau o ysgolion a rhaid i ni fynd i'r afael â hynny drwy ein fformiwla. Ar hyn o bryd, mae Ysgol Bro Caereinion yn cael ei hariannu i bob pwrpas fel dwy ysgol ar wahân, felly mae hynny'n llifo drwy ein fformiwla a'r hyn y mae hynny'n ei wneud ar hyn o bryd i chi yn yr ysgol hon yw ei bod yn darparu ychwanegiad megis ychwanegiad dwy iaith. Gan fod rhai o'n hysgolion a'n ffrydiau yn fach, nid yw'r swm fesul disgybl sy'n gyrru drwy'r fformiwla ar gyfer y bloc craidd yn ddigonol ar gyfer y dosbarthiadau sydd eu hangen arnoch. Rydym yn edrych ar 1 i 30 o ran y sector cynradd, felly byddai angen i ni ychwanegu at hynny, mae gennym ychwanegiadau yn y fformiwla i ychwanegu'r dosarth nesaf. Yr hyn sy'n digwydd yma gyda'r cynnig hwn yw bod arbediad yn dod allan oherwydd dydyn ni ddim yn ariannu neu na fyddem yn ariannu pe bai'r cynnig yn mynd trwodd ddwy iaith ar wahân a dwy ffrwd ar wahân. Fodd bynnag, yr hyn sy'n cicio i mewn, ac yn fwy felly yn yr uwchradd, yw'r angen i ychwanegu arian i gydnabod ysgol fach, felly rydym yn rhoi ychwanegiad i bob disgybl yna yn dibynnu ar nifer y disgyblion ym mhob cyfnod allweddol. Yr hyn sy'n gyrru drwyddo yw ychwanegiad i'r fformiwla honno. Rhai o'r pryderon oedd eich bod chi'n mynd i golli disgyblion. Un o'r pryderon o'r blaen oedd ynghylch niferoedd disgyblion. Nid wyf yn gallu dweud yn bendant na fydd newidiadau yn eich fformiwla ariannu pan fyddaf yn rhedeg pethau trwy'r fformiwla. Yr hyn rwy'n ceisio ei ddweud yw, yn dibynnu ar sut mae'ch rhifau'n cwmpo, mae yna rai elfennau i'ch dioglu o fewn y fformiwla honno, nid yw hynny ar gyfer ysgol dwy ffrwd yn unig. Mae gennym ysgolion ffrwd Gymraeg bach yn y sector cynradd a threfniadau eraill ym Mhowys, ond dim ond trwy'r fformiwla y gallwn ariannu ysgolion trwy'r gyllideb ddirprwyedig.

Yna mae'r elfen arall lle mae'r tîm trawsnewid yn dod i mewn ac yn darparu cymorth ariannol i helpu gyda phontio, effaith y gostyngiad yn yr adran gynradd ar athrawon a'r angen i edrych ar ddiogelwch ynghylch hynny, a fyddai'n dod trwy dull ariannu gwahanol. O ran bod Ysgol Bro Caereinion yn ysgol dwy ffrwd neu'n ysgol Gymraeg, neu os ydych yn ysgol cyfrwng Saesneg, mae'r fformiwla ariannu yn berthnasol i chi yr un fath ag unrhyw ysgol arall ac yna rhaid gweithio gyda'r gyllideb trawsnewid ysgolion ehangach.

Llywodraethwr: Os yw hwn yn gymaint o gam enfawr ymlaen i'r awdurdod, gan fynd yn ôl at y pryderon a godwyd neithiwr a'r pryderon sydd gennym am ariannu ysgol lwyddiannus, dylai fod ymrwymiad gan yr awdurdod i ddiogelu'r hyn rydych chi'n ceisio'i sefydlu. Does gen i ddim syniad o le mae'r arian hwn yn dod, ond os ydych

chi wedi bod mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru ac mae hyn yn gysylltiedig â'u strategaeth ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg, siawns nad oes rhyw fecanwaith i sbarduno rhywfaint o arian ychwanegol. Yn hanesyddol nid yw cyllid o fewn yr ysgol hon yn ddigon da, fel llawer o ysgolion eraill. Nid wyf yn deall pam nad oes arian yno.

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Roeddwn mewn cyfarfod gyda rhai ohonoch ar brynhawn Gwener. Rydyn ni mewn sefyllfa anodd ac rydych chi'n gofyn i bob un ohonom fynd i'n cymuned i gefnogi hyn. Mae angen ymrwymiad gan yr adran addysg y bydd arian ychwanegol i'n gweld trwy hyn, nid dim ond pethau ychwanegol. Rwy'n gwybod bod Marianne wedi siarad â Llywodraeth Cymru am Trochi a'r gefnogaeth ychwanegol, beth mae hynny'n golygu mewn ffigyrau?

Marianne Evans: Ar hyn o bryd mae'n £100,000 y flwyddyn.

Llywodraethwyr: Siawns y dylid defnyddio hynny ar Trochi a ddim i gefnogi'r ysgol drwy'r trawsnewid?

Marianne Evans: Mae hynny ar gyfer Trochi yn unig, fodd bynnag, mae gennym gyllideb arall, sef y gyllideb drawsnewid gorfforaethol. Mae hynny'n cefnogi'r holl waith trawsnewid. Rhaid i ni gyflwyno cais am y cyllid hwn bob blwyddyn. Fodd bynnag, os yw'r Cyngor am i newid ddigwydd mewn ysgolion mae yna gostau sy'n mynd gyda hynny, hyd yn oed wrth gau ysgol fach mae costau ynghlwm. Nid wyf yn credu ei fod yn rhywbeth y gallwn ymrwymo'n ffurfiol iddo heno, ond bydd yn cael ei gofnodi. Pan fyddwn yn mynd yn ôl ac yn coladu'r holl wybodaeth yn yr adroddiad ymgynghori, byddwn yn rhoi hynny o flaen y Cabinet oherwydd dyna lle mae angen gwneud unrhyw ymrwymadau. Rydych chi'n gwneud eich achos yn gryf, ond ni allwn ymrwymo i unrhyw beth heno. Fodd bynnag, rydych chi'n cyflwyno'r achos.

Llywodraethwr: A gaf i ofyn am rywfaint o wybodaeth? Os edrychwch chi ar ysgolion Cymraeg newydd fel Gwent-is-Coed ac Ysgol Gymraeg y Barri, dwi'n nabod pobl sy'n llywodraethwyr yn y ddwy ysgol yna. Dechreuon nhw gyda tua 100 o ddisgyblion ym mlwyddyn 7 a chyflenwad llawn o staff. Rwy'n credu bod gennym achos cryf iawn yma ein bod yn creu darpariaeth newydd ac y dylid caniatáu'r un math o ddarpariaeth yn y gyllideb. Fel arall byddwn yn y pen draw mewn sefyllfa lle gallwn gynnig y pynciau craidd a dim ond un opsiwn, oherwydd ni fyddwn yn gallu fforddio'r staff.

Llywodraethwr: Rwy'n deall beth mae Nancy'n ei ddweud, dyna'r model ariannu presennol ac rwy'n derbyn hynny. Rwy'n derbyn na allwch chi roi'r ymrwymadau i ni yma, ond rwy'n credu ein bod ni mewn sefyllfa anodd. Nid yw pethau'n mynd i weithio oni bai eich bod yn gwneud arian ychwanegol ar gael i gefnogi'r ysgol hon, oherwydd os na allwn ddarparu'r ystod o bynciau, ni fydd pobl yn dod yma, byddant yn dewis cael addysg yn Saesneg yn rhywle arall oni bai ein bod yn cynnig y ddarpariaeth gyfan, y cwricwlwm cyfan drwy gyfrwng y Gymraeg o'r diwrnod cyntaf. Rwy'n credu bod yn rhaid i ni dderbyn na fydd nifer y disgyblion yn cyflawni ac yn

ariannu hynny, felly rwy'n atgyfnerthu'r holl bwyntiau. Mae angen pot ychwanegol o arian arnom dros gyfnod o amser, nid dim ond am un neu ddwy flynedd. Mae'n rhaid iddo ddod dros gyfnod o amser.

Marianne Evans: Rydym yn clywed hynny, ac rydych yn dadlau'r achos yn gryf. Byddwn yn adlewyrchu hynny yn y ddogfennaeth.

Llywodraethwr: Mae gennym athrawon cyfrwng Cymraeg gwerthfawr iawn yma, sydd ganddyn nhw ddim mewn ardaloedd eraill. Y cynllun fyddai pe bawn ni'n ysgol cyfrwng Cymraeg, byddem yn denu mwy o athrawon cyfrwng Cymraeg. Mae gennym hefyd staff sydd ddim yn siarad Cymraeg yr wyf yn hynod falch ohonynt, mae angen iddynt ddod ar y daith honno hefyd.

Llywodraethwr: Roedd cynsail yn y Trallwng pan aethom drwy'r cyfnod pontio, gwnaed trefniadau arbennig fel bod gennym ddarpariaeth lawn o staff, er bod nifer y disgyblion gwreiddiol yn isel. Roedd hyn yn eithaf sylfaenol, fel arall roeddem yn cynllunio ar gyfer methiant ac ni allwn fforddio gwneud hynny.

Llywodraethwr: Rwy'n credu ein bod yn siarad am weledigaeth 10 mlynedd. Gan ddod o gefndir GIG, rydym wedi bod delio efo potiau o arian, nawr rydym wedi ein gor-staffio o safbwynt cyllideb a nawr rydym yn gorfod gweithio i ddod yn ôl o fewn y gyllideb. Fel ysgol, ni allwn ac ni fyddem am fod mewn sefyllfa debyg, a allai ddigwydd oherwydd gallai'r holl botiau ansicr hyn o arian ddod i ben yn sydyn. Rwy'n credu o leiaf 10 mlynedd, mae hon yn daith newydd ac mae angen rhagolwg ariannol hollol newydd arnom.

Llywodraethwr: Pe bawn i'n gallu gwneud pwynt hefyd ar wariant cyfalaf, rwy'n clywed yn gyson gan rieni 'Does dim rhaid i Lanfyllin newid mewn unrhyw ffordd ac maen nhw'n cael ysgol newydd sbon gwerth £10 miliwn'. Os yw fy mhlentyn ym Mhontrobert ac rwy'n rhiant cyfrwng Saesneg, pam na fyddwn i'n dewis cael rhwyd ddiogelwch trwy eu hanfon i'r ffrwd Gymraeg yn Llanfyllin lle maen nhw hefyd yn mynd i gael adeilad ysgol newydd sbon? Neu, gallwn gymryd naid enfawr i'r tywyllwch yn Llanfair Caereinion lle na fydd adeilad newydd byth. Rydyn ni'n dadlau gyda'n ffrindiau am hyn, pobl rydyn ni wedi'u hadnabod ar hyd ein hoes, pobl roedden ni yn yr ysgol gyda nhw. Rydym yn ceisio gwneud pwynt ac rydym dan anfantais mawr ar hyn o bryd. Pe gellid gwneud datganiad i ddweud na fydd ysgol newydd yn Llanfyllin oni bai eu bod wedi ymgymryd â thrawsnewid byddai'n ein helpu ni. Cafwyd trafodaeth am y ffaith y dylai cyfalaf fod yn wobwr am drawsnewid, dylai hynny fod yn wir ledled y sir. Yn strategol, ryden ni wedi colli Meifod ac un rheswm am hynny ydy oherwydd bod rhieni'n dweud y gallwn ni gael y status quo rydym yn ei hoffi yn Llanfyllin, yn hytrach na risg yn Llanfair Caereinion.

Marianne Evans: Fel y sonnir yn y ddogfen ymgynghori, mae gennym gyfle i gyflwyno ein gofynion newydd ar gyfer ein rhaglen cyllid cyfalaf. Mae'n rhaid i ni gyflwyno ein rhaglen naw mlynedd newydd erbyn mis Mawrth, felly bydd hynny'n dod

drwy'r Cabinet. Byddwn yn gweithio ar gwblhau'r rhaglen ddrafft honno erbyn diwedd y flwyddyn.

Llywodraethwr: Pa gwmpas sydd gennych i ddiwygio eich rhaglen bresennol i adlewyrchu'r ymrwymadau i'r ysgol hon, er mwyn cyflwyno buddsoddiad? Byddai hynny'n anfon neges bwysig iawn.

Marianne Evans: Mae'r rhaglen newydd yn cynnwys datblygu addysg cyfrwng Cymraeg, mae'n cynnwys ysgolion â ffocws cymunedol a lleoedd gwag. Byddwn yn edrych ar hynny nawr. Bydd tri cham. Y tair blynedd gyntaf fydd prosiectau sydd wedi mynd trwy brosesau ymgynghori yn barod. Yn y canol fydd y prosiectau hynny sy'n mynd trwy newid ar hyn o bryd, a'r olaf fydd y rhai sydd ymhellach i ffwrdd. Byddwn yn edrych ar sut mae'r rhaglen honno'n gweithio o ran yr hyn sydd ei angen yn lle. Byddwn yn ymwybodol bod gennym eisoes brosiectau o'r band blaenorol sy'n dal i symud ymlaen ar hyn o bryd.

Llywodraethwr: Yr hyn rwy'n ei ddweud yw, os yw hwn yn brosiect mor drawsnewidiol, os mai hwn eich prosiect allweddol, mae angen buddsoddiad i gefnogi hyn.

Marianne Evans: Fe wnaethon ni gerdded o gwmpas yr ysgol gyda Huw heddiw. Aethon ni lawr i'r ysgol gynradd, a dim ond wrth cerdded o gwmpas ydych chi'n cael teimlad o'r hyn sydd ei angen yma. Mae yna bellter rhwng y cynradd a'r uwchradd, ac o bosib gellid gwella'r elfen o bob oedran pe bai ailfodelu.

Gan fynd yn ôl at y rhestr y dechreuon ni arni, rydw i eisiau symud ymlaen i staffio. Daeth staffio i fyny yn y cyfarfodydd gyda disgyblion a staff. Y cwestiwn oedd sut ydyn ni'n mynd i ddod o hyd i staff Cymraeg? Yr ateb yw, mae'n broblem genedlaethol y mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn gweithio arni gyda ni, ond mae elfen leol hefyd y mae angen i ni fod yn gweithio arni hefyd.

Lynette Lovell: Ar hyn o bryd rydym yn colli athrawon cyfrwng Cymraeg oherwydd eu bod i gyd yn mynd i awdurdodau lleol eraill oherwydd eu bod eisiau addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant eu hunain, dydy'r ddarpariaeth uwchradd honno ddim gennym yma ar hyn o bryd. Ein gweledigaeth ni yw i'r Cyngor gael ysgol cyfrwng Cymraeg ddynodedig yn y Gogledd. Rydych chi'n gwybod fy mod wedi anfon fy mhiant fy hun drwy addysg cyfrwng Cymraeg, daethant yma. Roedd pennaeth Dafydd Llwyd ar y pryd wedi'i wneud yn glir iawn i mi pan ddechreuais y daith pan oedden nhw'n bedair oed yn mynd i'r ysgol, mai llwybr cyfan oedd o. Yr hyn yr ydym yn ei weld ar hyn o bryd yw disgyniad, gostyngiad sylweddol ar ôl cyfnod allweddol dau. Mae plant yn dechrau eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yna'n rhoi'r gorau iddi ac yn cael gweddill eu haddysg drwy gyfrwng y Saesneg. Mae'n rhaid i ni newid hynny.

O ran staffio, rwy'n gwybod bod problem yma ar hyn o bryd efo athrawon mathemateg. Dwi'n gwybod ei bod hi'n bwysig iawn cael athrawon yn dysgu drwy

gyfrwng y Gymraeg. Ond mae angen lle deniadol i bobl ddod i addysgu, mae ysgol cyfrwng Cymraeg yn lle deniadol i bobl ddod i addysgu. Mae angen i ni wneud rhywfaint o waith o gwmpas hynny i gyd, gan hyrwyddo'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'n fater cenedlaethol fel y dywedodd Marianne, mae Cyfarwyddwr Addysg Cymru yn bryderus iawn am hyn a dyma'r un peth sy'n ei gadw'n effro yn y nos. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod staffio yn rhwystr i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, maen nhw wedi rhoi nifer o fentrau fel cynlluniau sabothol i geisio cynyddu hynny i gyd. Yn lleol rydym wedi sefydlu gweithgor i edrych a allwn ddenu siaradwyr Cymraeg lleol i'r proffesiwn addysgu drwy edrych ar bobl sydd â graddau mewn Mathemateg, Gwyddoniaeth ac ati a gweld a allwn eu hariannu i fynd trwy Brifysgol Aberystwyth. Rydym yn ceisio edrych ar atebion lleol hefyd, a rhoddodd y staff enghraifft dda iawn am ddisgyblion chweched dosbarth sydd yn yr ysgol nawr a sut allwn eu denu i ddod i weithio ym Mhowys ac addysgu ym Mhowys a rhoi cymorth iddynt gael y cymwysterau hynny. Mae angen i ni gael strategaeth leol o amgylch hyn i gyd hefyd. Dyna lle rydyn ni ar hyn o bryd, yn sicr mae angen i ni gynyddu nifer yr athrawon.

Llywodraethwr: Dwi'n meddwl am ffyrdd creadigol o gael pobl i mewn i Bowys. Dwi'n gwybod yn sicr bod ysgolion yn talu am bynciau lle mae prinder ac ati. Allwn ni wneud rhywbeth ychydig yn wahanol? Beth am gynnig llety am bris gostyngol neu ryw fath o becyn? Dydw i ddim o'r ardal hon, pe bawn i wedi gwybod, dwi ddim yn meddwl y byddwn i wedi mynd ar y trênn hwnnw o Fangor a dod lawr yma, ond yn onest dyna'r peth gorau i mi ei wneud erioed. Rwy'n credu bod angen i ni edrych ar strategaethau fel yna, a hyfforddi ein rhai ein hunain. Mae'n bosibl defnyddio bwrsariaethau ar gyfer y myfyrwyr hynny yn y chweched dosbarth i'w cael drwy'r brifysgol, gyda chymal eu bod yn hyfforddi ac yn dod yn ôl. Mae'n rhaid i ni fod yn greadigol iawn o ran sut rydyn ni'n meddwl am hyn.

Lynette Lovell: Mae hon wedi bod yn strategaeth lwyddiannus iawn ar gyfer Gwasanaethau Plant ym Mhowys. Ar hyn o bryd mae gennym strategaeth tyfu eich hun lle rydym yn mynd â phobl ifanc, myfyrwyr, gweithwyr lles, cynorthwyyr addysgu ac ati trwy eu gradd gwaith cymdeithasol, ac erbyn diwedd 2026 rydym yn edrych ar gael dim staff asiantaeth, ac yn lle hynny, tim o weithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso yr ydym wedi tyfu ein hunain. Mae'n rhywbeth y mae angen i ni edrych arno fel cyngor.

Llywodraethwr: Cawsom lawer o addewidion pan aethom drwy'r broses drawsnewid i sefydlu'r ysgol drwedd sef ariannu a chefnogaeth arall gan y Sir, ond yna bu'n eithaf heriol cael cefnogaeth, ac nid oedd dechreuad yr ysgol newydd yn ddelfrydol. Allwn ni gael rhywfaint o sicrwydd? Allech chi ein helpu nawr yn hytrach nag ar ddiwedd yr ymgynghoriad, ein helpu i geisio cael athro mathemateg fel y gallwn brofi i rieni fod Caereinion yn lle deniadol? Beth all y sir ei wneud i'n helpu ni a gwneud i ni deimlo'n well am ddod ar hyd y llwybr hwn?

Georgie Bevan: Un o'r heriau mwyaf yw nid yn unig dod o hyd i'r athrawon cyfrwng Cymraeg, mae anawsterau gydag athrawon mathemateg a gwyddoniaeth yn

gyffredinol hefyd. Rydw i wedi bod yn gwrandio dros yr oriau diwethaf, mae gennym gysylltiadau ag ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill a gallwn ddefnyddio'r cysylltiadau hynny i hyfforddi athrawon sydd gennym neu o bosibl bobl sydd gennym yn yr ysgol sy'n siaradwyr Cymraeg ond sydd angen y datblygiad hwnnw i fod yn athrawon Mathemateg. Yn fy rôl flaenorol, fe wnes i lwyddo i hyfforddi athrawon Mathemateg heb gymhwyso a oedd yn dda gyda phobl ifanc ac oedd â'r sgiliau rhyngpersonol hynny. Gallech chi fod yn athro da, ond dysgais iddyn nhw sut i ddysgu Mathemateg, mae hynny'n rhywbeth y gallwn ni edrych i mewn iddo. Mae gennym gysylltiad â Phartneriaeth Addysg Canolbarth Cymru lle mae ganddynt gefnogaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer Mathemateg yn benodol, oherwydd bod aelod o staff yno wedi helpu ysgolion eraill. Dyma sut rydym yn llenwi'r bwlch dros dro ac yn cynllunio olyniaeth gynaliadwy o amgylch hynny hefyd. Byddwn yn archwilio'r cysylltiadau hynny ag ysgolion eraill ac yn gweld beth allwn ni ei wneud o amgylch hynny.

Llywodraethwr: Roeddwn i'n meddwl tybed a allech chi edrych ar staff sy'n siarad Cymraeg fel adnodd ledled y sir. Os oes gennym ysgolion sydd ag 20% o ddisgyblion Cymraeg ac mae ganddyn nhw gyflenwad llawn o staff sy'n siarad Cymraeg, mae hynny'n golygu bod yr adnodd hwnnw'n cael ei wastraffu 80% o'r amser os ydyn nhw'n addysgu yn Saesneg oherwydd gallai staff di-Gymraeg wneud hynny y neu lle. Os edrychwch ar eich staff yn strategol fel grŵp o unedau Cymraeg eu hiaith ar draws y ddarpariaeth rydych yn ei darparu, yna gallech sicrhau bod y defnydd mwyaf posibl yn cael ei wneud o sgiliau pobl.

Llywodraethwr: Dywedwch fod gennych athro Mathemateg yn Llanfyllin yn y cyfrwng Cymraeg a 60% yw eu hamserlen, a fyddai gennych yr awdurdod i symud y person hwnnw i lawr yma am 40% o'u hamserlen?

Georgie Bevan: Yr hyn sydd angen i ni ei wneud yw sicrhau bod ysgolion yn gallu cydweithio. Gallem ddefnyddio amserlennwyr allanol i helpu gyda amserlennu, gallem ariannu rhywbeth fel 'na. Un o'r heriau yw bod yr athrawon yn symud yn hytrach na'r plant, ond hefyd nid yw maint dosbarth yn ymwneud ag arian yn unig, mae'n ymwneud ag amgylchedd dysgu ymdrwythol, a phan fydd gennych ddsbarthiadau o bump mewn un pwnc, nid yw'n wir. Sut ydyn ni'n sicrhau nad oes gennym ni dri dosbarth o bump mewn ysgolion gwahanol pan allem ddod â'r holl ddysgwyr hynny at ei gilydd a chael pymtheg a allai gael profiad dysgu da iawn mewn pwnc penodol? Gallwn edrych i mewn i hynny. Fel awdurdod lleol rydym yn arwain ac yn gweithio o amgylch model E-sgol hefyd, sy'n ddelfrydol ar gyfer rhai pynciau ond nid ar gyfer eraill. Mae'n ymwneud â sut rydym yn trosglwyddo gan ddefnyddio'r model hwnnw, ond byddai hynny'n gofyn am gydweithio, a chytundeb ar draws ysgolion dros dro wrth i ni dyfu'r niferoedd hynny yn y cyfrwng Cymraeg.

Llywodraethwr: A ellid dod a hwn i lawr i Gyfnod Allweddol 4?

Georgie Bevan: Ie, gallai. Mae gennym ffrwd yn Llanfyllin a ffrwd yn Llanidloes, felly pe baech yn rhoi'r holl ffrydiau hynny at ei gilydd o ran y cynnig cyfnod allweddol pedwar, er enghraifft, gallem archwilio hynny. Rydym yn gwneud hynny gyda

chysiau galwedigaethol ac mae'n digwydd mewn Awdurdodau Lleol eraill, nid yn unig yn Gymraeg, ond yn Saesneg hefyd, gyda dau ddiwrnod yr wythnos yn alwedigaethol. Mae'r plant yn mynd oddi ar y safle i gael y cynnig hwnnw, fel y gellir ei wneud, ond mae angen help efo'r amserlen.

Llywodraethwr: Mae angen dull llawer mwy strategol ar draws y Sir o ran darpariaeth addysg. Ni allwch edrych ar drawsnewid yr ysgol hon i ysgol cyfrwng Cymraeg ar wahân i'r hyn sy'n digwydd mewn ysgol gyfagos. Dydw i ddim yn dweud am un funud ewch i'w cau nhw i gyd, ond dwi ddim yn meddwl y gallwch chi wir gael llwyddiant oni bai eich bod chi'n edrych ar hyn yn strategol, yn enwedig yn yr ardaloedd hynny fel Llanfyllin, Llanidloes lle mae gan yr ysgolion sy'n bwydo eu llais. Rwyf am wneud y pwynt hwnnw bod angen i hyn gael ei gynyddu yn ogystal â'n bod yn edrych ar draws y sir ar beth arall sy'n effeithio a gwneud hyn yn llwyddiant.

Marianne Evans: Rydyn ni yn y cyfnod pontio hwn ar hyn o bryd ac rydyn ni'n mynd o sefyllfa lle yn draddodiadol roedd gennym ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg ac Ysgolion Uwchradd Dwy Ffrwd ac rydyn ni'n symud ac yn newid darn mawr o hyn nawr. Rydyn ni'n gweithio ar hyn bob dydd. Mae darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg yn wahanol i ddarpariaeth uwchradd dwy ffrwd byddwn i'n dadlau. Rhaid gwneud yn siŵr bod cymaint o blant o amgylch Powys yn gallu cael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac mewn rhai ardaloedd mae'n bosibl efallai mai dim trwy model dwy ffrwd y bydd hynny'n bosibl, mae'r broblem yna'n codi o hyd oherwydd maint y sir. Fodd bynnag, hyd nes y byddwn yn cyrraedd sefyllfa lle mae newidiadau pellach o bosibl ynghylch hynny i gyd, mae'r polisi trafndiaeth yn allweddol. Mae trafndiaeth wedi dod allan cryn dipyn drwy gydol y dydd. Yr hyn y mae angen i ni ei wneud fel awdurdod yw gweithio gyda chi, gweithio gyda'r clwstwr i sicrhau ein bod yn dileu cymaint o rwystrau i alluogi i blant gael mynediad i'r ysgol hon os bydd yn dod yn ysgol cyfrwng Cymraeg, oherwydd dyna sut y bydd yn llwyddo. Un o'r rhwystrau yw'r polisi trafndiaeth, felly bydd angen i ni fod yn symud ymlaen ar hynny, a dyna sgwrs y bydd angen i ni ei gael o ran sicrhau bod y polisi trafndiaeth yn cydnabod y gwahaniaeth rhwng darpariaeth cyfrwng Cymraeg, Uwchradd a Dwy Ffrwd.

Georgie Bevan: Pwynt arall o gwmpas hynny yw gweithio clwstwr. Soniodd yr athrawon am glystyrau penodol nad oeddent yn dod i Fro Caereinion. Felly fel rhan o'r broses o bontio o amgylch cwricwlwm i Gymru, mae rhwydweithiau fesul clwstwr wedi dechrau, mae cynlluniau clwstwr wedi'u hysgrifennu. Mae'n ymwneud â wyneb Bro Caereinion hefyd, yn gweithio gyda'r ysgolion hyn. Roeddwn i mewn ysgol gyda sefyllfa ariannol debyg iawn ac aethom yn rhagweithiol iawn i mewn i'r ysgolion hynny i geisio ennyn diddordeb y dysgwyr hynny, a chredaf fod hynny'n rhan fawr o'r gwaith, gallwn gefnogi gyda hynny ond mae'n mynd i fod yn rhan fawr o'r gwaith.

Marianne Evans: Heb siarad ar ran ysgolion cynradd y clwstwr, gwyddom fod cefnogaeth i hyn o fewn ysgolion cynradd y clwstwr, efallai nid pob un ohonynt ond yn gyffredinol mae cefnogaeth. Nid datblygu fersiwn newydd o Fro Caereinion yn unig yw hyn, ond datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg uwchradd newydd ar gyfer

Gogledd-ddwyrain Powys ac mae gan bawb ran i'w chwarae. Nid yw'r cyfan ar eich ysgwyddau chi i sicrhau ei fod yn llwyddiant. Mae gwaith clwstwr yn digwydd efallai yn ehangach na'ch clwstwr chi hefyd, dyma'r math hwnnw o ddatblygiad strategol.

Llywodraethwr: Pe na bai Caereinion ar ôl yr ymgynghoriad yn dod yn ysgol Gymraeg, a fyddai'r sir yn edrych ar ysgol uwchradd arall yn yr ardal i ddod yn Ysgol Gymraeg?

Marianne Evans: Byddai'n rhaid i ni edrych ar hynny o hyd.

Sarah Astley: Os nad yw'n digwydd yma yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, dyw'r pwysau i sefydlu ysgol uwchradd Gymraeg ddim yn mynd i ddiflannu.

Llywodraethwr: Does gennym ni ddim dewis mewn gwirionedd, oherwydd petai Llanfyllin neu Llanidloes yn dod yn gyfrwng Cymraeg, yna byddai'r Cymry yn mynd o fan hyn.

Marianne Evans: Mae'r niferoedd yn gweithio yma oherwydd bod eich sector cynradd yn tyfu ac mae angen i bob un o'r disgyblion ddod yma, dyna pam mae angen y cysylltiadau trafniadaeth arnom. Bydd yn cymryd tipyn o amser ac ni fydd yn digwydd dros nos, ond y canlyniad terfynol y byddem yn gobeithio amdano yw i bawb sydd eisiau darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal hon, ac yn ehangach efallai, ddewis Bro Caereinion.

Llywodraethwr: Mae fy mhwynt yn ymwneud â brandio, mae cymaint o gyfle yma i wneud hyn yn 'flagship', yn ddarpariaeth wych iawn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Nid yw'n mynd i effeithio ar fy mhlant fy hun oherwydd eu bod yma nawr, a gwnaeth rhywun y pwynt bod y rhai sydd yn y system addysg nawr mewn gwirionedd yn cymryd y baich ar gyfer y dyfodol. Mae'n rhaid i'ch negeseuon bwysleisio fod hyn yn gyfle unwaith mewn oes, rydyn ni'n mynd i fuddsoddi yn hyn, ac yn cyfleu'r hyn y mae dwyieithrwydd yn ei olygu mewn gwirionedd. Roedd diffyg dealltwriaeth o gwmpas er enghraifft, os ydych yn astudio hanes yn Gymraeg, ydy hynny'n golygu mai dim ond yn Gymraeg y gallwch chi wneud eich arholiadau? Os ydych chi'n cael trafferth mae yna opsiwn i chi ei wneud yn ddwyieithog. Mae ymgyrch brandio marchnata, ond yr un arall a gododd hefyd oedd anghenion arbennig, mae pryder, os yw eich plentyn yn Saesneg ac mae ganddo anghenion arbennig, ac fe anghofwyd neithiwr am y plant cyfrwng Cymraeg sydd ag anghenion arbennig, mae angen i hyn wasanaethu'r ddau beth ac mae'n ei wneud oherwydd ei fod yn ddwyieithog ac rwy'n credu bod angen i chi glywed y neges honno oherwydd daeth allan neithiwr.

Llywodraethwr: Yn amlwg mae gennym ni'r Ysgol Gymraeg i ni, sef yr ymgynghoriad ar hyn o bryd, ond y gwir amdani yw y bydd yn rhaid adolygu'r system addysg gyfan ym Mhowys, yn economaidd nid yw'n gynaliadwy. Ysgolion dwy ffrwd, rhaid holi a ydyn nhw'n gynaliadwy? Rwy'n credu o bosib yn ystod y 10 mlynedd nesaf gallai Llanfyllin a Llanidloes fynd trwy broses debyg, mae Ysgol Gynradd

Llanfyllin eisoes yn mynd trwy broses. Rydyn ni bron ar ddechrau'r broses ac rwy'n credu pe bai rhieni wedi clywed mai dyma'r cam cyntaf i lawer yng Ngogledd Powys, efallai y byddan nhw'n meddwl yn wahanol. Rwy'n meddwl ymlaen ond mae'n bwysig oherwydd efallai bod y Llanfyllin heddiw yn wahanol iawn i beth fydd ymhen 10 mlynedd. Yna bydd yr ysgol hon 10 mlynedd ar y blaen, oherwydd gobeithio y bydd gennym ysgol sefydlog a sefydledig, sy'n lle da i fynd iddo oherwydd ein bod eisoes wedi gwneud y gwaith, byddwn ar y blaen. Nid wyf yn credu bod rhieni'n deall mai dyma ddechrau taith fawr, hir i Bowys. Rwy'n credu bod angen dweud hynny wrth y gymuned, peidiwch â chael eich twyllo i feddwl bod Llanfyllin a Llanidloes mewn gwirionedd yn lleoedd diogel i fynd.

Marianne Evans: Mae'r strategaeth drawsnewid yn seiliedig ar ddarpariaeth uwchradd ym mhob un o'r 13 ardal neu'r 13 lleoliad uwchradd presennol. Yr hyn rydyn ni'n ei ddweud yn y strategaeth yw y bydd angen iddyn nhw newid i fod yn bob oed. Rydych chi eisoes wedi gwneud, mae Llanfyllin wedi gwneud, mae Bro Hyddgen wedi gwneud, felly dyna'r strategaeth bresennol a ysgrifennwyd dair blynedd yn ôl. Efallai y bydd angen adolygu a yw honno'n dal i fod yn strategaeth gynaliadwy wrth symud ymlaen, o gofio ein bod bellach yn wynebu amseroedd anodd iawn, fel y mae llawer o Gynghorau eraill. Mae'n debyg y bydd adolygiad ar hynny. Un o'r pethau rydyn ni wastad wedi ei ddweud wrth edrych ar ysgolion uwchradd yw, nes eich bod chi'n deall ble mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn mynd i fod a sut olwg fydd arni, ni allwch symud darnau eraill y jig-so. Yr hyn yr ydym wedi ei ddweud yn y CSCA yw bod angen tair ysgol arnom. Mae Bro Hyddgen ar y daith, rydym yn ymgynghori ar hon, rydym yn mynd â phapurau drwedd i'r Cabinet yn fuan iawn ar rywle arall ym Mhowys.

Llywodraethwr: Mae'r llall yn y De?

Marianne Evans: Ydy.

Llywodraethwr: Yr hyn rydych chi'n ei ddweud yw, unwaith y bydd y rhain wedi'u sefydlu, bydd popeth arall wedyn yn cael ei ystyried, ond nid wyf yn credu bod rhieni'n deall hynny. Pe bawn i'n rhiant yn clywed hyn byddwn i'n meddwl, er ei bod yn anodd ar hyn o bryd, yn enwedig os oes gennych chi blentyn sy'n bedair oed, byddai'r daith hir yn wahanol i'r rhain o'i gymharu efo'r rhain sydd yng nghanol eu haddysg nawr. Gobeithio i'r rhai sy'n bedair oed, erbyn iddyn nhw gyrraedd Blwyddyn 7, dylai'r lle yma fod mewn lle da. Dyna'r neges y mae angen i rieni ei chlywed mewn gwirionedd. Er nad ydym yn gwybod y dyfodol, mae'n debyg na fydd yn edrych fel unrhyw beth heddiw, rwy'n credu mai dyna'r cyfan y gallwch ei ddweud.

Marianne Evans: Dyna'r cyfan y gallwn ei ddweud, ac rwy'n credu y bydd cyfathrebiadau ac ymrwymadau pellach yn dod allan yn gyffredinol gan y Cyngor wrth symud ymlaen.

Llywodraethwr: Mae angen i chi gael pobl i feddwl oherwydd ar hyn o bryd, maen nhw'n meddwl bod Llanidloes a Llanfyllin yno yn eu ffurfiau presennol am byth, ac nid wyf yn credu y byddan nhw.

Georgie Bevan: Rydym yn cyfarfod â Phenaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr yr wythnos nesaf gyda'r swyddog cyllid i drafod y flwyddyn ariannol bresennol a'r pwysau y bydd yn ei roi ar bob ysgol.

Llywodraethwr: Efallai ei roi yn y County Times, dyna beth mae pobl yn ei ddarllen. Rwy'n credu bod angen i bobl wybod beth yw realiti'r sefyllfa.

Llywodraethwr: A allwch chi rannu unrhyw atebion rydych chi'n eu rhoi i ni heno yn ehangach gyda rhieni a myfyrwyr cyn diwedd yr ymgynghoriad?

Marianne Evans: Ni allwn rannu unrhyw beth ar wahân i'r hyn sydd wedi mynd allan. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei recordio a bydd y cofnodion ar gael. Rwy'n credu mai dyna'r broblem gyda'r sefyllfa. Er mwyn sicrhau bod yr ymgynghoriad yn gadarn, mae pawb angen yr un lefel o wybodaeth ar yr un pryd. Rydym wedi siarad am gwestiynau cyffredin ond yr anhawster gyda hynny yw ein bod mor agos at ddiwedd yr ymgynghoriad nawr, byddai'n anodd sicrhau bod pawb yn cael yr un wybodaeth ar yr un pryd. Fodd bynnag, unwaith y bydd pethau'n mynd ymlaen, os mai'r penderfyniad yw i fynd ymlaen, bydd angen mwy o weithgaredd cyfathrebu i godi ymwybyddiaeth.

Llywodraethwr: Yna, bydd pobl yn gallu gweld yr ymatebion i'r cwestiynau a'r sylwadau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad, oni fyddent? Bydd y rhain yn cael eu darparu ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori?

Sarah Astley: Mae yna lawer o bwyntiau, cwestiynau a sylwadau sydd wedi dod i mewn. Byddant yn cael eu tynnu at ei gilydd mewn adroddiad manwl, a fydd yn cynnwys ymateb y Cyngor i'r pwyntiau, fodd bynnag, rydym yn gwerthfawrogi nad yw hyn yn arbennig o hawdd i'w ddefnyddio a gall fod yn anodd i bobl gael y wybodaeth y maent ei heisiau, felly efallai y gallwn edrych ar greu fersiwn symlach sy'n tynnu'r prif bwyntiau allan.

Llywodraethwr: Wrth symud ymlaen, dylai fod astudiaethau achos. Rwy'n credu bod enghreifftiau yn helpu pobl i ddeall.

Lynette Lovell: Mae hynny'n bwynt da iawn. Mae gennym enghreifftiau eisoes o Trochi ym Mhowys. Rydych chi i gyd yn gwybod am Dan Lydiate y chwaraewr rygbi, daeth plant ei frawd trwy Trochi ac maen nhw'n ddigon hapus i rannu eu stori. Aethant o Saesneg ym Mlwyddyn 6 a Blwyddyn 4 a disgybl iau. Roedd y Trochi a ddarparwyd gennym yn llwyddiannus iawn, aethant i mewn i'r Ffrwd Gymraeg yn Trefonnen ac erbyn hyn maent yn y Ffrwd Gymraeg yn Llanfair-ym-Muallt ac ar dop y set. Roedden nhw'n dweud cymaint y mae wedi newid opsiynau a chyfleoedd bywyd y plant, mae'r rhieni'n mynd i ddod i siarad â'r Cabinet ar ein rhan. Dyma'r

astudiaethau achos hynny y mae angen i ni eu rhannu, mor hwyr â blwyddyn chwech gall ddigwydd. Mae hynny'n bwysig iawn i rieni glywed, yn enwedig gan fod consyrn a phryderon am hynny. O ran Trochi ar hyn o bryd mae gennym grwpiau o tua deuddeg, rhaid sicrhau bod gennym y ddarpariaeth honno. Os bydd y cynnig yn mynd trwyddo, mae angen i ni edrych ar y flwyddyn bump gyfredol a chael rhywbeth i mewn yno cyn gynted â phosibl.

Llywodraethwr: Gan ein bod yn sôn am gynllun tymor hir, un o'r materion sy'n mynd i godi dro ar ôl tro yw dyfodol Safon Uwch. Mae hynny'n mynd i ddod yn fargen gynyddol fawr, sy'n mynd i ddrysu pob rhiant. O safbwynt yr ysgol hon, gallai fod yn fanteisiol yn strategol pe byddem yn gallu cynnig y Bacc Rhyngwladol yn Gymraeg.

Llywodraethwr: Mae gennym y Bacc Cymraeg nawr.

Llywodraethwr: Rwy'n siarad am y Bacc Rhyngwladol, sy'n cael ei gydnabod gan bob un o brifysgolion y DU. Yr hyn rwy'n ei ddweud yw bod angen i ni gynnwys y drafodaeth honno hefyd, ond mae angen i ni fod yn glir iawn amdano yn gynnar oherwydd bydd hynny'n rhoi sicrwydd i bobl am y ddarpariaeth chweched dosbarth.

Llywodraethwr: Os ydyn ni am fod yn uchelgeisiol, dydy Coleg y Drenewydd neu NPTC prin yn cynnig unrhyw beth trwy gyfrwng y Gymraeg felly nid oes uchelgais. Yn hytrach na throsglwyddo myfyrwyr i NPTC, i'r Drenewydd ar gyfer pa bwnc bynnag maen nhw'n ei ddewis, oni allem anelu at yr ysgol yn ceisio cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg yma ar y safle hwn?

Llywodraethwr: Mae'r cyfraddau gadael 2.5 gwaith yn uwch ar gyfer plant sy'n mynd o gyfrwng Cymraeg i gyrsiau galwedigaethol cyfrwng di-Gymraeg, rwyf wedi codi hyn gyda Chomisiynydd y Gymraeg. Mae'n sgandal, ond does neb yn poeni am fod ganddyn nhw fwy o ddiddordeb mewn darpariaeth Safon Uwch. Os na all plentyn gael cymhwyster peirianeg, a dyma'r bobl ifanc sydd mewn gwirionedd yn aros yn ein cymunedau – dydyn nhw ddim yn byw yn Nhreganna, maen nhw yn Llanfair Caereinion. Os na allwn eu cael i gael y cymwysterau galwedigaethol sydd eu hangen arnynt, ac rydym wedi cysylltu â'r Drenewydd gymaint o weithiau i ofyn a allent o leiaf ddarparu'r sgiliau allweddol trwy'r Gymraeg, ni all y dysgwyr hynny barhau, ac maent yn gadael. Mae hynny'n sgandal a dylem wneud rhywbeth am y peth.

Georgie Bevan: Rydym eisoes yn gweithio gyda NPTC ar hyn, y ganolfan dechnoleg amgen hefyd. Rydym yn gweithio gyda nhw i gael cynnig at ei gilydd ac i'w gyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd. Daeth yr arweinydd 14 â mwy o adnoddau at ei gilydd ar gyfer gwasanaethau ac rydym wedi dal llais y disgyblion. Ar hyn o bryd rydym hefyd yn gwneud ymarfer mapio cwricwlwm ar gyfer cyfnod allweddol pedwar, gan ein bod yn gwybod nad yw'n deg, rydym yn gwybod nad yw lle mae angen iddo fod. Rwy'n credu mai'r her wedyn yw sut yr ydym yn trosglwyddo i'r ddarpariaeth Gymraeg sydd â digon o ddysgwyr ynddi i ni allu cynnig cynnig mor gynhwysfawr. Yr her gyda pynciau galwedigaethol yw'r offer sydd ei angen a dyna

pam mae'r colegau yn ei ddarparu. Mae NPTC yn gwybod eu hunain bod angen iddynt ystyried cyfrwng Cymraeg a'r ddarpariaeth ac rydym yn gweithio gyda nhw ar hynny. Mae'n nhw'n cael yr un heriau rydyn ni'n eu cael o ran recriwtio cyfrwng Cymraeg, rwy'n gwybod nad oes opsiwn arall serch hynny, felly mae'n ymwneud yn fwy â dull strategol. Y broblem yw pan fyddwn yn parhau i wneud hyn ym mhob ysgol, mae angen i ni edrych yn fwy cydlynol o gwmpas hynny.

Llywodraethwr: Agwedd ychydig yn wahanol, dwi'n mynd yn ôl i'r sgwrs am deulu Dan Lydiate. Fe ddywedoch chi fod disgyblion wedi symud i'r ffrwd Gymraeg ym mlwyddyn chwech, a hynny o bosib fydd y sefyllfa i'n myfyrwyr ni erbyn 2025, ac roeddech chi'n dweud eu bod nhw wedi gwneud cystal ond efallai na fydd rhai myfyrwyr yn gwneud cystal. Beth yw gweledigaeth y Sir wrth iddyn nhw ddod i ddiwedd Blwyddyn 11? Os ydyn nhw'n ei chael hi'n anodd, bydd disgwyl iddyn nhw wneud eu TGAU yn Gymraeg? Beth yw eich gweledigaeth ar hynny?

Georgie Bevan: Mae gennym ni hynny mewn pynciau eraill, gyda Mathemateg a Saesneg. Byddai hynny'n elfen benodol o ymyrraeth fyddai ei angen, ac i rai dysgwyr mae hynny'n golygu model gwahanol. O ran sut mae hynny'n edrych, dyna'r sefyllfa mewn unrhyw ysgol uwchradd ar hyn o bryd. Rwy'n credu bod hwnnw'n bwynt dilys, ond mae'n ymwneud â sut rydym yn ymyrryd ar hyd y ffordd cyn iddo gyrraedd y pwynt hwnnw. Rydych chi'n adnabod eich dysgwyr yn llawer cynharach os ydyn nhw'n cael trafferth gydag elfennau penodol o'r cwricwlwm ac efallai y byddwch chi'n ceisio darpariaeth arall neu hyfforddwr dysgu yn gynharach. Rydym yn gobeithio na fydd neb yn cyrraedd y pwynt hwnnw.

Llywodraethwr: Y gwir amdani yw eu bod nhw'n mynd i, gan nad yw'n hawdd gwneud TGAU os nad yw mewn iaith rydych chi wedi treulio'ch oes gyfan yn siarad, felly os ydyn nhw'n newid yr iaith maen nhw'n dysgu ynddi yr oedran hwnnw, bydd yn rhaid cael llawer iawn mwy o ymyrraeth nag sydd ar hyn o bryd. Mae'n anodd dysgu beth bynnag felly bydd angen llawer mwy o ymyrraeth, llawer mwy o athrawon i'w haddysgu a llawer mwy o staff cymorth. Dydyn nhw ddim yn mynd i wneud y cynnydd yn y pum mlynedd hynny ac nid ydyn nhw'n mynd i newid eu hiaith bryd hynny, ydyn nhw?

Llywodraethwr: Fel rhan o'n gweledigaeth, rydym wedi dweud yn dechnegol ein bod eisiau staff penodol ym mhob blwyddyn yn ogystal â staff nad ydynt yn athrawon. Mae gen i ddiddordeb mawr yn y Trochi o ran pa mor hir mae'n para mewn gwirionedd ac a all aelodau staff o'r ysgol gysgodi eich arbenigwyr? Yna gallant barhau i gefnogi'r plant hynny. Hefyd oes mecanwaith ar gyfer rhywun sy'n ei chael hi'n anodd dysgu Cymraeg yn yr amser rydych chi wedi'i ddynodi, a allwn ni wedyn ymestyn y Trochi ar gyfer yr unigolion hyn? Dyma'r math o gwestiynau y mae rhieni'n eu gofyn, yn ein gweledigaeth rydym yn meddwl yn uchelgeisiol. Mae'n cael y personél allweddol hynny yn ystod y camau hynny, gan helpu rhieni, cael gwirfoddolwyr yn dod i mewn dim ond i gefnogi'r plant, i gael grwpiau i rieni sy'n poeni am y naid ffydd maen nhw'n ei wneud, mae llawer y gallwn ni ei wneud yn yr ysgol. Rwy'n gwybod bod elfen cost ynghlwm ag ef, fel y dywedais cyn i ni gael cyfle

i wneud rhywbeth gwahanol yma a dylem wir fachu a mynd amdani, er gwaethaf popeth sy'n dod ein ffordd. Yn fy marn i, bydd rhai goblygiadau o ran staffio. Ni fydd yr un staff yn yr ysgol ar ôl 2025. Gallwch symud staff i rolau gwahanol i gefnogi hyn, ond mae angen iddynt fod yn rhan o fethodoleg Trochi a pha gefnogaeth y mae'r plant hynny'n ei gael.

Llywodraethwr: Neithiwr roedd yn ddiddorol, un o'r cwestiynau oedd sut mae'r gwahanol ffrydiau yn ei wneud mewn arholiadau. Mae gwahaniaeth o 20% yn y rhan fwyaf o bynciau rhwng y cyfrwng Saesneg a'r cyfrwng Cymraeg. Pe bai'r ystadegau hynny'n cael eu cyhoeddi heddiw byddech chi'n eu cael nhw'n dod y neu cannoedd ond dwi ddim yn siŵr os gallwn ni wneud hynny. Mae'n hysbys bod y plant cyfrwng Cymraeg yn gwneud yn well mewn Saesneg fel pwnc, felly mae'n dangos pa mor dda y mae dwyieithrwydd yn effeithio ar yr ymennydd. Pa bynnag iaith rydych chi'n ei defnyddio rydych chi'n mynd i gael trafferth gyda rhai pynciau, ac wrth gwrs dyna lle mae angen yr ymyrraeth arnoch chi oherwydd mae yna blant sydd ddim yn gallu gwneud mathemateg ond sydd ar frig y dosbarth yn Saesneg.

Llywodraethwr: Yr ochr arall i hyn, fel a glywsom neithiwr ac fel y gwelir ar Facebook yw bod pobl yn dehongli bod llai o fuddsoddiad wedi bod yn y ffrwd Saesneg. Dyna maen nhw'n ei ddweud – nad ydym yn buddsoddi digon yn y Saesneg, a gallwch weld eu dadl. Rwy'n credu bod hynny unwaith eto yn deillio o'r angen am addysg a'r manteision a allai ddod o ran cyfathrebu â'r gymuned a'u haddysgu hyd yn oed yn fwy oherwydd nad ydynt yn deall.

Yr ail bwynt nad oes neb wedi sôn amdano heno yw chwaraeon a chyllid tuag at hynny. Bydd chwaraeon yn dod â disgyblion yma, mae'n ffaith, a hyd yn oed y rhai sy'n gwrthwynebu, rwy'n credu pe bai gennym ni gyfleusterau fel cae newydd, canolfan hamdden sydd heb dwll yn y to, dwi'n meddwl y byddai mwy yn dod yma. Dwi jyst eisiau gwneud pwynt hefyd fy mod i'n credu bod yn rhaid i gyllid ar gyfer chwaraeon fynd law yn llaw â hyn.

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Bydd hynny'n cael ei fwydo i'r adolygiad hamdden.

Llywodraethwr: A allaf wneud dau bwynt os gwelwch yn dda? Mae cadw staff yn broblem i mi wrth i ni bontio oherwydd mae gennym ddyletswydd fel ysgol i ddarparu darpariaeth dwy ffrwd yn ystod y cyfnod pontio hwnnw. Pe bawn i'n athro Saesneg ei iaith, byddwn i'n edrych ar y cyfle cyntaf i adael oherwydd er y byddwn ni'n darparu cefnogaeth ar gyfer dysgu, nid yw pawb yn gallu dysgu Cymraeg i'r safon honno. Mae angen i gadw staff gynnwys hyn. Fy ail bwynt yw hoffwn wybod beth sy'n digwydd os nad yw'r gymuned hon yn dewis dilyn y llwybr hwn, beth sy'n dod o'r ysgol hon y tu hwnt i hynny?

Marianne Evans: Os yw eich niferoedd yn gostwng yn sylweddol? Os byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig ac nad yw'r niferoedd yn dod, mae hwn yn gynllun tymor hir ac mae angen i ni sefydlu'r ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig. Rydyn ni'n gwybod y gallai fod yn llai nag y mae ar hyn o bryd, ac mae'n anodd ar

hyn o bryd gan mai ymgynghoriad yn unig ydyw. Ond os aiff ymlaen, dydyn ni ddim eisiau i neb adael Bro Caereinion, rydym am i ddisgyblion ddod yma ac rydym am i'r disgyblion hynny yn yr ysgol gynradd gael Trochi ac aros yma, ac rydym am ei werthu mewn ffordd bositif. Mae'n rhaid i ni gydnabod y gallai fod yn ysgol fach a gall fod yn fach am gryn nifer o flynyddoedd.

Lynette Lovell: Rwy'n credu o ran hynny hefyd, mae gennym waith i'w wneud efo Dafydd Llwyd, Ysgol Gymraeg Y Trallwng. Nid yw plant o'r ysgolion hynny'n gweld llwybr clir drwodd, felly maen nhw'n edrych ar opsiynau eraill. Petai Bro Caereinion yn troi'n gyfrwng Cymraeg, hon fyddai'r ysgol y byddai'r cludiant yn dod iddi, felly byddai hynny'n newid pethau.

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Mae angen i hynny ddechrau nawr, nid dwy flynedd i ffwrdd.

Marianne Evans: Mae gennym ddarpariaeth blynyddoedd cynnar bywiog iawn yn Dafydd Llwyd felly mae'r niferoedd yn gryf. Mae Ysgol Gymraeg Y Trallwng dros 100 erbyn hyn, ac efo'r momentwm sydd yn yr ysgol honno a'r arweinyddiaeth, bydd yr ysgol honno'n llawn yn fuan.

Llywodraethwr: Dyma'r trawsnewid, rwy'n credu mai dyna lle mae angen i ni dargedu ein neges.

Marianne Evans: Byddwn ni'n coladu popeth nawr ar ôl yr ymgynghoriad, rydyn ni'n cynnal cwpl o gyfarfodydd eraill yr wythnos nesaf ac yna'n gorffen ar 7 Rhagfyr a byddwn ni'n ymateb yn ôl bryd hynny yn y flwyddyn newydd.

Llywodraethwr: Rwy'n credu bod angen i ni grybwyll y plant sy'n dewis parhau yn Saesneg. Cododd y cwestiwn hwn lawer neithiwr, ac ar hyn o bryd byddai'n rhaid iddynt dalu i fynd i ysgol arall. Mae hyn yn bryder.

Marianne Evans: Bydd hynny'n cael ei nodi a'i egluro.

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Rwy'n credu y byddwn yn dechrau dod â'r cyfarfod i ben nawr, dim ond ychydig mwy o bwyntiau. Rydyn ni wedi siarad am y drafnidiaeth sy'n dda. O ran cyflymder y trawsnewid, mae llawer o bobl wedi dweud wrthyf ie mae'n rhaid i ni fod yn ddewr. Mae Blwyddyn 7 yn arbennig yn bryder, ond efallai y byddai rhai yn cefnogi. Yn y weledigaeth roedd hi'n 2027, felly mae angen edrych ar hynny. Dwi'n falch iawn eich bod chi'n mynd i Rhiw Bechan i siarad â nhw achos mae o mor bwysig.

Llywodraethwr: Trafodwyd y rhan fwyaf o'r pwyntiau rwyf wedi'u rhestru yma, diolch am ddod heno. Ni allaf ddianc rhag y ffaith bod angen dod â'r gymuned gyda ni ar hyn, nid llywodraethwyr yn unig yw hyn. Os yw hyn am lwyddo, mae'n rhaid i'r gymuned ehangach gefnogi hyn. Mae'n rhaid i'r ymgysylltiad ddigwydd.

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Diolch am gytuno i ddod i'r ysgol heddiw. Un o'r pethau mawr a ddaeth allan neithiwr oedd ymgysylltu â'r disgyblion, ac fe wnaethon ni i gyd sôn amdano a siarad â'r tîm ac rydych chi wedi cytuno i ddod yn ôl yr wythnos nesaf.

Marianne Evans: Fe wnaethon ni gyfarfod â dros 100 o ddisgyblion heddiw ac roedd yn werthfawr iawn. Cawsom bedair sesiwn, dwy gyda disgyblion uwchradd a dau gyda disgyblion cynradd. Roedd pob un ohonynt yn llafar iawn ond roedd themâu tebyg yn dod drwodd gan bawb. Cawsom sgwrs gyda Huw ac rydym wedi cytuno y bydd yr ysgol yn hwyluso adborth pellach gan y disgyblion, a byddwn yn sicrhau bod hyn yn ein cyrraedd ni.

Llywodraethwr: Rwyf wedi gwneud hyn o'r blaen fel rhan o ymgynghoriad. Cael disgyblion mewn gwersi ABCh i ysgrifennu eu barn yn unigol a'i hanfon at y tîm, ac yna mae gennych ymateb pob un plentyn, rwy'n credu y byddai hynny'n ffordd dda o'i reoli.

Marianne Evans: Un o'r pethau wnaethon ni sylwi heddiw wrth y disgyblion hefyd, roedd y themâu yr un fath, gan y grwpiau Cymraeg a'r grwpiau Saesneg. Fodd bynnag, roedd hi'n anodd i rai disgyblion leisio eu barn, roeddech chi'n gallu gweld bod pwysau gan gyfoedion.

Sarah Astley: Roedd hi'n amlwg hefyd bod gan rai disgyblion rai pwyntiau positif ond nad oeddent yn teimlo'n gyfforddus y gallent rannu'r rheini.

Marianne Evans: Os bydda nhw'n ysgrifennu rhywbeth i lawr yn unigol yna mae pawb yn cael cyfle i ddweud eu dweud.

Pennaeth: Marianne soniais ti bod y 120 o ddisgyblion y gwnaethoch gwrdd â nhw heddiw yn fwy nag yr ydych chi wedi cwrdd mewn unrhyw ymgynghoriad arall?

Marianne Evans: Ydy mae hynny'n gywir, mae hyn yn llawer mwy o ddisgyblion nag yr ydym wedi siarad â nhw mewn unrhyw ymgynghoriad diweddar. Roedd lefel y paratoi roedden nhw i gyd wedi'i wneud yn wych hefyd.

Sarah Astley: Hefyd roedd bron pawb oedd yn y sesiynau wedi dweud rhywbeth. Yn aml mae un neu ddau yn dweud llawer ac mae pawb arall yn dawel, ond heddiw roedd bron pawb yn cyfrannu.

Marianne Evans: Cawsom ein plesio'n fawr gan ansawdd y cwestiynau a'u hymddygiad. Roedd y rhai cynradd yn arbennig yn ardderchog.

Cadeirydd y Llywodraethwyr: Diolch i'r holl Lywodraethwyr a Swyddogion Powys am ddod heno. Cymerwch i ystyriaeth yr hyn rydyn ni wedi'i ddweud heno, mae gennych chi gorff llywodraethu yma sydd eisiau i hyn weithio.

Cyfarfodydd efo disgyblion Ysgol Bro Caereinion

22 Tachwedd 2023

Swyddogion oedd yn bresennol: Bethan Price, Marianne Evans, Sarah Astley

Fel rhan o gynnig y cyngor i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion, cynhaliwyd cyfarfodydd efo 4 grŵp o ddisgyblion, i roi'r cyfle iddynt roi eu barn i'r Cyngor ar y cynnig.

Dechreuwyd pob cyfarfod trwy esbonio'r cynnig, ac esbonio pwrpas y cyfnod ymgynghori, sef casglu barn ar y cynnig.

Cyfarfod 1 – Disgyblion uwchradd cyfrwng Cymraeg – 12.00 – 12.50

Roedd 25 o ddisgyblion yn bresennol o flynyddoedd 7 i 13

Ar ôl esbonio'r cynnig a'r broses, gofynnwyd i'r disgyblion roi eu sylwadau ar y cynnig:

Oes rhai ohonoch yn meddwl bod y cynnig yn beth da? Os felly, pam ydych chi'n meddwl hynny?

- Mae rhieni yn yr ardal yn barod yn dewis addysg Gymraeg yn hytrach nag addysg Saesneg
- Mae llawer o bobl Cymraeg yn yr ardal ond ddim llawer o bobl Saesneg
- Mae mwy o alw am addysg Gymraeg
- Mae addysg Gymraeg yn cynyddu llawer yn ysgolion fel Ysgol Dafydd Llwyd
- Mae angen ysgol Gymraeg yn y sir. Os nad yw'r ysgol yn Llanfair, falle wneith o ddigwydd rhywle arall, a neith hynny gau Ysgol Llanfair.

Beth am yr elfennau sydd ddim mor dda? Pam ydych chi'n meddwl bod o ddim yn beth da?

- Mae'r ysgol yn fach beth bynnag – lle mae'r plant yn mynd i ddod o?
- Lle mae'r athrawon Cymraeg yn mynd i ddod o? Does neb ar gael ar hyn o bryd i ddysgu mathemateg yn Gymraeg – yn barod mae'r ysgol yn cael trafferth i recriwtio athrawon sy'n gallu dysgu yn Gymraeg
- Mae ffrwd Gymraeg a Saesneg yn yr ysgol yn barod, pam bod angen cael gwared ar y ffrwd Saesneg? Byddai'n creu rhwyg / gwrthdaro yn y gymuned
- Beth os ydy pobl ddim yn gallu ymdopi mewn addysg Gymraeg? Beth fyddai'n digwydd iddyn nhw?
- Mae'r dewis o addysg Gymraeg yma yn barod – dwi ddim yn meddwl bod angen cael gwared ar y ffrwd Saesneg

- Byddai tynnu plant allan yn tynnu arian allan o'r ysgol – pwy sy'n mynd i ddod yna i gymryd lle'r plant sy'n gadael?
- Mae rhieni'n poeni na fyddant yn gallu helpu efo gwaith cartref ayb.
- Pryder am yr effaith ar blant efo anghenion arbennig. Oherwydd y model dwy ffrwd, mae disgyblion efo rhai anghenion yn gallu symud i mewn i'r ffrwd Saesneg os oes angen, ond pe bai'r newid yn digwydd, byddai angen iddyn nhw symud i ysgol arall.

Pa gwestiynau eraill sydd gennych chi am y cynnig?

- A fyddai'n rhaid i'r holl staff allu siarad Cymraeg, neu ai dim ond staff dysgu? Beth am staff coginio ayb?
- A fyddai hyn yn digwydd os nad oedd arian yn brin?
- Pa gyfleoedd ychwanegol fyddai disgyblion yn ei gael mewn ysgol Gymraeg i'w gymharu efo ysgol dwy ffrwd?
- A fyddai disgwyl i blant siarad Cymraeg yn ystod amser egwyl ayb?
- Os na fydd y newid yma'n digwydd, beth ydy dyfodol yr ysgol?
- Lle fyddai'r plant Saesneg yn mynd achos mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion eraill yn yr ardal yn llawn.
- Faint fyddai'n costio i dalu am fysiau i ysgolion eraill i blant cyfrwng Saesneg? Pwy fyddai'n talu am hyn?
- Ydy hyn i sicrhau dyfodol yr ysgol neu i dicio bocs efo'r Llywodraeth?
- Os bydd hyn yn digwydd a bod arian ychwanegol yn dod, beth fyddwch chi'n gwario fo ar?

Sylwadau eraill

- Dwi wedi dysgu llawer o'r sgwrs yma heddiw, dwi ddim yn meddwl bod pobl yn y gymuned yn deall
- Ar hyn o bryd mae llawer o blant yn meddwl bod nhw'n mynd i gael eu taflu allan o'r ysgol – efallai bod negeseuon anghywir yn mynd o gwmpas y lle.
- Mae rhai o'r bobl sydd wedi rhoi eu plant mewn addysg Gymraeg wedi gwneud hynny achos eu bod yn meddwl y bydd y cyfrwng iaith yn newid.
- Dyle ni roi mwy o bwyslais ar ddisgyblion y ffrwd Saesneg yn siarad Cymraeg yn well – mae llawer o fy ffrindiau yn dweud bod nhw'n gallu siarad Sbaeneg yn well na Chymraeg!
- Yn y blynyddoedd diwethaf, does dim digon o gymorth wedi bod i blant efo anghenion arbennig – dim arian wedi bod yna i gefnogi nhw. Os bydde digon o gyllid, bydde rhai o'r plant yna ddim yn gorfod symud i'r cyfrwng Saesneg.

Atgoffwyd y disgyblion bod yr ymgynghoriad yn rhedeg tan y 7fed Rhagfyr ac y gallant anfon unrhyw sylwadau eraill sydd ganddynt ymlaen i'r tîm er mwyn iddynt gael eu hystyried yn yr ymgynghoriad.

Cyfarfod 2 – Disgyblion cynradd cyfrwng Saesneg – 1.25 – 1.55

Roedd 35 o ddisgyblion yn bresennol sydd ar hyn o bryd yn mynychu dosbarthiadau cyfrwng Saesneg yng nghyfnod cynradd yr ysgol.

Ar ôl esbonio'r cynnig a'r broses, gofynnwyd i'r disgyblion roi eu barn:

Pam nad yw'r cynnig yn syniad da?

- Dyw e ddim yn deg, mae'n teimlo fel bod y Gymraeg yn cymryd drosodd
- Mae dysgwyr Saesneg eisoes wedi dysgu Saesneg, ddim yn gwybod llawer o Gymraeg - fydd yn anodd iddynt ddysgu digon o Gymraeg
- Efallai y bydd yn rhaid i'r ysgol gau os na fydd llawer o bobl yn dod yma
- Efallai y bydd rhai plant yn symud ysgolion, a allai olygu y byddent yn colli ffrindiau
- Mae pobl wedi bod yma ers amser maith a byddent yn colli'r athrawon
- Pam newid nawr? Mae wedi bod fel hyn ers amser hir
- Mae'n effeithio ar lawer o bobl
- Byddai'n effeithio ar ddysgwyr eraill o ysgolion eraill sy'n dod i gyfnod uwchradd yr ysgol
- Bydd yn effeithio ar addysg pobl – bydd yn ymyrryd ag addysg disgyblion os ydynt wedi dechrau yn Saesneg
- Bydd yn gwneud dysgu'n anoddach i siaradwyr di-Gymraeg
- Bydd pobl Saesneg yn drist am eu bod yn gorfod dysgu Cymraeg
- Bydd yn gwneud pob sesiwn ddysgu yn anoddach, a bydd dechreuwr newydd yn ei chael hi'n anoddach i ddysgu
- Pryder y byddai'n anodd gwneud arholiadau ym mlwyddyn 11 oherwydd y byddent yn Gymraeg
- Efallai y bydd rhai o'r athrawon Saesneg yn colli eu swyddi
- Efallai y bydd ofn ar ddisgyblion os oes rhaid iddynt symud ysgol
- Pryder am waith cartref – efallai na fydd disgyblion a phobl yn siarad Cymraeg gartref i helpu gyda gwaith cartref
- Ddim yn syniad da achos does dim athrawon mathemateg sy'n siarad Cymraeg

A oes unrhyw un yn meddwl y byddai rhywbeth da am y syniad hwn?

- Gallai pobl Saesneg ddysgu mwy o ieithoedd
- Byddai'n annog mwy o bobl i ddefnyddio'r Gymraeg

Eglurodd swyddogion y byddai darpariaeth 'Trochi' ar gael i alluogi disgyblion sy'n cael eu haddysgu yn Saesneg ar hyn o bryd i ddysgu Cymraeg a symud i'r ffrwd Gymraeg. Cafwyd y cwestiynau / sylwadau canlynol ynglŷn â'r ddarpariaeth hon:

- Petaen ni'n gwneud darpariaeth Trochi, a fydden ni'n dysgu digon o Gymraeg i fynd i'r ysgol uwchradd yma?

- Oes 'trochi' i ddisgyblion symud i'r ffrwd Saesneg?
- A ellir gwneud y trochi ar-lein?
- Fyddai'r Trochi yn oriau ysgol?
- Pa mor hir mae'n ei gymryd i ddysgu Cymraeg drwy Trochi?
- Lle bydd y Trochi?

Cwestiynau eraill am y cynnig

- A fyddai'r flwyddyn 6 bresennol y flwyddyn olaf a allai gael darpariaeth uwchradd cyfrwng Saesneg?
- Pam ddim troi i'r Saesneg yn llawn?
- A fyddai disgyblion blwyddyn 8 yn yr uwchradd yn dal i allu cael addysg Saesneg?
- Pam mae'n rhaid iddo fod yn Llanfair?
- A fyddai gwisg ysgol newydd?
- A fydd yn rhaid i ni gael merched cinio Cymraeg eu hiaith?
- A yw'n bleidlais?
- Sut ydych chi'n mynd i gadw'r disgyblion yn y Saesneg fel nad ydyn nhw'n symud ysgolion?
- Pryd fyddwn ni'n gwybod a fydd hyn yn digwydd?

Sylwadau eraill

- Mae'r disgyblion yn poeni am y newid posibl hwn
- Efallai y bydd yn rhaid i rai disgyblion symud i fynd i ysgolion cyfrwng Saesneg
- Efallai y bydd rhai athrawon yn gadael oherwydd nad ydynt yn siarad Cymraeg
- Mae'n dda cael opsiynau i wneud Cymraeg neu Saesneg

Eglurodd swyddogion y bydd yr ymgynghoriad yn parhau tan 7 Rhagfyr, anogwyd disgyblion i ysgrifennu unrhyw sylwadau eraill sydd ganddynt os byddant yn meddwl am unrhyw beth arall a'u rhoi i'w hathrawon a fydd yn sicrhau eu bod yn cael eu hanfon ymlaen.

Cyfarfod 3 – Disgyblion Cynradd Cyfrwng Cymraeg – 2.05 – 2.35

Roedd 34 o ddisgyblion yn bresennol sy'n mynychu dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg yng nghyfnod cynradd yr ysgol.

Ar ôl esbonio'r cynnig a'r broses, gofynnwyd i'r disgyblion roi eu barn:

Pam ydych chi'n meddwl y byddai'r cynnig yn syniad da?

- Byddai pawb yn cael addysg Gymraeg ac yn gallu siarad Cymraeg

- Bydd pobl sydd ddim ond yn siarad Saesneg yn gallu dysgu Cymraeg
- Os dyden ni ddim yn gwneud hyn, bydd yr iaith Gymraeg yn marw
- Byddai cyfle i gael mwy o blant Cymraeg i ddod yma
- Os oes gen ti ffrindiau yn y ffrwd Saesneg, ti ddim yn gallu siarad Cymraeg efo nhw ar hyn o bryd, ond byddai pawb yn gallu siarad Cymraeg felly mae'n beth da

Pam ydych chi'n meddwl bod y cynnig ddim yn syniad da?

- Bydde fo ddim yn deg i'r plant yn y dosbarth Saesneg achos bydde rhaid iddyn nhw fynd i ysgol arall
- Bydde ni'n colli ffrindiau os bydde nhw'n symud ysgol
- Efallai y bydd yr ysgol yn colli llawer o ddisgyblion a bydde'n rhaid i'r ysgol gau
- Bydde fo ddim yn deg i mamau a thadau os bydde brodyr a chwiorydd yn cael addysg mewn gwahanol ieithoedd / gwahanol ysgolion
- Bydde'n rhaid i blant deithio ymhellach i gael addysg yn Saesneg
- Efallai bydd dim digon o blant i wneud tîm chwaraeon os bydd y plant Saesneg yn gadael
- Byddai'r plant Saesneg yn cael eu gorfodi i wneud rhywbeth dyden nhw ddim eisiau gwneud
- Efallai bydd llawer o athrawon Saesneg yn gadael yr ysgol

Cwestiynau / sylwadau eraill

- Beth fydd yn digwydd i ddosbarthiadau'r ffrwd Saesneg?
- Lle fydd yr athrawon Saesneg yn mynd?
- Ai dim ond Ysgol Bro Caereinion sy'n mynd yn ysgol Gymraeg?
- A fydd o'n effeithio ar blant sydd yn yr ysgol uwchradd yn barod?
- Beth os bydd yr holl blant yn gadael yr ysgol a bod dim digon o blant ar ôl?
- Pam ydych chi'n rhoi arian cyn addysg y plant?
- A fydd hyn yn effeithio ar blant sydd yn yr ysgol uwchradd yn barod?
- A fydd rhaid i bobl sy'n byw fan hyn fynd i'r Trallwng?

Esboniwyd y bydd yr ymgynghoriad yn parhau tan 7fed Rhagfyr. Anogwyd disgyblion i ysgrifennu unrhyw sylwadau eraill y byddant yn meddwl amdanynt, ac i roi rhain i'w hathrawon, a fydd yn sicrhau eu bod yn cael eu hanfon ymlaen.

Cyfarfod 4 – Disgyblion uwchradd cyfrwng Saesneg – 2.35 – 3.25

Roedd tua 22 o ddisgyblion yn bresennol o bob grŵp blwyddyn.

Ar ôl esbonio'r cynnig a'r broses, gofynnwyd i'r disgyblion am eu barn:

Pam nad ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?

- Mae hon yn ardal ddwyieithog, byddai hyn yn rhannu'r ardal
- Byddai'r cynnig yn dileu dewis
- Mae plant eisoes yn ei chael hi'n anodd ymdopi yn Saesneg
- Mae'n annheg i'r disgyblion a'r staff cyfrwng Saesneg
- Pryder y byddai athrawon sydd ddim yn siarad Cymraeg allan o waith
- Bydd yn effeithio ar ddysgwyr iau sydd â brodyr a chwiorydd hŷn - efallai y bydd yn rhaid iddynt fynd i wahanol ysgolion
- Byddai brodyr a chwiorydd a ffrindiau yn cael eu gwahanu
- Does gan lawer o ddisgyblion ddim rhywun sy'n siarad Cymraeg gartref felly byddai'n anoddach iddyn nhw wneud gwaith cartref ac ati
- Byddai'n arwain at raniad mawr yn y gymuned
- Gall fod yn anodd i ddisgyblion wneud ffrindiau os oes rhaid iddynt symud i ysgol wahanol
- O ble fydd y staff yn dod? Mae'r ysgol yn cael trafferth cael athro Mathemateg Cymraeg yn barod
- Mae llawer o rieni'n dewis y ffrwd Gymraeg gan wybod bod rhwyd diogelwch yno a gallant symud i'r ffrwd Saesneg pe bai angen, ond ni fyddai'r rhwyd ddiogelwch hon yno mwyach.
- Mae rhai disgyblion yn symud i'r ffrwd Saesneg yn ddiweddarach yn yr ysgol uwchradd i wneud TGAU yn barod ar gyfer y brifysgol ac ati – fydden nhw ddim yn gallu gwneud hyn.
- Mae rhai rhieni yn yr ardal wedi rhoi eu plant yn y ffrwd Gymraeg yn y cynradd gan wybod y gallen nhw symud i gyfrwng Saesneg yn yr uwchradd.
- Byddai'n rhaid i'r disgyblion godi'n gynt i gyrraedd yr ysgol.
- Mae'r model presennol yn golygu bod disgyblion cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn helpu ei gilydd i ddatblygu sgiliau yn y ddwy iaith.
- Pryder y bydd yr athrawon i gyd yn gadael, ac ni fydd unrhyw ddisgyblion yn dod yma, yna yn y pen draw ni fydd ysgol yma
- Byddai'n anoddach i ddisgyblion drosglwyddo i'r brifysgol os ydynt wedi bod drwy addysg Gymraeg
- Byddai'n anoddach i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol e.e. disgyblion â dyslecsia sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd dysgu yn Saesneg
- Pryder y byddai'n rhaid i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol fynd i ysgolion eraill fel Y Trallwng a'r Drenwydd
- Pryder y byddai'n rhaid i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol fynd i wahanol ysgolion na'u brodyr a'u chwiorydd / ffrindiau

A oes unrhyw beth yr ydych chi'n meddwl fyddai'n dda am y cynlluniau?

Ni wnaed unrhyw sylwadau.

Cwestiynau eraill

- Mae disgyblion yn cael eu gwersi yn Gymraeg yn barod, felly beth yw'r problem?

- Pam ein hysgol ni a nid ysgolion eraill fel Llanfyllin?
- A fyddai'r cynradd yn troi yn Gymraeg hefyd?
- Beth am wneud ysgol Gymraeg newydd yn rhywle arall?
- Ai'r unig reswm pam mae hyn yn digwydd yw oherwydd cyllid?
- A fydd y Cyngor yn newid y dalgylchoedd? Ni all rhieni fforddio gyrru eu plant i'r ysgol ddwywaith y dydd.
- Lle byddai'r disgyblion yn mynd?
- A yw'r ddarpariaeth Trochi sy'n cael ei chynnig wedi'i phrofi'n effeithiol?

Sylwadau eraill

- Mae llawer o rieni ond wedi rhoi eu plant yn y ffrwd Gymraeg oherwydd eu bod yn meddwl y byddai'r iaith yn newid yn y dyfodol
- Efallai y bydd yn rhaid symud rhai plant Cymraeg o'r ysgol os yw eu brodyr a chworydd yn symud
- Disgyblion eisiau gwneud TGAU yn Saesneg
- Disgyblion yn cael eu gwthio / eu gorfodi i'r cyfrwng Cymraeg
- Mae athrawon eisoes yn gadael yr ysgol oherwydd hyn, sy'n amharu ar ddisgyblion presennol mewn blynyddoedd arholiadau
- Mae Llanfair yn gryf ar gyfer Cymraeg ail iaith
- Mae'r disgyblion Cymraeg yn Llanfair yn cael eu trin yn well - mwy o dripiâu, cael mynd ar y bus am ddim, roedd ganddyn nhw floc newydd wedi'i adeiladu ar eu cyfer.

Eglurodd swyddogion y bydd yr ymgynghoriad yn parhau tan 7 Rhagfyr, anogwyd disgyblion i ysgrifennu unrhyw sylwadau eraill sydd ganddynt i lawr os ydynt yn meddwl am unrhyw beth arall a'u rhoi i'w hathrawon a fydd yn sicrhau eu bod yn cael eu hanfon ymlaen.

Cyfarfod ymgynghori gyda staff Ysgol Rhiw Bechan

28 Tachwedd 2023

Presennol:

Staff:

Allyson Whitticase, Pennaeth
Christine Watkin, Cynorthwydd Addysgu
Emma Jerman, Athrawes
Margaritta Lovell, Dirprwy Bennaeth
Owain James, Cynorthwydd Addysgu
Gwen Davies, Athrawes
Elin Watkin, Cynorthwydd Addysgu
Stephanie Lea, Cynorthwydd Addysgu
Emma Langford, Cynorthwydd Addysgu
Becca Edwards, Athrawes Blwyddyn 5/6
Angela Jones, CCD
Terri Owen, Cynorthwydd Addysgu

Swyddogion:

Marianne Evans, Rheolwr Gwasanaeth Trawsnewid Ysgolion
Sarah Astley, Rheolwr Rhaglen Strategol, Trawsnewid Addysg
Ffion Evans, Cydlynnydd Trawsnewid Addysg
Eurig Towns, Rheolwr Gwasanaeth Gwella Ysgolion
Bethan Price, Arweinydd Cymraeg

Croesawodd Marianne Evans bawb i'r cyfarfod. Gwnaeth bawb a oedd yn bresennol gyflwyno eu hunain.

Eglurwyd y byddai cyflwyniad byr gyda chyfle i drafod, sylwadau a chwestiynau i'r swyddogion wedyn. Eglurwyd y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio at ddibenion cofnodi ond byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y bydd y cofnodion wedi'u cwblhau a'u cytuno.

Rhoddodd Sarah Astley gyflwyniad PowerPoint oedd yn amlinellu cefndir y cynnig presennol a'r broses.

Y cynnig yw:

- I wneud newid rheoledig i gategori iaith Ysgol Bro Caereinion i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg, i'w gweithredu'n raddol gyda Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025.

Esboniwyd fod yr ymgynghoriad i fod i orffen ar 30 Tachwedd ond mae wedi'i ymestyn i 7 Rhagfyr, 2023.

Yn dilyn y cyflwyniad, cafodd staff gyfle i ofyn unrhyw gwestiynau neu i wneud unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r mater.

Aelod Staff: Pam dewiswyd Medi 2025? Rydych chi wedi sôn am Fro Hyddgen sydd hefyd ar gyfnod trosglwyddo ac mae'n ymddangos eu bod wedi cael cyfnod llawer hirach. Pam dewiswyd y dyddiad hwn?

Marianne Evans: Rydym wedi cael y cwestiwn hwn yn eithaf aml. Dyma'r gwahaniaeth rhwng y ddau gynnis, felly ym Machynlleth y cynnis oedd ei gyflwyno'n raddol o'r Dosbarth Derbyn, a byddai'n cymryd 12 mlynedd i'w weld drwodd. Gyda'r cynnis yma, dyna un o'r opsiynau yr edrychion ni arno, a allem ni wneud yr un peth ym Mro Caereinion. Ond mewn gwirionedd mae'r pwysau yn yr ardal yma wedi bod am yr uwchradd. Fel Cyngor, rydym wedi cael ein lobio ers blynyddoedd am y ffaith nad oes gennym ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg uwchradd yn yr ardal. Felly roedd rhaid i ni ystyried a oedd cymryd 12 mlynedd arall i weld sefydlu darpariaeth cyfrwng Cymraeg llawn yn addas, neu a ddylem ymgynghori ar ei gyflwyno fesul cam o'r Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 ar yr un pryd. Penderfynon ni mai dyna'r peth iawn i ymgynghori arno ond mae pryder am y trawsnewid Blwyddyn 7, dyna rydyn ni'n ei glywed. Efallai bydd angen i ni edrych eto ar hyn os bydd y cynnis yn mynd yn ei flaen, ond rwy'n credu pe na baem wedi cynnis rhywbeth ynghylch symud yr uwchradd yn gyflymach na Bro Hyddgen, byddem wedi cael hyd yn oed mwy o bryderon yn dod i mewn gan randdeiliaid eraill. Mae'n un anodd, ond mae'n ymddangos mai Blwyddyn 7 yw'r peth sy'n achosi pryder a gallaf ddeall hynny, i'ch disgyblion a'ch rhieni hefyd. Mae'r newid i Flwyddyn 7 yn dod gyda'r ddarpariaeth Trochi, felly os bydd yn mynd drwodd, byddem hefyd yn cyflwyno'r ddarpariaeth Trochi. Ydych chi eisiau i mi son am y Trochi yn gyntaf?

Aelod Staff: Ga i ofyn, wnaethoch chi ddweud fod pwysau wedi bod, ac rwy'n siarad fy hun fel unigolyn, ond mae gen i'r argraff nad yw'n ymddangos bod cymaint o bwysau yn gyffredinol gan bobl i symud hyn ymlaen yn gyflym. Efallai y byddai wedi bod yn well rhoi cyfle i bobl gael y drafodaeth honno yn gyntaf a thrafod amserlen, oherwydd i ni fel ysgol mae hyn wedi bod yn anodd iawn. Yn amlwg, mae rhieni'n poeni am bethau.

Hefyd gyda'r Trochi hoffwn wybod faint o gyllid sy'n cael ei ddefnyddio, pwy fydd yn ei ddarparu, oherwydd rydym yn gweithio'n agos iawn gyda llawer o'r athrawon sy'n darparu Trochi yn y sir ar hyn o bryd, ac maen nhw'n siarad am sut mae'n ddosbarth o un ar bymtheg o blant, ar hyn o bryd mae ganddyn nhw wyth ac mae'n wych. Rydych chi'n sôn am llawer mwy o blant, felly pwy sy'n mynd i'w ddarparu ac o ble mae'r cyllid yn dod. Felly, fyddai'n dda pe baech yn gallu esbonio.

Marianne Evans: Rwy'n clywed eich pryderon am Flwyddyn 7, mae'r rhain yn dod trwodd. Gallem fod wedi ymgynghori ar ystod o opsiynau, ond roeddem yn meddwl bod angen mynd i'r afael â'r mater uwchradd, felly dyna pam rydym yn ymgynghori ar newid ym Blwyddyn 7.

Bethan Price: O ran cyllid Trochi, ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r rhaglen Trochi. Yna caiff ei redeg / ei ddarparu gan aelodau o'r Cyngor, tîm "Swyddogion y Gymraeg". Rydym yn gobeithio gwneud newidiadau i'r ffordd yr ydym yn rhedeg Trochi fel Cyngor gan ein bod yn gobeithio sefydlu canolfan Trochi. Ar hyn o bryd dim ond ar sail ad-hoc y mae'n digwydd pan fydd digon o alw, ond mewn gwirionedd, os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen byddai gennym angen dwys am Drochi yn yr ardal. Felly byddem yn edrych ar redeg canolfan Trochi yn yr ardal i ddarparu ar gyfer y nifer fwy o ddisgyblion a allai fod eisiau cymryd rhan yn y Trochi hwnnw.

Rydym yn sylweddoli na fydd angen iddyn nhw i gyd fynd ar unwaith, oherwydd wrth gwrs bydd yn cael ei gyflwyno'n raddol. Gallwn weithio gyda grwpiau blwyddyn gwahanol ar wahanol adegau, neu efallai y bydd rhai pobl eisiau'r ddarpariaeth a rhai pobl ddim. Yn amlwg, tra bod y broses ymgynghori yn parhau, a hyd nes y byddwn yn gwybod a fydd y cynnig yn mynd ymlaen neu beth fydd y cynnig yn symud ymlaen, mae'n anodd mesur yr angen am ddarpariaeth Trochi. Y gobaith yw y gallwn leoli canolfan yn yr ardal a sicrhau bod canolfan barhaus i ddarparu ar gyfer y disgyblion a fyddai angen y ddarpariaeth honno.

Marianne Evans: Nid y Trochi yn unig ond y dilyniant ymlaen i Flwyddyn 7 hefyd.

Bethan Price: Ie yn hollol. Fel y gwyddoch, mae yna gwrs Trochi dwys sy'n tueddu i bara tua deuddeg wythnos, ond ar hyn o bryd mae polisi o flwyddyn o gefnogaeth barhaus hefyd, unwaith eto wedi'i ddarparu gan dîm y Cyngor.

Marianne Evans: Roeddech chi'n sôn am gyllid. Ar hyn o bryd mae Trochi yn cael ei ariannu gan grant gan Lywodraeth Cymru o £100,000 y flwyddyn. Rydym mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, oherwydd yn amlwg mae angen Trochi ar draws y sir. Rydym mewn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru drwy'r amser am y pwysau a'r angen i sicrhau bod yr arian yno i gefnogi darpariaeth Trochi ym Mhowys. Mae'n fath gwahanol o Trochi hefyd, yn tydy Bethan, felly Trochi Pontio fydd hi, mae'n gweithio mewn awdurdodau eraill ac mae'n fodel a ddefnyddir yn helaeth mewn manau eraill.

Bethan Price: Yr hyn rydym wedi'i wneud hyd yma ym Mhowys yw Trochi Cynradd. Felly yn amlwg mae'r rhai ohonoch sy'n dysgu yn y ffrwd Gymraeg, rydych yn gwneud addysg Drochi beth bynnag, dyna sut rydych chi'n dysgu. Ond fel arfer Trochi Cynnar yw hyn, gan ddechrau o ddechrau'r daith ysgol. Rydyn ni'n edrych ar ddarpariaeth ar gyfer rhai sy'n dod yn ddiweddarach – Trochi Hwyr. Ar hyn o bryd ym Mhowys rydym wedi gweithio gyda disgyblion rhwng blynyddoedd tri a phump yn bennaf, ond rydym wedi cael disgyblion ym mlwyddyn chwech yn ogystal yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae cynlluniau pilot a chanolfannau Trochi ledled Cymru sy'n pontio blwyddyn chwech hefyd, a elwir yn Trochi Pontio, lle mae blwyddyn chwech wedi cwblhau eu prif daith drwy gyfrwng y

Saesneg, yna mae darpariaeth Trochi y neu galluogi i fynd i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg.

Aelod Staff: Fel ysgol, byddai amseriad Trochi yn torri i mewn i'n cwricwlwm ein hunain ac rwy'n credu y bydd hynny'n eithaf dinistriol. Os oedd yn mynd i ddigwydd yn nhymor yr haf cyn iddyn nhw fynd i'r ysgol uwchradd, mae yna bob math o bethau eisoes yn mynd ymlaen a phrosiectau eraill rydyn ni'n eu gwneud. A'r ail beth, am ein bod ni'n ysgol dwy ffrwd, mae ein rhieni eisoes wedi gwneud y penderfyniad hwnnw. Cawson nhw'r cyfle i fynd drwy'r ffrwd Gymraeg pan wnaethon nhw ddechrau yma. Mae'n dipyn o waith i'w perswadio i gymryd y cam mawr hwnnw nawr, ac mae'n gam enfawr, oherwydd yn academiaidd mae'r plant hynny'n mynd i gymryd cam enfawr yn ôl gan nad ydyn nhw'n mynd i fod ar yr un lefel â'u cymheiriaid sydd wedi dod trwy gyfrwng y Gymraeg ers Derbyn. Rwy'n credu mai dyna'r sicrwydd y bydd yn rhaid i chi ei roi i rieni, ac mae gwaith enfawr i'w perswadio i wneud hynny. Rwy'n ceisio cymryd y ddwy ochr. Mae'n rhaid i ni bwysu a mesur y ffaith bod yna blant yma fydd byth yn gallu cael mynediad i Trochi oherwydd bod ganddyn nhw anghenion ychwanegol, maen nhw wedi symud, maen nhw wedi trio Cymraeg, maen nhw wedi gorfod symud ar draws oherwydd bod ganddyn nhw anawsterau llythrennedd. Ni fyddant yn cael y cyfle hwnnw. Mae'n rhaid i mi ddweud mai'r cryfder yng Nghaereinion yw ei bod hi'n ysgol uwchradd wledig, mae plant yn cael eu cysgodi yno a dyna pam mae rhieni'n anfon eu plant yno. Ac nid wyf yn golygu unrhyw amharch i'r Drenewydd nac unrhyw le arall, ond fel rhieni os gallwch gysgodi eich plant rhag y byd drwg mawr cyhyd ag y gallwch, rydych chi'n gwneud hynny. A dyna sy'n denu pobl i fyw yn Nhregynon, dyna sy'n denu pobl i ddod i Rhiw Bechan ac yn y blaen. Mae hynny'n enfawr, yn ddiwylliannol. Mae'n mynd i fod yn eithaf anodd nawr ond bydd yn rhaid i ni oroesi'r storm.

Mae hyn wedi dod gan Lywodraeth Cymru yn y pen draw, rwy'n credu ei bod yn deg dweud. Ond dyna'r peth gyda Llywodraeth Cymru, dwi ddim yn meddwl eu bod nhw'n deall yn iawn isadeiledd yr ardal yma, wrth sôn am bethau fel staffio hefyd. Rwy'n credu bod llawer iawn sydd angen ei roi ar waith yn gyntaf oll, ac fel mae pethau'n sefyll ar hyn o bryd, dwi ddim yn meddwl mai dyma'r amser. Mae'n ymddangos bod angen llawer o gynllunio ar y seilwaith. Pwy yw'r Cymry Cymraeg, pwy yw'r bobl hynny y gallwn ni dynnu i mewn? Pwy yw'r bobl y gallwn ni eu tyfu drwy roi'r cyfle hwnnw iddyn nhw. Bydd 'na bobl yn dod drwodd, dwi'n eitha' siŵr, ond erbyn mis Medi 2025? Rwy'n teimlo y bydd yn cael ei sefydlu i fethu, a dyna fy ofn mwyaf, oherwydd rydym am fod yn eiriolwyr dros hyn.

Sarah Astley: O ran y dyddiad mis Medi 2025, mae'r cynnig yn gyflwyniad graddol felly byddai'r cyfnod pontio yn dechrau ym mis Medi 2025. Ni fyddai popeth yn newid o fis Medi 2025, dim ond dechrau'r cyfnod pontio fyddai hyn.

Aelod Staff: Ond byddai'n rhaid i chi gael y bobl hynny yn eu lle. Y rhieni, yna ar ôl i chi ddechrau'r broses, rydych chi'n mynd i gynnig y Trochi yr holl ffordd i lawr trwy ein grwpiau blwyddyn. A beth os oes 50 neu 60 angen Trochi yn y pen draw ac nid oes gennych y staff i wneud hynny. Rwy'n credu mai dyma'r ofn mwyaf i rieni.

Marianne Evans: Yr hyn rwy'n ei glywed yma yw pryderon yn bennaf am y newid ym mlwyddyn 7, pryderon am yr amserlen gweithredu, a'ch bod yn meddwl bod angen mwy o amser i gynllunio os ydym am fynd i lawr y llwybr hwn.

Aelod Staff: Rwy'n credu hefyd nad yw un maint yn ffitio pawb. Mae cyfleoedd wedi bod o'r blaen a chollwyd rhain. Gyda Dafydd Llwyd, gallai hynny fod wedi bod yn ysgol hyd at 19 oed, mae cyfleoedd wedi'u colli. Nawr mae'n ymddangos fel ein bod ni mewn tipyn o banig ac yn meddwl lle rydyn ni'n mynd i roi ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, ac rwy'n credu bod angen ystyriaeth fwy meddylgar a mwy o feddwl am yr ardal leol ac unwaith eto'r seilwaith. Nid wyf yn credu ein bod ni yno eto, ac nid wyf yn gwybod pa mor hir y bydd hynny'n ei gymryd, ond gallai gymryd ychydig yn hirach eto.

Aelod Staff: Rwy'n credu bod rhieni'n dechrau derbyn fod eisiau i'w plant fod yn ddwyieithog. Gallwn ei weld yn y rhifau ym Mro Caereinion, gallwn ei weld yn ein rhifau yma. Ac weithiau gyda rhieni, os ydych chi'n eu gwthio i gornel, byddant yn ymladd yn ôl. Rydych chi'n cymryd y dewis hwnnw i ffwrdd, yna byddant yn ymladd yn ôl, er eu bod eisoes yn gwneud y dewis.

Marianne Evans: Mae'n ddiddorol, os edrychwch chi ar y niferoedd yn y dalgylch, mae 'na newid wedi bod, mae 'na newid wedi bod yn barod, ac mae'r niferoedd yn y Gymraeg wedi cynyddu. Mae hyn yn digwydd, nid oedd yn digwydd ychydig flynyddoedd yn ôl, mae'n digwydd nawr, mae'r twf yno. Ardderchog, ond rydym wedi gorfod meddwl am yr hyn y gallwn ei wneud i fynd i'r afael ag ef. Mae'r tîm wedi bod yn gweithio gyda Bro Caereinion ers nifer o flynyddoedd ac fe wnaethom ei gwneud yn glir yn ôl pan oedd yr ysgolion yn uno y byddai Bro Caereinion ar y continwmm iaith hwn, ac felly daeth y llywodraethwyr i'r casgliad o'r diwedd mai dyma oedd eu gweledigaeth nhw hefyd. Felly o ran gweithio gyda nhw a chael ymrwymiad llywodraethwyr Bro Caereinion, mae hynny wedi cymryd cryn amser oherwydd eu bod wedi cael trafodaethau o'r blaen ac mae cyfarfodydd cyhoeddus wedi bod yn y gorffennol ynglŷn â'r pwnc yma, ac mae pobl yn teimlo'n gryf iawn. Mae'n achosi rhaniad, yn tydy? Ond erbyn i ni gyrraedd y sefyllfa lle'r oedd y llywodraethwyr o blaid, yna roeddem yn meddwl fel bod gennym y mandad i symud ymlaen.

Aelod Staff: A yw Bro Caereinion o blaid, oherwydd nid dyna'r argraff a gawsom yn y cyfarfod gyda rhieni'r noson o'r blaen. Penderfyniad 'Powys' oedd yn cael ei awgrymu. 'Mae Powys yn gwneud hyn i ni'. Rydym ychydig yn ansicr ynghylch pwy sy'n gwneud y penderfyniad.

Marianne Evans: Mae ganddyn nhw weledigaeth. Yr hyn yr ydym yn ei wneud yw bwrw ymlaen â'r weledigaeth honno. Mae eu gweledigaeth ychydig yn wahanol. Yn wreiddiol, roeddent am drawsnewidiad Blwyddyn 7 yn 2027 rwy'n credu. Ond ein penderfyniad ni oedd ymgynghori ar gyflwyno'r newid yn gynharach, i weld beth oedd barn pobl am y peth.

Aelod Staff: Felly a oes posibilrwydd o lithro yn ôl i 2027 neu ai pwysau ariannol sy'n gyrru hyn?

Marianne Evans: Bydd yn rhaid i ni edrych ar bopeth a phwyso a mesur y cyfan. Oes, mae yna ffordd, pan fydd y Cabinet yn penderfynu beth sydd angen iddo ei wneud nesaf, y gall newid, ond bydd yn rhaid i ni bwysu a mesur y cyfan, a dyna pam y bydd yn rhaid i ni fynd drwy'r ymatebion yn ofalus iawn.

Aelod Staff: Beth am y seilwaith mwy o ran y Gymraeg? Mae wedi bod yn bryder o hyd, ac mae'n rhywbeth yr ydym yn cael trafferth gydag o, seicolegwyr addysg, lleferydd ac iaith, GIG yn dod i mewn, nyrs ysgol, ymwelwyr iechyd, nid yw hynny yma eto.

Marianne Evans: Mae honno'n agenda fwy, onid yw? Ond rydych chi'n iawn, rhaid i ni fod yn realistig ac yn ymarferol o ran beth yw'r cynnig a beth all y gefnogaeth allanol fod. Rydym yn gwybod pa mor anodd yw recriwtio siaradwyr Cymraeg yn y Cyngor beth bynnag, ac o fewn y bwrdd iechyd. Oes, mae'n rhaid i ni fod yn ystyriol ac yn realistig ynghylch yr hyn y gallwn ei wneud.

Aelod Staff: Rydym hefyd yn clywed, yn enwedig pan fyddwn yn siarad am staff Cymraeg eu hiaith, staff uwchradd, y byddai'n well gan rai staff Cymraeg fod mewn ysgol cyfrwng Cymraeg nag ysgol ddwy ffrwd. Maen nhw'n chwilio am y math yna o ddarpariaeth ar gyfer eu teuluoedd. Felly mae'r un peth wedyn yn dilyn i weithwyr proffesiynol eraill mewn meysydd eraill. Mae wedi bod yn ddarpariaeth nad ydym wedi'i chael ym Mhowys. Yn amlwg, nid yw Bro Caereinion wedi bod yn hollol ddiogel. A dyna pam nad yw wedi denu staff i mewn, mae'r ysgol o hyd wedi bod o dan fygythiad o gau, mewn gwirionedd. Dyna'r eliffant yn yr ystafell, ynte? A dwi'n gobeithio na fydd hyn yn cael ei yrru ymlaen dim ond er mwyn ceisio cadw Caereinion ar agor. Weithiau rwy'n teimlo mai dyma'r rheswm.

Marianne Evans: Y rhesymau yw'r diffyg cyfrwng Cymraeg uwchradd yn yr ardal, y newid yn nifer y disgyblion yn y dalgylch, y pwysau ariannol o fod yn ysgol ddwy ffrwd hefyd. Wrth fynd yn ôl i'r Drenewydd a Dafydd Llwyd, roedd gennym gynlluniau ychydig flynyddoedd yn ôl i edrych ar ysgol bob oed yn Y Drenewydd. Lle, tir, cyllid cyfalaf oedd y broblem. Byddai staffio yn broblem – mae'r staff yng Nghaereinion, byddai'n rhaid i ni ddod o hyd i staff. Byddai ychwanegu ysgol uwchradd arall hefyd yn drafferthus.

Aelod Staff: Pe bai hynny'n digwydd yna mae goblygiadau mawr wedyn i Fro Caereinion, oherwydd o bosib yr un disgyblion fydden ni'n siarad amdany'n nhw. Rydych chi'n sôn am y dalgylch ac yn amlwg ni, Ysgol Gymraeg y Trallwng, Ysgol Dafydd Llwyd fyddai'r dalgylch. Dwi'n meddwl yn y ddwy ardal yna bod angen perswadio rhieni i ddod i Gaereinion. Ydych chi'n ymestyn y dalgylch ymhellach allan, i Ysgol Dyffryn Trannon er enghraifft?

Marianne Evans: Ar hyn o bryd y dalgylch yw'r dalgylch bresennol, felly chi, Dafydd Llwyd, Ysgol Gymraeg y Trallwng, Pontrobert, Cwm Banwy, Caereinion. Mae Meifod eisoes wedi symud i ddalgylch Llanfyllin.

Sarah Astley: Mae'r cwestiwn am Ysgol Dyffryn Trannon wedi codi mewn rhai cyfarfodydd eraill. Nid yw'n rhywbeth sy'n cael ei ystyried, ond rydych chi'n gwybod y gall newidiadau sy'n digwydd mewn un lle arwain at newidiadau eraill mewn mannau eraill yn y dyfodol.

Marianne Evans: Gallai fod sefyllfa os bydd hyn yn digwydd ac os bydd Bro Caereinion yn dod yn darparwr blaenllaw ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg lle bydd disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch yn dewis dod i mewn. Yna rhaid meddwl am y polisi trafndiaeth a hynny i gyd, felly bydd rhaid i ni edrych ar hynny. Gallem hefyd gael disgyblion yn dod i mewn o ddalgylch Llanfyllin ac ymhellach i ffwrdd. Felly dyna'r weledigaeth, dyna beth rydyn ni'n anelu ato, bod Bro Caereinion yn dod yn brif ddarparwr cyfrwng Cymraeg. Ond rydyn ni'n clywed eich pryderon, ac yn clywed yr holl bethau y byddai angen i ni weithio drwyddynt.

Aelod Staff: Mae hyn eisoes wedi'i grybwyll, ond beth am ddewis? Mae rhieni eisoes wedi gwneud y penderfyniad. A hefyd os ydych chi'n meddwl ar ôl 16 hefyd, rydych chi'n gwybod bod gennych chi oedolion ifanc sydd eisieu'r dewis o ran a ydyn nhw am fynd trwy gyfrwng y Gymraeg ac a ydyn nhw am fynd trwy gyfrwng y Saesneg yn unig, neu os ydyn nhw am wneud ychydig o'r ddau. Sut allwch chi ddweud y gallwch chi barhau i gynnig hynny i'r rhieni a'r disgyblion hynny, yr oedolion ifanc hynny rydyn ni'n gobeithio y byddan nhw'n seilwaith i ni yn y sir hon? Rydyn ni eisieu cadw ein pobl ifanc yma, yn tydyn? Ond ar yr un pryd, rydym am eu cadw yma am y rhesymau cywir. Felly beth ydy'r cynlluniau ar gyfer ôl 16 oed? Pa ddewisiadau sydd ar gael?

Marianne Evans: Ar hyn o bryd o ran cyfrwng Cymraeg ôl-16, darperir ôl-16 mewn darpariaeth chweched dosbarth. Mae gennym darpariaethau chweched dosbarth bach iawn, ac mae gennym chweched dosbarth ym mhob un ond un o'n hysgolion uwchradd, felly dyna ddeuddeg. Yr hyn sydd wedi digwydd gyda'n darpariaeth chweched dosbarth dros y blynyddoedd yw bod y niferoedd yn gostwng, ac mae'r niferoedd sy'n aros ymlaen yn ein chweched dosbarth wedi bod yn gostwng. Mae hyn wedi bod yn bryder i ni ers nifer o flynyddoedd, ond yr hyn sy'n digwydd yw eu bod yn cael eu denu allan i'r Amwythig, Henffordd, Merthyr, Castell-nedd, ac ati. Felly rydyn ni'n colli disgyblion y tu allan i'r sir oherwydd dydyn ni ddim yn gallu cynnig yr ystod o ddarpariaeth drwy gyfrwng y Saesneg a thrwy gyfrwng y Gymraeg. O ran ein prif ddarparwyr cyfrwng Cymraeg, rydych chi'n siarad Bro Caereinion a Bro Hyddgen ac wedyn does dim llawer os oes unrhyw ddarpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg yn yr ysgolion eraill. Ar gyfer ein chweched dosbarth, rydym wedi sefydlu model cydweithredol. Felly, mae pob ysgol yn gweithio gyda'i gilydd. Fe'i gelwir yn Chweched Powys. Mae dewis wedi'i wneud. Gallem naill ai fod wedi ystyried rhesymoli nifer y darpariaethau chweched dosbarth a oedd gennym neu gallem fod wedi gweithio'n galed iawn ar wneud i'r ysgolion i gyd weithio gyda'i gilydd. Mae'n

ymddangos bod hynny'n gweithio, ac rydym yn gweithio gyda choleg a darparwyr eraill hefyd. Ond mae atyniad Amwythig yn yr ardal hon yn dal yn beth mawr. Mae gennym hefyd yr E-sgol, dyma lle darperir cyrsiau ar-lein.

Eurig Towns: Y pwynt arall i'w wneud ar hyn yw pe bai'n ysgol un ffrwd, ni fyddai'n rhaid iddynt ddyblu ar gyrsiau. Felly ar gyfer darpariaeth cyn-16, TGAU lle maen nhw'n darparu hanes a history, daearyddiaeth a geography ar hyn o bryd. Mae hynny'n cymryd pedwar aelod o staff. Pe bai'n ffrwd sengl mae'n debyg y gallent gynyddu eu dewisiadau hefyd. Mae'n debyg y byddai hynny wedyn yn cael effaith ar gyrsiau Safon Uwch hefyd oherwydd y bydden nhw'n gallu eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig, a ddylai osgoi'r dynfa i'r Amwythig, gan nad yw'r Amwythig yn gallu cynnig y cyrsiau hynny yn Gymraeg. Felly rydych chi'n gwybod bod potensial, a photensial y gallen nhw ddenu pobl i'r ysgol i wneud pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg ac i Safon Uwch hefyd.

Aelod Staff: Ond beth os bydd rhai o'r bobl hynny'n penderfynu nad ydyn nhw eisiau astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn mynd yn ôl i'r pwynt o gynnig dewis. Efallai bod rhai pobl ifanc wedi mynd trwy gyfrwng Cymraeg ac wedyn maen nhw'n meddwl, iawn, dwi eisiau mynd i rywle fel Caergrawnt neu Rhydychen. Dwi'n meddwl mod i'n mynd i fod yn well fy mynd yn gwneud fy mathemateg, fy mathemateg uwch ac yn y blaen drwy gyfrwng y Saesneg, yn barod i wneud y trosglwyddiad hwnnw oherwydd yn y pen draw byddai'n wych gweld cynnydd yn ein pobl ifanc yn mynd ar ôl y mathau hynny o brifysgolion. Felly, sut allwn ni sicrhau hynny hefyd?

Eurig Towns: Mae hynny'n dal i fod yn opsiwn o fewn ein hysgolion gan fod gennym Chweched Powys. Mae'n golygu bod disgyblion yn gallu gwneud cyrsiau gwahanol mewn ysgolion gwahanol, felly maen nhw'n gallu gwneud cyrsiau gwahanol ac mae ganddyn nhw'r dewis hwnnw nawr. Byddai hyn yn dal yn agored iddynt. Nid yn unig y bydden nhw'n gallu gwneud Cymraeg yno. Byddent yn gallu cael mynediad i gyrsiau cyfrwng Saesneg hefyd mewn ysgolion eraill, sef yr hyn sydd gennym eisoes ar waith.

Aelod Staff: Byddai trafndiaeth yn broblem gyda hynny bryd.

Eurig Towns: Darperir cludiant nawr oherwydd lle mae'r cyrsiau'n cael eu cynnal, mae pob ysgol yn darparu nifer benodol o gyrsiau, rhai yn Saesneg, rhai yn Gymraeg. Yr hyn fyddai Caereinion yn gallu ei gynnig fyddai cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig, yn hytrach nag ar hyn o bryd maen nhw'n cynnig cyrsiau Cymraeg a Saesneg.

Aelod Staff: Felly'r peth arall roeddwn i'n meddwl amdano hefyd yw fy mod i'n tybio y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu buddsoddiad sylweddol yn yr adeilad ei hun oherwydd mae llawer o rieni'n dewis mynd i rai ysgolion oherwydd y cyfleusterau sydd ganddyn nhw. A Chaereinion druan, chi'n mynd yno ac mae'r cyflwr yn wael i gymharu ag ysgolion uwchradd eraill. Mae llawer o rieni Dafydd Llwyd yn mynd i Lanidloes oherwydd beth sy'n gallu cael ei gynnig iddyn nhw yno.

Marianne Evans: Dwi'n meddwl bod nifer o resymau pam fod rhieni Dafydd Llwyd yn dewis mynd i Lanidloes. Ond wrth ddod yn ôl at y buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen, ydy, mae adeilad Ysgol Bro Caereinion wedi blino, rydyn ni'n gwybod hynny.

Aelod Staff: Beth yw'r gwahaniaeth yn y niferoedd rhwng y Saesneg a'r ffrwd Gymraeg i fyny ym Mro Caereinion ar hyn o bryd.

Marianne Evans: O dop fy mhen mae'n tua 280 yn y ffrwd Gymraeg a tua 240 yn y ffrwd Saesneg.

Aelod Staff: Mae'n fwy nag yr oeddwn i'n meddwl.

Sarah Astley: Ar hyn o bryd mae 292 yn y cyfrwng Cymraeg, 257 yn y cyfrwng Saesneg, ond yn y cynradd mae pethau wedi newid. Yn y cynradd ar hyn o bryd maen nhw'n 74 cyfrwng Cymraeg a 50 yn y cyfrwng Saesneg, ond mae un ar bymtheg o'r 50 cyfrwng Saesneg hynny ym mlwyddyn chwech.

Eurig Towns: Ni ddaeth yr un disgybl i mewn i'r ffrwd Saesneg fis Medi yma, felly mae hynny'n golygu bod dim cyfrwng Saesneg yn y flwyddyn Derbyn, felly maen nhw'n mynd i gael grŵp blwyddyn yn mynd trwy'r ysgol heb unrhyw blant. Y potensial yw, unwaith eto o'r sgyrsiau maen nhw'n eu cael nawr, mai ychydig iawn fydd yn mynd i'r ffrwd Saesneg eto fis Medi nesaf. Felly, unwaith eto, mae'r symudiad tuag at y Gymraeg yn sylweddol.

Aelod Staff: Wel, byddant yn gwneud cais. Mae'n rhaid iddyn nhw ddewis.

Marianne Evans: Ydyn, maen nhw'n dewis y dosbarth Cymraeg neu'r dosbarth Saesneg pan maen nhw'n gwneud cais.

Aelod Staff: Gan ddechrau o'r gwaelod a dim ond 3 plus sydd gen i. Mae'r cyfan yn gyfrwng Cymraeg, a dwi'n meddwl os bydd o'n dechrau o'r gwaelod mi fydd o'n tyfu.

Marianne Evans: Mae Cylch yn Llanfair.

Eurig Towns: Roedden nhw'n arfer cael darpariaeth blynyddoedd cynnar Saesneg a Chymraeg yno, ond doedd ganddyn nhw ddim y rhifau i'w cynnal. Felly dim ond Cylch Meithrin sydd bellach, sydd wedi'i sefydlu yn y dref erbyn hyn.

Marianne Evans: Gallai hynny fod wedi cael effaith ar rieni yn dewis y dosbarth cyfrwng Cymraeg.

Eurig Towns: Mae wedi cael effaith eleni, yn sicr. Roedd deuddeg o blant yn dod i'r flwyddyn derbyn, dewisodd 11 i fynd i'r ffrwd Gymraeg o'r dechrau, dim ond un i'r Saesneg, a chyn gynted ag y daethant i wybod bod y lleill i gyd yn mynd i'r ffrwd Gymraeg dewison nhw eu trosglwyddo draw. A dyna cyn iddynt gyrraedd yno mewn

gwirionedd, pan oedd y cynnig ar gael. Felly, mae'n bendant yn cael effaith ar yr ysgol.

Aelod Staff: Pe bai'r newid hwn yn digwydd a'u bod am fynd trwy gyfrwng y Saesneg, lle fyddai eu hysgol ddalgylch agosaf? Ai ni fyddai'r ysgol agosaf.

Marianne Evans: O ran cynradd cyfrwng Saesneg?

Aelod Staff: Mae'n dibynnu lle maen nhw'n byw, yn tydy? Felly gallai fod yma, gallai fod yn Berriew, Eglwys yng Nghymru Y Trallwng. A ddylwn ddisgwyl unrhyw ddisgyblion ychwanegol, tybed?

Marianne Evans: Roeddwn i'n mynd i ofyn i chi o ran cyfansoddiad yr ysgol hon, o ran y disgyblion yn y dosbarthiadau Cymraeg, ydyn nhw o gefndiroedd Cymraeg neu a yw'r rhan fwyaf ohonyn nhw'n siarad Saesneg adref?

Aelod Staff: Mae wedi tyfu ychydig oherwydd ein bod bellach yn dysgu plant y plant, felly maen nhw wedi dod nôl ac maen nhw'n Gymry Cymraeg achos aethon nhw drwy Rhiw Bechan. Ac fe aethon nhw drwy ysgol ddwy ffrwd ac roedden nhw'n dal i wneud yn dda iawn ac fe aethon nhw i Fro Caereinion, a oedd yn ysgol dwy ffrwd.

Gallaf ddeall o ran y gost, ond o ran safonau, ni allaf ddeall hynny, oherwydd rwy'n teimlo eu bod yn gwneud cystal, ac rwy'n gwybod oherwydd bod fy mhlant fy hun wedi bod trwy'r ysgol ac maen nhw wedi dod allan gydag A yn eu TGAU Cymraeg, felly mae rhywbeth yn mynd yn iawn a'r dwyieithrwydd yn mynd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac yna rydym yn tanbriso ein plant, gallant fynd o iaith i iaith. Rwy'n deall y pwynt ar Drochi, mae'n rhaid i chi wneud hynny oherwydd dydych chi ddim yn gallu clywed Cymraeg o gwmpas drwy'r amser.

Sarah Astley: Fel yr ydych wedi'i ddweud, dwy ffrwd yw'r model cyfarwydd fan hyn, yn te? Yn yr ardal hwn nid ydym yn gyfarwydd â'r dewis arall ar lefel uwchradd. Rydyn ni i ryw raddau ar lefel gynradd, ond dydyn ni ddim yn gyfarwydd â'r dewis arall ar lefel uwchradd, ond ar draws Cymru y dewis arall yw'r norm.

Aelod Staff: Ie ac mae ofn yno i fod yn onest. Dyna achosodd i bobl gwympto allan, ac mae llawer o rieni eisiau cefnogaeth i rieni achos dyna maen nhw'n poeni amdano, pan maen nhw'n cyrraedd yr ysgol uwchradd, byddan nhw ddim yn gallu eu helpu efo gwaith cartref, felly mae nhw'n mynd i'w rhain yn y ffrwd Saesneg. Ac mae ganddyn nhw'r opsiwn yna nawr. Mae rhai o'n rhieni wedi son am newid i'r Saesneg rwan tra mae nhw yn Rhiw Bechan, fel eu bod nhw'n gallu gwneud ffrindiau a mynd i ddarpariaeth cyfrwng Saesneg, felly i'w symud allan o'r ffrwd Gymraeg mewn gwirionedd, felly ni fyddai cymaint o blant yn mynd i Gaereinion rhagor. Ac mae hynny wir yn fy mhoeni gan ein bod wedi gweithio mor galed i gael plant i mewn i'r ffrwd Gymraeg.

Marianne Evans: Rwy'n credu mai'r neges yw, mae angen i ni gael y negeseuon allan am addysg cyfrwng Cymraeg beth bynnag fel Cyngor. Mae gennym ein tudalen ar y we 'Taith at Ddwy Iaith'. Mae gennym ni bethau ar y wefan, ond rwy'n credu bod mwy i'w wneud os aiff hyn yn ei flaen. Os yw hyn yn mynd yn ei flaen, mae angen i ni godi ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd, manteision addysg cyfrwng Cymraeg, beth yw addysg cyfrwng Cymraeg, oherwydd mae yna lawer o rieni sydd ddim wir yn deall, neu sy'n meddwl eich bod chi'n dod allan gyda'r Gymraeg yn unig, yn hytrach na gallu siarad y ddwy iaith. Ac felly mae yna ddarn o waith i'w wneud, os bydd hyn yn mynd ymlaen ai peidio, ond os yw yn mynd yn ei flaen, yna mae'n rhaid i ni godi hynny oherwydd fel yr ydych yn gwybod, mae hwn yn newid strategol mawr i'r awdurdod, a gyda hynny mae angen gwaith codi ymwybyddiaeth, ymgyrch gyfathrebu ayyb.

Aelod Staff: Gyda'r son am symud yr ysgol i'r Gymraeg, mae hynny'n newid ein strwythur ni. Mae'n mynd i newid ein strwythur fel ysgol, yn tydy? Mae hynny'n bryder i bawb yma. Beth fydd yn digwydd i ni pan fydd hynny'n digwydd? Beth fydd yn digwydd i'n swyddi?

Marianne Evans: Beth ydych chi'n meddwl sy'n mynd i ddigwydd i chi o ran newid y strwythur?

Aelod Staff: Yr ofn yw bod pawb yn mynd i fynd i banig achos maen nhw eisiau i'w plant fynd i Gaereinion, sy'n grêt, ond maen nhw'n mynd i fynd i'r Gymraeg o bosib. Rydym wedi gweld newid yn y niferoedd. Mae'n bosib byddwn ni i lawr i ddau ddosbarth Saesneg blwyddyn nesaf. Mae gynnon ni bedwar Cymraeg ar hyn o bryd.

Aelod Staff: Mae'n debygol fod hynny oherwydd y si, yn tydy? Fel mam, neu fel rhiant, byddech chi'n gwneud urhyw beth.

Aelod Staff: Rwyf am i bobl ddewis cyfrwng Cymraeg am y rheswm cywir. Os nad ydych chi'n siarad Cymraeg, mae'n ymrwymiad enfawr.

Marianne Evans: Felly ar hyn o bryd rydych chi'n bedwar dosbarth cyfrwng Cymraeg.

Aelod Staff: Pedwar dosbarth cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, ac oherwydd y ffordd mae'r gyllideb yn newid, mae'n debyg y bydd yn rhaid i ni ollwng dosbarth Saesneg oherwydd mae tipyn o'r ffrwd Saesneg yn symud ymlaen y flwyddyn nesaf, yn fwy na'r ffrwd Gymraeg. Mae gyda ni fwy yn y cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd is.

Marianne Evans: Cododd y cwestiwn ynglŷn â beth yw'r cynlluniau ar gyfer Rhiw Bechan yn y cyfarfod efo disgyblion. Ac eglurais yno fod gennym darged fel Cyngor i gynyddu nifer y disgyblion cyfrwng Cymraeg erbyn 2032. Mae'n darged eithaf sylweddol y maen nhw wedi'i roi i ni. Mae'n ddyletswydd arnom i edrych ar sut rydym yn cyflawni hyn. Rydym yn gweithio gydag ysgolion i edrych ar allwn ddechrau ffrwd

Gymraeg er enghraifft. Rydym wedi gwneud hynny mewn ysgol yn y De. Rydyn ni'n siarad gydag ysgolion eraill ac yn siarad â Chylch Meithrin, Mudiad Meithrin o ran edrych ar ddarpariaeth blynyddoedd cynnar a datblygu Cylch Ti a Fi. Mewn rhai ardaloedd, does dim byd o gwbl ar hyn o bryd. Rydym yn dechrau o sylfaen isel iawn ym Mhowys. Rydym hefyd yn edrych ar gyfansoddiad ysgolion fel Rhiw Bechan. Pe byddem yn meddwl bod yr ysgol yn barod i symud ar hyd y continwmm iaith yna byddem yn dechrau trafodaethau. Ni fyddai'n golygu y byddem yn gorfodi unrhyw beth, oherwydd mae'n rhaid i ni gael cefnogaeth ysgolion i wneud hyn. Mae Ysgol Dyffryn Trannon yn Nhrefeglwys yn ysgol arall lle mae hyn wedi digwydd. Ond erbyn i ni gael y trafodaethau hynny gyda Dyffryn Trannon roedd eu niferoedd wedi newid yn sylweddol ac roedd fel 90% yn y ffrwd Gymraeg, 10% yn y ffrwd Saesneg. Dydech chi ddim yno eto.

Sarah Astley: Y nod yw cefnogi pob ysgol i symud ar hyd y continwmm iaith. Ond yn amlwg mae hynny'n golygu rhywbeth gwahanol ym mhob ysgol, yn dibynnu ar eu sefyllfa. Mae'r newidiadau rydych chi wedi sôn amdany'n nhw o ran niferoedd disgyblion yma yn dangos bod yr ysgol hon yn barod yn symud ar hyd y continwmm iaith i ryw raddau. Felly fel y dywedwyd wrth y disgyblion, y dyhead yw cefnogi pob ysgol i symud ar hyd y continwmm iaith. Pe bai yna bwynt lle byddai awydd i newid categori iaith Ysgol Rhiw Bechan, yna eto nid yw'n rhywbeth fyddai'n gallu digwydd dros nos. Byddai'n broses raddol unwaith eto yn fwyaf tebygol. Ac eto, hyd yn oed os oedden ni eisiau ystyried hynny, byddai'n rhaid i ni fynd drwy'r broses hon eto. Felly byddai angen ymgynghori eto, byddai'r broses lawn yn cael ei chynnal eto. Ac ar hyn o bryd does gennym ni ddim cynlluniau i hyd yn oed feddwl am ddechrau'r broses honno.

Marianne Evans: Ond mae gennym ysgolion mewn mannau eraill sy'n dod atom ni, sy'n siarad â Bethan ac yn siarad â'r tîm gwella ysgolion yn gofyn â allwn ni symud y cyfnod sylfaen i gyfrwng y Gymraeg neu gynlluniau eraill. Mae ysgolion yn ymwybodol bod gennym y targed hwn ac yn gweithio gyda ni, ond mae'n waith ar y cyd, rydym yn gwneud hyn ar y cyd. Mae'n ddigon anodd fel y mae. Mae cael cefnogaeth yr ysgolion a'r cyrff llywodraethu yn hanfodol, yn enwedig gyda'r elfen iaith, oherwydd gall rannu pobl, fel y gwyddoch.

Aelod Staff: Mewn gwirionedd, mae ysgol dwy ffrwd yn gweithio'n wych pan fydd niferoedd yn gytbwys yn fras, ond pan fydd un ffrwd yn dechrau gorbwysu'r llall, mae'n anodd iawn i gynnal y llall yn ariannol a dyna pryd mae'n mynd yn anodd iawn.

Marianne Evans: Ac mae'n anodd hefyd i'r llywodraethwyr, i chi eich hunain fel arweinwyr ac athrawon yn yr ysgol, pan fydd gennych ddwy ffrwd, oherwydd tra eich bod yn gefnogol i'r Gymraeg, ni allwch fynd allan i hyrwyddo cyfrwng Cymraeg yn yr un modd ag y gall rhai o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg oherwydd dyna eu hunig gynulleidfa. Rhaid i chi gydbwysu'r sensitifrwydd o gael dwy gymuned o rieni.

Aelod Staff: Rwy'n credu ein bod ni'n colli tric gyda'n dosbarthiadau cyfrwng Saesneg. Mae lefel eu Cymraeg yn ardderchog. Dydyn nhw ddim eisiau i iaith y dysgu fod drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'r rhieni wedi penderfynu hynny. Ond o ran lefel eu Cymraeg sgwrsio, maen nhw'n gwneud yn arbennig o dda pan maen nhw'n mynd i Gaereinion a'r ethos Cymraeg / cynefin llawer yn uwch na rhai o'r ysgolion cyfrwng Saesneg byddwn i'n dweud, dyw e ddim yn gymaint o flaenoriaeth yn yr ysgolion yna. Mae ein plant yn clywed Cymraeg drwy'r dydd, bob dydd, rydym bob amser yn siarad Cymraeg â nhw. Cymraeg drwy'r amser.

Rydym yn poeni am y garfan cyfrwng Saesneg yn gyffredinol, sy'n teimlo fel nad oes eu heisiau nhw mwyach. Ac mae'n drist. Dyna deimlad rhieni, dwi'n meddwl, ym Mro Caereinion mwy na fan hyn mae'n siwr, achos nhw yw'r band canol yna sydd o bosib yn cael eu hanghofio. Dyma'r dref maen nhw'n byw ynddi ac mae'n bosib na allan nhw fynd i'w hysgol leol os nad ydyn nhw am fynd i'r ffrwd Gymraeg. Mae'n un anodd.

Marianne Evans: Mae unrhyw newid yn anodd.

Aelod Staff: Ac rydym eisoes wedi cael newid enfawr yma lle caewyd pedair ysgol i greu Ysgol Rhiw Bechan.

Sarah Astley: Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau eraill ar ôl y cyfarfod, byddem yn eich annog i ymateb i'r ymgynghoriad cyn iddo gau.

Cyfarfod ymgynghori gyda Llywodraethwyr Ysgol Rhiw Bechan

28 Tachwedd 2023

Presennol:

Llywodraethwyr:

Allyson Whitticase, Pennaeth
Margaritta Lovell, Dirprwy Bennaeth
Kaye Davies, Llywodraethwr Cymuned
Helen Law, Rhiant-Llywodraethwr
Richard Rees, Rhiant-Llywodraethwr
Darryl Owen, Cadeirydd y Llywodraethwyr
Jonathon McVicar, Rhiant-Llywodraethwr
Heulwen Hulme, Llywodraethwr Awdurdod Leol

Swyddogion:

Lynette Lovell, Cyfarwyddwr Addysg (trwy Teams)
Marianne Evans, Rheolwr Gwasanaeth Trawsnewid Ysgolion
Sarah Astley, Rheolwr Rhaglen Strategol, Trawsnewid Addysg
Mari Thomas, Dirprwy Bennaeth Cyllid (drwy Teams)
Bethan Price, Arweinydd Cymraeg
Ffion Evans, Cydlynnydd Trawsnewid Addysg

Croesawodd Marianne Evans bawb i'r cyfarfod. Mi wnaeth bawb a oedd yn bresennol gyflwyno eu hunain.

Eglurwyd y byddai cyflwyniad byr gyda chyfle i drafod, sylwadau a chwestiynau i'r swyddogion wedyn. Eglurwyd y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio at ddibenion cofnodi ond byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y bydd y cofnodion wedi'u cwblhau a'u cytuno.

Rhoddodd Sarah Astley gyflwyniad PowerPoint oedd yn amlinellu cefndir y cynnig presennol a'r broses.

Y cynnig yw:

- I wneud newid rheoledig i gategori iaith Ysgol Bro Caereinion i fod yn ysgol cyfrwng Cymraeg, i'w gweithredu'n raddol gyda Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025.

Esboniwyd fod yr ymgynghoriad i fod i orffen ar 30 Tachwedd ond mae wedi'i ymestyn i 7 Rhagfyr, 2023.

Yn dilyn y cyflwyniad, rhoddwyd cyfle i'r llywodraethwyr ofyn unrhyw gwestiynau neu i wneud unrhyw sylwadau mewn perthynas â'r mater.

Llywodraethwr: I ddechrau, hoffem rannu ein siom fel corff llywodraethu gyda'r amserlenni yr ydych wedi eu trafod oherwydd mae hyn wedi bod ar y gweill ers cryn amser, mae hon wedi bod yn broses hir. O ran y cyfnod ymgynghori, mae'n 28 Tachwedd heddiw a gwnaethom ofyn am gyfarfod cyn gynted ag y daeth y cyhoeddiad hwn allan, mae'n siomedig i ni ei fod wedi cymryd mor hir gan fod gennym rieni yn dod atom bob dydd sydd eisiau diweddariadau a chwestiynau, felly mae wedi ein gadael gyda ffenestr fer iawn i gael y cyfarfod hwn a mynd yn ôl at y rhieni. Nid wyf yn siŵr a ydym yn mynd i gael unrhyw atebion heddiw ond gyda rhai o'r pryderon rwy'n siŵr y byddwn yn eu codi heddiw, byddai wedi bod yn hynod ddefnyddiol gallu cwrdd o'r blaen.

Mae'n debyg mai fy nghwestiwn cyntaf yw pam ei fod wedi cymryd tan y 28 Tachwedd i'r cyfarfod hwn gael ei gynnal?

Marianne Evans: Rwy'n gwerthfawrogi eich pryderon. Cawsom gyfarfodydd gyda Bro Caereinion yr wythnos diwethaf. Roedd cyfarfod efo rhieni ym Mro Caereinion yr wythnos diwethaf hefyd, ac rydych chi'n gwybod ei fod yn anodd cael dyddiadau yn y dyddiadur ayb. Bu'n rhaid i ni symud y cyfarfod gyda chi i heddiw oherwydd ein bod yn cael trafferth gydag argaeledd staff. Rydym wedi ymestyn y cyfnod ymgynghori, ond rwy'n debyn eich sylwadau. Fe wnaethoch chi ofyn i ni am gyfarfod cynharach ac mae'n ddrwg gennym nad oedd modd trefnu hyn.

Llywodraethwr: Yn amlwg mae llawer o safbwyntiau ac rwy'n gwybod eich bod chi'n eu casglu mewn llawer o wahanol ffyrdd, felly a fydd hynny i gyd yn cael ei ystyried gyda phopeth sydd wedi'i gyflwyno? A fyddwn ni'n sicr o hynny?

Marianne Evans: Yn hollol. Rydym eisoes wedi cael llawer iawn o ymatebion i mewn, rydym yn disgwyl mwy. Fel arfer, rydym yn cael llawer ar ddechrau cyfnodau ymgynghori, yna mae yna ychydig o egwyl ac yna llawer ar y diwedd. Ond dwi'n meddwl ein bod ni'n disgwyl cryn dipyn i mewn gan ddisgyblion Bro Caereinion, achos fe wnaethon ni gyfarfod â disgyblion Bro Caereinion yr wythnos diwethaf. Fe wnaethon ni gwrdd â'ch disgyblion chi heddiw, ac rwy'n gobeithio y cawn adborth gennych chi hefyd, felly ein gwaith ni wedyn fel swyddogion yw i fynd trwy bob ymateb ac yna rydyn ni'n tynnu'r holl faterion allan. Mae'n dasg eithaf beichus oherwydd nid oes ffordd gyflym o'i wneud, nid oes unrhyw ddeallusrwydd artiffisial nac unrhyw beth a all ein helpu. Mae'n rhaid i ni ddarllen ac asesu ac yna tynnu'r materion allan, ac yna rydyn ni'n creu dogfen ac yna mae'n rhaid i ni ddarparu ymateb y Cyngor i'r materion hynny hefyd. Gall yr adroddiadau ymgynghori hyn fod yn gannoedd o dudalennau, maent yn fanwl iawn, iawn. Ein gwaith ni yw sicrhau bod yr holl faterion yno a'u bod o flaen y Cabinet, yna mae gan y Cabinet ddyletswydd i ddarllen popeth a mynd drwy'r holl faterion eu hunain. Mae'n debyg mai'r adroddiad ymgynghori yw'r ddogfen fwyaf arwyddocaol yn y broses ymgynghori gyfan, oherwydd dyna lle gall y Cabinet ddarllen a deall y safbwyntiau a'r materion, ymateb y Cyngor i'r materion, ac mae hyn yn rhan bwysig o'r broses benderfynu bryd hynny. Felly mae'n bwysig iawn ein bod yn cael yr ymgynghori, y dadansoddi a'r adroddiad ymgynghori yn gywir.

Llywodraethwr: Beth oedd y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad i beidio â chael cyfarfod efo rhieni yn uniongyrchol? Rwy'n gwerthfawrogi eich bod wedi cwrdd â myfyrwyr, y staff, y cyrff llywodraethu. Pam nad y rhieni?

Marianne Evans: Nid ydym wedi cwrdd â rhieni ers amser maith fel rhan o ymgynghoriadau ysgolion. Nid yw hyn wedi rhwystro'r broses, rydym yn dal i gael yr un safbwyntiau yn dod drwodd mewn amrywiaeth o ffurfiau ysgrifenedig. Fe aethon ni drwy Covid hefyd pan oedden ni'n gorfod gwneud rhai o'r ymgynghoriadau, roedd yn rhaid i ni eu gwneud nhw i gyd ar-lein, doedden ni ddim hyd yn oed yn cael mynychu cyfarfodydd yn bersonol, ac fe weithiodd hynny. Rydym wedi cael cannoedd ar gannoedd o ymatebion i ymgynghoriadau ynghylch ysgolion bach, felly mae'r wybodaeth sy'n dod i mewn, yn dod drwodd a'r safbwyntiau yn dod drwodd. Rydym dal yn llwyddo i gael y rhain drwy'r broses. Dyna'r rheswm pam.

Llywodraethwr: Rwy'n credu y byddai llawer o rieni wedi ei werthfawrogi oherwydd mae llawer o rieni yn poeni am y dyfodol. Roedd rhai ohonom yn y cyfarfod rhieni ym Mro Caereinion yr wythnos diwethaf, roedd llawer o bobl yno ac mae pobl eisiau lleisio eu barn. Rwy'n gwybod y gallant roi popeth i lawr ar ddarn o bapur, ond i lawer o bobl mae'n eithaf brawychus. Os ydych chi'n mynd i gymryd unrhywbeth o hyn, a wnewch chi gwrdd â rhieni.

Pennaeth: Mae'n anodd iawn ateb ymgynghoriadau, y ffordd y mae wedi ei eirio. Mae'n anodd deall sut i ymateb.

Marianne Evans: Nid ydynt y pethau mwyaf cyffrous i'w darllen, ond mae'n rhaid i ni ddilyn gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgol, ac maen nhw'n gofyn i ni ystyried yr holl faterion hyn a darparu ymateb i'r materion hynny.

Sarah Astley: Hefyd o ran y ffurflen ymateb. Mae'n rhaid i ni fodloni gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion, ond mae gofynion cyfreithiol eraill, fel safonau'r iaith Gymraeg, cydraddoldeb. Mae llawer o'r hyn sydd yn y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad hwnnw yn adlewyrchu gofynion cyfreithiol.

Marianne Evans: Rydyn ni wedi cwrdd â disgyblion yr wythnos ddiwethaf ym Mro Caereinion. Fe wnaethon ni gyfarfod â staff a llywodraethwyr, ac rydym yn cwrdd â chi hefyd. Rydym yn deall yr emosiwn y tu ôl i bopeth.

Llywodraethwr: Mae emosiynau rhieni ar y lefel nesaf.

Marianne Evans: Rydym yn ei weld yn dod drwodd yn yr adborth ysgrifenedig hefyd. Mae gennym eisoes hyd at 300 ymateb, gallwn weld o'r rhain pa mor anodd ydyw.

Llywodraethwr: O safbwynt yr ymgynghoriad a faint mor hir mae hyn wedi'i gynllunio, mae'n syndod yn llawer o'r dogfennau nad oes cyfeiriad at drafnidiaeth. Mae hi bron fel nad ydych chi am siarad amdano felly bydd pobl yn dod i'w casgliadau eu hunain ac rwy'n credu pan fydd gennych ryw beth mor emosiynol â hyn sy'n effeithio ar y gymuned fel y mae, mae'n ymddangos bod Powys yn mynd i'w wthio drwodd beth bynnag, mae'n debyg bod hynny wedi gyrru emosiynau'r rhieni hyd yn oed yn fwy. A oes unrhyw reswm pam na allwch chi roi rhywbeth arall allan?

Rydych chi'n gwybod nad oes rhaid i'r ymgynghoriad stopio fan hyn. Os ydych chi'n cael llawer o ymholiadau am drafnidiaeth a sut mae hynny'n effeithio ar ddisgyblion ffrwd Saesneg sy'n mynd i ysgol arall, pam na allwn ni ateb y cwestiynau hyn nawr? Pa bryd fydd y rhain yn cael eu hateb? Oes rhaid aros tan fis Mawrth nesaf?

Marianne Evans: Gyda'r ymgynghoriad mae'n rhaid i ni sicrhau bod yr holl wybodaeth ar gael ar yr un pryd i'r holl randdeiliaid ei darllen. Mae'r holl wybodaeth o fewn y ddogfen ymgynghori a'r dogfennau ategol. Pe baem yn mynd i lawr y llwybr o ddarparu cwestiynau cyffredin er enghraifft, byddai angen i ni sicrhau bod y cwestiynau cyffredin yr un fath â'r hyn sydd yn y ddogfen ymgynghori. Ni fyddem o reidrwydd yn ychwanegu unrhyw werth, oherwydd mae'r wybodaeth yn y ddogfen ymgynghori yn barod. Ond os daw pethau allan yn ystod yr ymgynghoriad, gallwn ymateb iddynt yn yr adroddiad ymgynghori. Yn un o'r cyfarfodydd ymgynghori yr wythnos diwethaf, rwy'n credu ein bod wedi sôn efallai am ryw fath o grynodedb hawdd ei ddeall o'r adroddiad ymgynghori gyda rhai o'r prif benawdau oherwydd ei fod yn gannoedd o dudalennau. Byddwn yn edrych ar hynny a bydd hynny'n ychwanegiad newydd i ni.

Pennaeth: Yna bydd gan bobl ddewis o edrych drwy'r un llawn neu'r crynodeb, mae hynny'n syniad da.

Llywodraethwr: Peth arall i ni fel corff llywodraethu oedd sut y rhyddhawyd y wybodaeth. Dylai'r corff llywodraethu fod wedi cael gwybod, oherwydd yn amlwg daeth y rhieni atom yn syth, rwy'n credu bod hynny wedi'i gynllunio'n wael iawn. Nid yw hyn wedi helpu'r sefyllfa gyda rhieni. Mae hynny'n rhywbeth sydd wir angen ei nodi.

Llywodraethwr: O ran y penderfyniad, fel corff llywodraethu rydym wedi cael negeseuon eithaf cymysg. Roedd rhieni hefyd o ran y neges bod corff llywodraethu Bro Caereinion o blaid hyn ond nid dyna'r neges yr oeddem yn ei chael yn ôl gan gorff llywodraethu Bro Caereinion. Nid wyf yn gwybod a allwch chi ein helpu ni oherwydd mae rhai ohonom wedi bod yma yn hirach nag eraill o ran y penderfyniadau hynny ac mewn gwirionedd, o safbwynt llywodraethwyr Bro Caereinion, pryd y trafodwyd ef a phwy a symudodd hwnnw ymlaen, byddai hyn yn ein helpu.

Marianne Evans: Rydym wedi bod yn gweithio gyda Bro Caereinion ers nifer o flynyddoedd ac mae nifer o bethau wedi digwydd yn ddiweddar o ran addysg cyfrwng Cymraeg. Rydyn ni wedi bod yn edrych ar niferoedd y disgyblion yn y dalgylch ac wedi edrych ar y patrwm, ac maen nhw'n cynyddu. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno categorïau Cymraeg newydd ar gyfer ysgolion, mae Bethan wedi bod allan mewn ysgolion yn gweithio gydag hwy ar y categorïau iaith newydd hyn. Mae trafodaethau wedi bod yn digwydd gyda Bro Caereinion ar y categorïau iaith hyn ers cryn amser. Pan wnaethom ymgynghori ar sefydlu Ysgol Bro Caereinion fel ysgol bob oed yn ôl yn 2020, gwnaethom yn glir yn y dogfennau y byddem yn eu cefnogi i symud ar hyd y categori iaith ac y byddai'n rhaid i ni ymgynghori drwy'r broses ffurfiol fel rhan o hynny. Cawsom rywfaint o ohebiaeth gan Fro Caereinion cyn yr haf ynghylch y ffaith bod eu corff llywodraethol wedi ymrwymo i weledigaeth ar eisiau symud yr ysgol ar hyd y continwmm iaith. Unwaith y digwyddodd hynny, proses y Cyngor yw hi i symud ymlaen. Roedd gwahaniaeth

barn rhwng Bro Caereinion a ni. Gweledigaeth Bro Caereinion oedd dod â Blwyddyn 7 i mewn neu newid Blwyddyn 7 yn ddiweddarach, yn hytrach nag yn 2025 sef cynnig y Cyngor ar hyn o bryd. Mae corff llywodraethu Bro Caereinion wedi cael cyfarfod efo rhieni ac maen nhw wedi cael cryn dipyn o ohebiaeth ac ati, ac fel corff llywodraethu maen nhw'n ymwybodol o'r materion, maen nhw'n ymwybodol o'r tensiwn yn y gymuned a sut mae'r rhieni'n teimlo, maen nhw hefyd yn ymwybodol o sut maen eu staff yn teimlo. Maent wedi lleisio'r pryderon hynny i ni yn eu cyfarfod ymgynghori a byddwn yn ymateb i'r pryderon hynny. Byddwn i'n dweud tra bod gan Corff Llywodraethol Bro Caereinion y weledigaeth, mae ganddynt rai pryderon ynghylch cyflymder y prosiect, efallai o gwmpas y cyfnod pontio blwyddyn 7. Felly mae yna bethau y bydd angen i ni eu hystyried yn ofalus iawn pan fyddwn yn bwrw ymlaen i edrych ar hyn.

Llywodraethwr: A gaf i fynd nol at rywbeth a ddywedoch chi nawr Marianne? Dywedasoch fod hyn wedi bod yn digwydd ers peth amser, gan fynd yn ôl o bosibl i 2020, felly pam na chafodd yr ysgolion sy'n bwydo eu hysbysu? Yr ysgol hon yw un o'r ysgolion bwydo mwyaf ar gyfer Bro Caereinion, felly pam nad oedd yr ysgolion bwydo yn rhan bryd hynny hefyd.

Marianne Evans: O ran pryd y cawsant eu hysbysu am yr ymgynghoriad, cawsant i gyd eu hysbysu ar yr un pryd. Rydym ni wedi cael rhywfaint o drafodaeth fel clwstwr am ddatblygiad cyfrwng Cymraeg...

Llywodraethwr: Dim ond trafodaeth oedd hi, ni chafodd unrhyw beth ei gytuno.

Sarah Astley: Mae'r Strategaeth Trawsnewid Addysg a'r Rhaglen Waith yn ddogfennau cyhoeddus, dogfen gyhoeddus yw'r CSCA. Roedd ymgynghoriad ar y CSCA ar yr adeg pan oedd yn cael ei ddatblygu, roedd ymgynghori ac ymgysylltu fel rhan o ddatblygu'r Strategaeth hefyd.

Llywodraethwr: Nid yw rhieni sydd wedi rhoi eu plant yn yr ysgol hon neu Ysgol Bro Caereinion wedi bod yn darllen y CSCA. Mae yna garfan bresennol o rieni sydd wedi'u dal ar hyn o bryd. Gallen nhw gael rhai plant yn yr ysgol uwchradd, rhai plant yn y cynradd, ac maen nhw mewn sefyllfa anodd go iawn nawr o ran yr hyn maen nhw am ei wneud, a gallan nhw ddim aros tan fis Mawrth, nac am ganlyniag yr ymgynghoriad, felly rwy'n credu mai nhw yw'r rhai sydd wedi eu taro galetaf.

Lynette Lovell: Rydych chi'n hollol gywir. Mae hynny'n rhywbeth a gododd ym Mro Caereinion yr wythnos diwethaf pan gawson ni'r ymgynghoriad yno gyda'r llywodraethwyr a'r staff, yr effaith ar y garfan bresennol. Mae hynny'n rhywbeth y bydd angen i ni ei ystyried. Fe wnaethon ni siarad am gefnogaeth Trochi, ond rydych chi'n iawn, mae'r rhieni sydd ar hyn o bryd yn eich ffrwd Saesneg yn Rhiw Bechan wedi gwneud y dewis hwnnw i fynd am addysg ffrwd Saesneg. Rydym yn deall hynny. Mae Trochi yn rhywbeth rydyn ni'n gwybod y gall fod yn llwyddiannus nes ymlaen, ond mae eich rhieni wedi gwneud y dewis hwnnw. Mae'n rhywbeth y mae angen i ni ei ystyried yn yr ymgynghoriad, mae angen i ni edrych ar sut rydyn ni'n goresgyn hynny a delio ag ef, oherwydd maen nhw wedi gwneud y dewisiadau hynny ac mae rhai ohonyn nhw ym mlwyddyn pump nawr felly hi'n flynyddoedd yn ôl pan wnaethon nhw wneud y dewis hwnnw. Mae hynny'n rhywbeth sydd angen dod allan yn yr ymgynghoriad ac yn rhywbeth y bydd angen i ni ei ystyried.

Bydd cefnogaeth Trochi ar gael, ond mae angen i ni edrych ar hynny i gyd a'r opsiwn arall yw i edrych ar opsiynau eraill i ddod â'r plant hynny o bosibl i addysg cyfrwng Cymraeg, ond mae hynny'n rhan bwysig iawn o'r ymgynghoriad. Mae angen i ni glywed gennych chi a'r rhieni ynghylch y pryderon hynny, a bydd yn rhywbeth y bydd angen i ni ei ystyried fel rhan o'r cynnig hwn. Felly, pwynt pwysig iawn, diolch am godi hynny.

Llywodraethwr: Dwi'n meddwl i lawer o rieni hefyd, dyw'r rhieni ddim yn siarad Cymraeg. Maen nhw wedi dewis rhoi eu plant drwy'r Ffrwd Gymraeg, ond dydyn nhw ddim yn gallu cefnogi eu plant. Mae yna rieni allan yna sy'n dewis cael addysg eu plant drwy gyfrwng y Gymraeg yma. Ond pan maen nhw'n mynd i Fro Caereinion maen nhw'n edrych i'w rhoi nhw drwy'r ffrwd Saesneg achos maen nhw'n gwybod y bydd eu plant yn ymdopi'n well ac maen nhw'n gallu cefnogi eu plant mewn addysg ysgol uwchradd.

Pennaeth: Hefyd, gyda dwy ffrwd mae yna ddewis. Mae ysgolion dwy ffrwd yn llwyddiannus iawn oherwydd gallant roi cynnig arni, ond os na fydd yn gweithio, gallant symud ar draws, felly maent yn dechrau gyda Cymraeg a gweld sut mae'n mynd. Yn gyffredinol, mae'n anghyffredin iawn bod yn rhaid iddynt symud ar draws. Os nad oes ganddyn nhw'r dewis yna, dwi'n meddwl eu bod nhw'n mynd i ddechrau meddwl 'ydw i'n gwneud y peth iawn'.

Llywodraethwr: Roeddech chi'n sôn am edrych ar niferoedd ac yn y blaen ond fel rydych chi wedi dweud, mae yna wastad y dewis yna. Mae rhai rhieni wedi rhoi eu plant yn y ffrwd Gymraeg, ond wedi symud un plentyn i'r ffrwd Saesneg oherwydd eu bod yn cael trafferth, ond roedd y plant dal yn gallu mynychu'r un ysgol. Hefyd mae safon Cymraeg ail iaith yma yn uchel iawn ym Mro Caereinion ac mae'r disgyblion yn gwneud yn dda trwy Cymraeg ail iaith hefyd. Mae hynny gan riant oedd yn gallu cefnogi gartref. Mae yna lawer o rieni nad oes ganddyn nhw hynny ac fel y soniais yn gynharach mae'n rhaid cael y dewis hwnnw. Ar hyn o bryd mae llawer o'r rhieni yn teimlo fel bod hynny'n cael ei gymryd oddi arny'n nhw.

Lynette Lovell: Hoffwn sôn am fy mhrofiad personol i. Dwi'n berson Cymraeg Saesneg ei hiaith ac mae fy nwy ferch wedi bod drwy addysg Gymraeg. Un o'r pethau allweddol i mi oedd ar ddechrau eu haddysg Gymraeg...ac mae hyn yn mynd yn ôl i ddechrau'r sleidiau yn ymwneud ag adroddiad Estyn 2019. Yn strategol, fel Cyngor, mae'n rhaid i ni gael y llwybr yno ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg go iawn, yr holl ffordd o'r lleoliadau tair oed hyd at addysg uwchradd ac ar hyn o bryd ym Mhowys, nid oes gennym ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ddynodedig o hyd, felly nid oes gennym yr ystod honno o ddewis. Felly, wrth fynd yn ôl at yr elfen dewis honno, nid oes gennym ddewis cyfartal mewn addysg cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, yn enwedig ar lefel uwchradd, yn y cynradd mae'r dewis yno. Felly rhan o hyn yw cael y llwybr hwnnw yn iawn yr holl ffordd drwy addysg, ac er bod gennym ysgolion dwy ffrwd ar hyn o bryd, rydym ar hyn o bryd ar draws Powys yn gweld plant yn mynd o...wna i ddefnyddio'r Drenewydd fel enghraifft gan mai dyna lle rwy'n byw. Felly ar hyn o bryd mae rhai yn mynd i Gaereinion, mae rhai yn mynd i Lanidloes achos dyw'r dewis ar hyn o bryd ddim mor gryf ag y gallai dewis fod ar gyfer llefydd gwahanol. Felly mae'n rhaid i ni wneud rhywbeth yn strategol yn yr awdurdod lleol o ran y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg honno, yn enwedig yn yr

uwchradd, a gallai'r cynnig hwn geisio datblygu hynny. Felly dyma'r nod gyda'r cynnig hwn mewn gwirionedd, yn unol â'n CSCA. Fel y dywedasoch, ni fydd eich rhieni'n darllen y CSCA, mae'n ymwneud â'r hyn y mae'n ei olygu iddynt hwy a'u plant ar hyn o bryd. Ond o safbwynt strategol, rydym yn edrych ar y continwwm hwnnw a rhaid i ni sicrhau bod ein darpariaeth uwchradd Gymraeg yn cael ei wella. Nid yw yn ei le ar hyn o bryd. Bu'n rhaid i ddisgyblion a aeth i Ysgol Uwchradd Caereinion wneud rhai o'u pynciau drwy gyfrwng y Saesneg am nad oedd athrawon Cymraeg. Felly mae gennym ni ddiffyg athrawon, felly mae 'na broblem enfawr yno.

Felly rhaid edrych o'r safbwynt bod hwn yn ddatblygiad strategol i sicrhau bod gennym y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yr holl ffordd drwedd a bod gennym yr ehangder o ddewis wrth i ni symud ymlaen. Rwy'n derbyn y sylwadau am ddewis y rhieni presennol, ac mae'r amseru yn un o'r materion allweddol, ond yn sicr dyna ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Os nad Caereinion yw'r lle i ddatblygu darpariaeth o'r fath, lle fyddai yng ngogledd Powys? Mae'n rhaid i ni gael y weledigaeth honno ar gyfer uwchradd.

Llywodraethwr: O safbwynt cyllid, rwy'n credu mai dyna'r brif broblem. Mae Powys mor wledig. Mae mor eang, ac mae'n teimlo nad ydy hyn yn mynd i weithio yn y rhan yma o Bowys ac mae'n debyg mai dyna fydd angen pwyso a mesur – ydy'r ochr negyddol yn gorbwyso manteision cadw at y strategaeth. Rwy'n credu mai fy mhrif her efo hyn i gyd yw bod y strategaeth honno'n mynd yn ôl i 2018 ond ddim yn gweithio ym Mhowys. Yr hyn rwy'n sicr yn ei glywed yw bod cyflawni'r strategaeth a chael yr ysgol honno ym Mro Caereinion yn digwydd ar draul cymaint o bethau arall.

Marianne Evans: Rwy'n clywed yr hyn rydych chi'n ei ddweud. Mae llawer o drafod yn dweud bod dewis yn cael ei gymryd i ffwrdd. Rwy'n credu os edrychwch chi arno o safbwynt arall ac yn strategol gallech ddadlau bod rhieni sydd eisiau ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mhowys wedi cael eu hamddifadu ers blynyddoedd gan nad oes gennym un, ni yw'r unig sir yng Nghymru sydd heb ysgol cyfrwng Cymraeg ddynodedig.

Llywodraethwr: Nid oes gennym boblogaeth fawr ac rydym ar y ffin efo Lloegr.

Marianne Evans: Nid yw hynny'n golygu na ddylem gael ysgol Gymraeg ddynodedig.

Llywodraethwr: Ni allwch ddweud bod angen ysgol cyfrwng Cymraeg arnom, edrych ar faint Powys o'i gymharu â siroedd eraill, nid yw'n ymarferol.

Marianne Evans: Rydym wedi cael llawer o rieni yn gofyn am hyn ers blynyddoedd. Dydy'r Cyngor heb symud ar addysg Gymraeg ers blynyddoedd, dyna ddywedodd Estyn nôl yn 2019. Oni bai am Fro Caereinion, beth fydddech chi'n ei wneud? Byddai'r pwysau yn dal i fod yna, byddai'n rhaid i ni edrych o hyd ar ble y byddem yn gosod yr ysgol uwchradd Gymraeg ddynodedig, ac os byddai hynny'n rhywle arall neu'n rhywle yn y cyffiniau hyn, yna fyddai'n effeithio ar Fro Caereinion. Mae gan Fro Caereinion y staff, mae ganddyn nhw'r weledigaeth honno a dyna un o'r rhesymau pam rydyn ni wedi dewis Bro Caereinion am y tro ar gyfer ymgynghori.

Un o'r materion mawr yw cyllid. Mae'n ffaith fod Bro Caereinion yn ysgol uwchradd weddol fach ac mae ganddi ddwy ffrwd ynddi, ac mae hynny'n cael effaith ariannol. Mari wyt ti eisiau dod mewn?

Mari Thomas: Mae llawer wedi bod yn y newyddion yn ddiweddar am y sefyllfa anodd o ran cyllid cyhoeddus wrth symud ymlaen, ac mewn rhai ffrwd mae'n waeth nag y bu. Rydych chi yn llygad eich lle wrth ddweud ei fod yn broblem fawr i Bowys oherwydd y boblogaeth a'r ardal rydyn ni'n ceisio darparu gwasanaethau cyhoeddus iddou. O'm safbwynt i, rwy'n angerddol iawn am wasanaethau lleol a'r gwahaniaeth y gall llywodraeth leol ei wneud i gymuned, ond rhaid sicrhau ein bod yn defnyddio'r holl adnoddau sydd gennym yn y ffordd fwyaf effeithiol y gallwn. Felly ar hyn o bryd, gyda Bro Caereinion a gyda'r model dwy ffrwd, rydyn ni fwy neu lai yn ei hariannu fel dwy ysgol ar wahân o fewn yr un ysgol honno. Yna, pan fyddwch yn dechrau edrych ar niferoedd y disgyblion a'r rhaniad hwnnw rhwng y ddwy ffrwd hefyd, mae hynny'n gwneud darpariaeth gost-effeithiol yn anodd iawn o fewn yr ysgol honno, ac mae'n achosi llawer o straen i'r pennaeth a'r corff llywodraethu sy'n ceisio rheoli hynny hefyd.

Byddai'r cynigion yn rhyddhau rhywfaint o gyllid i'r awdurdod, a fyddai wedyn ar gael i'r Cyngor benderfynu sut i'w wario. Un o'r meysydd hynny fyddai i'w roi yn ôl i gyllidebau ysgolion, a sicrhau ei fod ar gael i ysgolion eraill hefyd. Byddai hefyd yn rhoi'r cyfle hwnnw i'r ysgol nid yn unig symleiddio ei darpariaeth, ond o bosibl darparu cynnig ehangach hefyd, oherwydd mae'n anodd iawn gyda dosbarthiadau bach i gynnig ehangder y pynciau y mae dysgwyr eu heisiau. Trwy weithredu'r cynnig hwn, pe bai'n cael ei gymeradwyo ac yn mynd yn ei flaen, oherwydd y byddai'n ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg, pe bai'r ysgol yn tyfu yna byddai'r ysgol yn gallu cynnig cwricwlwm ehangach hefyd. Ni allwch siarad am y cyllid heb ddarparu'r gwasanaeth, dyna beth mae yno ar ei gyfer. I mi, mae'n ymwneud â sicrhau ein bod yn defnyddio'r holl gyllid sydd gennym a'r adnoddau sydd gennym yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol, yn hytrach na bod yn fater o dynnu pethau i ffrwd. Mae'n ymwneud â sicrhau bod ein darpariaeth mor gost-effeithiol ag y gall fod a'i fod yn darparu addysg o ansawdd da yn ogystal â maint dosbarthiadau digon mawr. O'm safbwynt i, dyna beth rydyn ni'n ceisio'i wneud ag unrhyw un o'r cynigion rydyn ni'n eu cyflwyno, mae'r gyrrwr yn ymwneud â'r ddarpariaeth addysg a hawl y dysgwr ond os yw'n golygu y gallwn ni fod yn fwy cost effeithiol gyda'n cyllid hefyd, yna mae hynny i gyd yn well mewn gwirionedd yn fy marn i.

Llywodraethwr: Dwi dal ddim yn deall pam dewiswyd Ysgol Bro Caereinion, achos rydyn ni mor agos at ffin efo Lloegr ond hefyd mae llawer o'r disgyblion hynny yn mynd i brifysgolion Lloegr a dydyn nhw ddim yn dychwelyd i Gymru a dydyn nhw ddim yn defnyddio eu Cymraeg. Yr unig ffynhonnell o gyflogaeth y gallaf ei weld i siaradwyr Cymraeg fyddai Llywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol. Nid yw Llywodraeth Cymru i bawb, felly rwy'n cael trafferth deall pam y dewiswyd Ysgol Bro Caereinion gan ein bod mor agos at ffin Lloegr.

Marianne Evans: Dewiswyd Ysgol Bro Caereinion oherwydd ei bod eisoes yn un o'n darparwyr cyfrwng Cymraeg cryfaf. Mae'r staff yno, mae gan y llywodraethwyr weledigaeth. Mae diffyg darpariaeth yn yr ardal hon yng ngogledd-ddwyrain Powys. Ydyn, rydyn ni'n agos at y ffin, ond dyw hynny ddim yn golygu nad oes yna bobl yn yr ardal yma sydd eisiau addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg, a gellir gweld hynny gan

y niferoedd sy'n tyfu yn y cynradd a hefyd yn yr uwchradd ym Mro Caereinion. Mae addysg cyfrwng Cymraeg yn ffynnu yn eich ysgol chi, mae'n ffaith eich bod chi wedi rhoi cyfle i ddisgyblion ddod yn gwbl ddwyieithog. Mewn dosbarth Cymraeg neu mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg mae'r plant yn dod allan yn rhugl yn y ddwy iaith, a dwi'n gwybod eich bod chi'n gwneud yn ardderchog yma o ran eich disgyblion Cymraeg ail iaith, ond dyhead Llywodraeth Cymru yw cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Fel Cyngor, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi targed y mae angen i ni ei gyrraedd fel rhan o'n CSCA, ac mae'n darged eithaf uchelgeisiol o ran cynyddu canran y disgyblion cyfrwng Cymraeg.

Llywodraethwr: Ar hyn o bryd mae plant yn y ffrwd Saesneg yn cael y cyfle i ddysgu Cymraeg a dod yn ddwyieithog. Bydd y cynnig hwn yn cymryd hynny i ffrwd, i rieni sydd eisiau i'w plant aros yn y ffrwd Saesneg. Rwy'n deall mai targedau yw targedau, rydyn ni i gyd yn gweithio mewn busnes, mae gan bob un ohonom dargedau, nodau, ond rwy'n ei chael hi'n anodd gweld sut y bydd yn helpu gyda cyrraedd y targed hwnnw pan fyddwn chi'n gwahard canran o'r cyfle yn awtomatig.

Marianne Evans: Nid ydym yn mynd i wahardd unrhyw un yn awtomatig, rwy'n credu mai dyma'r myth. Yr hyn yr hoffem yw i'r holl ddisgyblion ymuno â Bro Caereinion, oherwydd gallem wedyn gynnig trochi dwfn gwirioneddol iddynt, a gallant oll gael y cyfle i gael addysg cyfrwng Cymraeg a dod yn gwbl ddwyieithog. Byddai cyfnod pontio, byddai'n cael ei gyflwyno'n raddol.

I fynd yn ôl i'r pwynt yn ymwneud â phlant yn mynd i brifysgolion. Ydyn maen nhw'n mynd i Loegr, ond dydy cael addysg Gymraeg ddim yn rhwystr i fynd i unrhyw brifysgol cyfrwng Saesneg.

Llywodraethwr: Mae'n rhaid i mi anghytuno â chi yno. Dwi'n gwybod am bobl aet hi brifysgol yn Lloegr ar ôl bod trwy addysg Gymraeg. Bu'n rhaid iddynt recordio eu holl ddarlithoedd er mwyn gallu eu cyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg. Sut allwch chi ddweud nad yw hynny'n anfantais? Mae mynd trwy addysg Gymraeg wedi bod yn niweidiol iddynt.

Marianne Evans: Nid wyf yn gwybod beth yw'r amgylchiadau unigol, ond aeth Bethan i brifysgol yn Ffrainc o gefndir cyfrwng Cymraeg. Es i i'r brifysgol yn Lloegr hefyd. Nid yw'n rhwystr ac ni ddylid ei weld fel rhwystr. Dylid ei ystyried yn rhwybeth cadarnhaol, hynny yw gallwch gael addysg cyfrwng Cymraeg a mynd i unrhyw le ar draws y byd.

Llywodraethwr: Pe bai hi'n mynd i'r brifysgol yng Nghymru, byddwn wedi cytuno'n llwyr â chi oherwydd mae'n debygol y byddai hi wedi gwneud ei gradd yng Nghymru ac mae'n debyg y byddai hi bellach wedi bod yn gweithio yng Nghymru, ond doedd hi ddim yn gallu mynd i brifysgol Gymreig roedd yn rhaid iddi fynd i Loegr, doedd ganddi ddim dewis yn y sefyllfa.

Marianne Evans: lawn, mae hynny'n enghraifft benodol.

Llywodraethwr: Does gennych chi ddim athrawon Cymraeg chwaith, bydd angeni chi gael yr athrawon cyn i chi ddechrau symud y disgyblion hyn.

Marianne Evans: Rwyf am orffen ar gyflogaeth a'r cyfleoedd oherwydd credaf fod cyfleoedd ar gael ac mae'n mynd yn fwy ac yn fwy o ran y gofynion i weithio yng Nghymru, i gael dwy iaith. Fe wnaethoch chi sôn am Lywodraeth Cymru, fe wnaethoch chi sôn am y sector cyhoeddus. Mae Powys, y Cyngor, yn awyddus i gael mwy o siaradwyr Cymraeg o fewn y Cyngor er mwyn darparu gwasanaethau i ddinasyddion Powys sy'n siaradwyr Cymraeg. Mae'r ymgyrch honno, mae gennych ddarpariaeth blynnyddoedd cynnar ac mae gennych ofal plant. Mae angen cynyddol a galw am siaradwyr Cymraeg ar gyfer pob math o swyddi eraill, fel seicolegwyr addysg. Mae byd cyfan allan yna o gyfleoedd cyflogaeth nad ydym yn eu cyflawni eto o ran cael siaradwyr dwyieithog, mae Llywodraeth Cymru yn gwybod hyn ac mae'r ymgyrch yno ac mae disgwyl i ni gyflawni hynny. O ran staff, rydym wedi wedi clywed drwy gydol yr ymgyngoriad – 'O le y daw'r staff?', 'O le y mae'r athrawon yn dod?'. Mae problem yn ymwneud efo'r athrawon mathemateg ym Mro Caereinion ar hyn o bryd gan nad oes siaradwr Cymraeg. Rydym yn gwybod am hyn, ac yn gwybod nad problem i'r Cyngor neu i Bowys yn unig ydy hyn. Mae hon yn broblem genedlaethol o ran nifer yr athrawon a staff cyfrwng Cymraeg sydd yn ein hysgolion. Ar hyn o bryd mae gan Lywodraeth Cymru yr uchelgais a'r dyhead i gael miliwn o siaradwyr. Fodd bynnag, mae angen iddynt sicrhau bod y gweithlu yno i helpu i gefnogi'r ysgolion, oherwydd dyna lle rydyn ni'n mynd i gael y miliwn o siaradwyr Cymraeg. Felly mae gwaith yn digwydd yn genedlaethol, ac mae angen i ni edrych ar sut rydym yn cefnogi'r datblygiad hwn yn lleol hefyd.

Lynette Lovell: Mae'n her fel y dywedodd Marianne, mae'n her yn genedlaethol yn ogystal â bod yn broblem yn lleol. Pan fydd staff yn sâl neu rywbeth, mae'n anodd iawn cael athro cyflenwi cyfrwng Cymraeg.

Pennaeth: Mae cael unrhyw athro nawr yn anodd, mae yna brinder. Does neb yn mynd i mewn i addysg.

Lynette Lovell: Mae yna broblem. Yr hyn rydyn ni'n mynd i'w wneud yn lleol hefyd yw sefydlu gweithgor i edrych ar sut y gallwn dyfu ein staff ein hunain. O ran siaradwyr Cymraeg a allai fod yn raddedigion mewn mathemateg neu wyddoniaeth, beth am edrych ar fwrariaethau efallai? Mae deiliant saith o'n CSCA yn ymwneud â'r gweithlu, felly rydym yn edrych ar hynny. Rydym hefyd eisiau targedu ac edrych ar ein myfyrwyr chweched dosbarth i weld a fyddai gan unrhyw un ohonynt ddiddordeb mewn dod yn ôl ac addysgu ym Mhowys drwy gyfrwng y Gymraeg pe gallem helpu a chefnogi. Mae angen i ni fod yn gweithio gydag Adnoddau Dynol i weld sut y gallwn dyfu ein staff ein hunain ym Mhowys, beth am gyflwyno rhaglenni athrawon graddedig gyda phobl mewn ysgolion i dyfu ein staff cyfrwng Cymraeg ein hunain. Felly mae gennym yr holl gynlluniau lleol hyn hefyd o ran recriwtio i Bowys yn gyffredinol. O ran gweithwyr cymdeithasol, er enghraifft, mae wedi bod yn anodd iawn cael gweithwyr cymdeithasol i ddod i Bowys i weithio. Ar hyn o bryd mae gennym fenter 'tyfu ein hunain', sy'n golygu hyfforddi ein gweithlu ein hunain a thalu iddynt gael graddau mewn gwaith cymdeithasol. Mae honno'n strategaeth sydd wedi gweithio ac rydym yn edrych ar hynny i geisio mynd i'r afael â hyn i gyd. Rwy'n credu hefyd, o ran denu athrawon cyfrwng Cymraeg i'r ardal a chael yr addysg Gymraeg gywir i'w plant eu hunain, mae gennym straeon anecdotaidd am athrawon cyfrwng Cymraeg a symudodd allan o Bowys i awdurdodau lleol eraill i weithio fel bod yr addysg cyfrwng Cymraeg, yn enwedig yr addysg uwchradd, ar gael i'w plant eu hunain. Mae gennym ryw faint o dystiolaeth o hyn, felly mae angen i ni edrych ar sut

rydym yn denu athrawon i Bowys yn unol â chyflog ac amodau athrawon, ond a oes yna rai cymhellion ayb y gallwn eu cynnig? Mae hyn i gyd yn digwydd y tu ôl i'r holl strategaeth hon hefyd. Mae cynllun datblygu'r gweithlu yn digwydd yn yr awdurdod lleol. Mae'n heriol, ond mae'n rhaid i ni fynd i'r afael ag ef ac edrych ar sut y gallwn wella a denu pobl i Bowys i weithio mewn addysg cyfrwng Cymraeg.

Llywodraethwr: Rwy'n credu mai'r mater i mi yw na fydd hynny ar waith ar gyfer y garfan hon. Rwy'n credu ei fod yn wych fod ganddoch y cynlluniau hyn. Mae'n wych gweithio gyda'r 6ed dosbarth a chael cynllun, ond nid yw hynny'n mynd i gael unrhyw effaith ar y garfan hon a chyn belled ag y gwn i, nid oes gennym unrhyw therapyddion lleferydd Cymraeg. Rydyn ni'n gweld mwy o blant ag anghenion dysgu ychwanegol, boed hynny oherwydd bod diagnosis gwell, dydw i ddim yn siŵr, ond rydyn ni'n bendant yn gweld hynny. Ond nid yw'r seilwaith yno i gefnogi'r plant hynny. Felly, os oes gennych chi blentyn sydd angen therapi lleferydd, ble maen nhw'n mynd? Beth yw'r cynllun ar gyfer y plant hynny? Dyna beth rwy'n ei olygu am yr ymgynghoriad. Nid oes cynllun ar gael. Y rhieni hynny, beth ydyn ni'n ei ddweud wrthyn nhw fel corff llywodraethu? Sut ydym ni'n rheoli eu disgwyliadau? Mae'r teuluoedd sydd eisiau darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn derbyn hynny'n llawn ac os oes galw, dylid diwallu'r galw hwnnw, ond ni all fod ar draul plant bregus, nad ydynt o reidrwydd yn mynd i gael yr addysg sydd ei hangen arnynt, neu allai orfod mynd llawer pellach i ffwrdd.

Mae hynny'n dod â chi ymlaen i'r polisi trafndiaeth sydd gan Bowys, gan nad yw'n amlwg yn darparu ar gyfer y bobl hynny. Felly os oes gennych blentyn na all ymdopi am ba reswm bynnag, beth ydych chi'n mynd i'w wneud efo'r plant hynny? A fydd disgwyl i'r rhieni hynny dalu'r costau? Mae'r rhain yn bethau yr oeddwn yn gobeithio y byddent yn dod allan yn ystod yr ymgynghoriad, ond gyda saith diwrnod i fynd, nid wyf yn credu y bydd yn dod allan o'r ymgynghoriad.

Marianne Evans: Rwy'n credu eich bod wedi codi rhai materion perthnasol yno. Materion fel seicolegwyr addysg, gwasanaeth lleferydd a chefnogaeth, rydym yn cydnabod ein bod yn dechrau o bwynt isel o ran nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n gallu cefnogi. Nid yw hynny'n golygu na ddylem fod yn ymdrechu i sicrhau bod y ddarpariaeth yno. Rydyn ni'n gwybod ei fod yn bwynt gwan ac nid yn unig ym Mhowys. Mae'n debyg ei fod ar draws Cymru o ran y gefnogaeth gan yr arbenigwyr iechyd hynny neu'r arbenigwyr ADY, ac ati. Rwy'n credu bod yn rhaid i ni dderbyn mai dyna'r realiti, ond mae angen i ni weithio ar hynny. Os mai ein dyhead ni yw cael darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg o'r safon uchaf yn yr ardal hwn i ddarparu'r addysg honno yng ngogledd Powys a dod yn brif ddarparwr, mae'n rhaid i ni dderbyn y bydd yn rhaid i ni fyw yn y byd go iawn hefyd o ran yr hyn sydd gennym o'n cwmpas a gweithio ar hynny drwy strategaethau a mentrau eraill.

Wrth fynd ymlaen i'r polisi trafndiaeth, rydw i'n mynd i ddod at Sarah ar yr un yma.

Sarah Astley: Mae'r ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r polisi trafndiaeth presennol, sef darparu cludiant i'r ysgol agosaf, ond nid yw'n darparu cludiant i'r ysgol cyfrwng Saesneg agosaf ar hyn o bryd. Mae hyn yn rhywbeth yr ydym wedi'i glywed yn aml iawn yn ystod yr ymgynghoriad. Yn amlwg datblygwyd y polisi trafndiaeth ar bwynt mewn amser, ac roedd yn bwynt pan nad oedd ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mhowys.

Llywodraethwr: Fe'i hadolygwyd pan oedd y strategaeth yn bodoli, felly roeddech chi'n gwybod bod y newidiadu hyn yn dod. Rwy'n ysgrifennu polisiâu ar gyfer bywoliaeth, rwy'n diogelu fy mholisïau ar gyfer y dyfodol, nid yw hynny wedi'i wneud.

Sarah Astley: Ar y pryd, doedden ni ddim yn gwybod yn bendant. Ar hyn o bryd mae gennym Ysgol Bro Hyddgen sydd ar y daith, ond mae yna rai blynyddoedd cyn y bydd newidiadau yn yr uwchradd. Fel y mae pethau ar hyn o bryd, mae'r polisi trafniadaeth yn briodol ar gyfer y ddarpariaeth bresennol, yn amlwg os yw'r cynnig hwn yn mynd yn ei flaen, mae'r sefyllfa'n newid ac efallai y bydd angen i ni edrych ar hynny.

Llywodraethwr: Mae gennym rieni sy'n gorfod gwneud y penderfyniad hwn nawr, ni allant aros tan y flwyddyn nesaf. Maen nhw'n teimlo fel bod rhaid iddyn nhw wneud y penderfyniad nawr.

Sarah Astley: Rydym yn dal i fod yn y broses ar hyn o bryd, does dim penderfyniadau wedi'u gwneud.

Llywodraethwr: Maent eisoes wedi gwneud y penderfyniad. Bydd rhai disgyblion yn mynd i Lanfair, nid allan o ddewis, ond allan o angen a hygyrchedd. Byddant yn mynd yno heb eu ffrindiau oherwydd bod y lleill eisoes wedi symud oherwydd eich bod wedi dychryn nhw. Maen nhw'n ofnus, maen nhw'n mynd i'r Trallwng. Mae rhai yn symud tŷ fel eu bod yn gallu mynd i ysgol uwchradd yn Lloegr oherwydd eu bod wedi cael llond bol ar wleidyddiaeth Cymru. Dyna pa mor ddrwg mae pethau yn yr ardal hon. Rydych chi'n gyrru rhwyg yn syth i lawr canol y gymuned. Mae gan blant ffrindiau gwych yn yr ysgol hon, ond byddant y neu colli oherwydd byddant yn mynd i ysgolion uwchradd gwahanol, ac rydych chi'n meddwl bod honno'n strategaeth briodol?

Marianne Evans: Y pwynt yw, a gyda phob parch, yr unig benderfyniad y mae'r Cabinet wedi'i wneud ar hyn o bryd yw i ymgynghori ar y cynnig hwn.

Llywodraethwr: Mae'r amserlen yn llawer rhy fyr, rydych chi'n codi ofn ar rieni i wneud penderfyniadau na ddylent orfod eu gwneud nawr.

Marianne Evans: Mae angen iddynt fwydo i mewn i'r ymgynghoriad.

Llywodraethwr: Maen nhw'n disgwyl y bydd yn mynd ymlaen beth bynnag, oherwydd o wybod y Cyngor, byddan nhw'n rhoi beth bynnag maen nhw eisïau drwyddo. Mae'r amserlenni yn rhy fyr dwi'n meddwl, ac mae gan blant frodyr a chwiorydd iau, felly os ydych chi'n anfon eich plentyn i Lanfair ym mlwyddyn chwech nawr i fynd trwy'r ffrwd Saesneg, mae gennych chi frawd neu chwaer iau fydd ddim yn gallu mynd i Lanfair. Nid yw hyn yn opsiwn. Bydd yn rhaid iddyn nhw symud eu plant o Lanfair a newid eu hysgolion uwchradd, dydyn nhw ddim yn mynd i wneud hynny. Bu'n rhaid iddyn nhw wneud penderfyniad ar y pryd. O gofio ein bod newydd roi ein dewisiadau ysgol uwchradd i mewn hefyd.

Marianne Evans: Rwy'n deall. Y problem yw, fel y dywedodd Lynette yn gynharach, fel y Cyngor mae dyletswydd arnom i ystyried trefniadaeth ysgolion yn y dyfodol.

Dywedwyd wrthym gan Estyn yn ôl yn 2019 ein bod yn ddiffygiol ac roeddem y tu ôl i awdurdodau eraill.

Llywodraethwr: Nid yw hynny'n esbonio eich amseriad. Nid yw eich amserlen yn cymryd hynny i ystyriaeth, mae'n ffordd allan. Mae angen i ni fod yn siarad am newidiadau mewn 10 mlynedd, nid 1. Dylai fod wedi bod yn opsiwn yn y lle cyntaf.

Marianne Evans: Rydym yn clywed eich barn, a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr adroddiad ymgynghori. Rydym dan bwysau gan nifer o rieni eraill i sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r mater hwn o ddiffyg darpariaeth uwchradd, ac rydym wedi cael hynny ers amser maith. Felly, ar ryw adeg, roedd angen i'r awdurdod gymryd gafael ar hyn a gwneud cynnydd. Rwy'n clywed yr hyn rydych chi'n ei ddweud, ac rwy'n deall yn iawn pa mor emosiynol ac anodd a heriol yw hyn oherwydd rydym wedi eich clywed, a byddwn yn bwydo hyn yn ôl. Amseru yw un o'r materion sydd wedi codi.

Llywodraethwr: Pam mae'r amseriad mor fyr i ddechrau felly? Pam 2025? Pam roedd unrhyw un yn meddwl bod hon yn sefyllfa amseru addas?

Marianne Evans: Mae yna opsiynau a ystyriwyd yn y ddogfen ymgynghori, ond roeddem yn teimlo er mwyn mynd i'r afael â'r galw am ddarpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg dynodedig, roedd angen ystyried cyflwyno hyn yn 2025 ar gyfer y newid i ddarpariaeth blwyddyn saith, ond dim ond efo'r gefnogaeth lawn i staff ac ati.

Llywodraethwr: Os ydych chi'n credu bod taflu eich plentyn trwy Trochi yn mynd i'w gael i fyny i safon rhywun sydd wedi bod mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, mae hynny'n annealladwy.

Marianne Evans: Mae wedi gweithio mewn awdurdodau eraill, Bethan fyddet ti'n hoffi dod i mewn am Trochi?

Llywodraethwr: Efallai y dylech fod wedi rhoi prawf o hynny yn y ddogfen i rieni allu deall eich amserlen, oherwydd dydyn nhw ddim yn ei deall.

Bethan Price: O ran Trochi, rydym wedi rhedeg cynlluniau trochi ar lefel gynradd o'r blaen ac yn amlwg mae'n dibynnu ar y plentyn unigol ond rydym yn gweld bod 12 wythnos o gymorth trochi dwys yn codi disgyblion i safon lle gallant gymhathu i'r ystafell ddosbarth, ac yn amlwg nid yw hynny'n golygu y byddant ar union yr un lefel ag y byddent wedi bod yn y cyfrwng Gymraeg, ond mae'n golygu eu bod yn gallu cael mynediad at y cwricwlwm, ac felly'n gallu dal i fyny yn fwy cyflym nag y byddent wedi ei wneud fel arall. Nid dim ond y gefnogaeth 12 wythnos a roddir iddynt, mae blwyddyn o gefnogaeth hefyd gan y Tîm Cymraeg yn dilyn yr amser yn y Ganolfan Trochi. Mae wedi gweithio mewn siroedd eraill, mae'n gweithio yn ein sir ni. Rydym hefyd wedi cael disgyblion yn mynd trwy'r profiad trochi ym mlwyddyn chwech ac yna'n ymuno â dosbarth cyfrwng Cymraeg ym mlwyddyn 7. Rydw i wedi dysgu disgyblion Trochi o flwyddyn chwech i flwyddyn saith ac maent wedi mynd ymlaen i wneud yn dda iawn ac erbyn tua diwedd blwyddyn 9 byddech chi ddim yn gwybod y gwahaniaeth rhwng rhywun sydd wedi bod yn y ffrwd Gymraeg yr holl amser a rhywun sydd heb. Mae ymennydd plant yn anhygoel o elastig, yn enwedig cyn 12 oed.

Llywodraethwr: Beth sy'n digwydd os ydynt yn ddyslecsig neu os oes ganddynt broblemau ADY? Faint o'r rheiny ydych chi'n meddwl yr ydych yn mynd i'w taflu i ddosbarth Trochi ac maen nhw'n mynd i fod yn llwyddiannus? Yna bydd yn rhaid iddyn nhw adael i fynd i ysgol uwchradd Saesneg oherwydd nad ydyn nhw'n gallu ymdopi.

Bethan Price: Bydd yna ddisgyblion bob amser nad hwn yw'r opsiwn cywir ar eu cyfer. Rwy'n derbyn hynny.

Llywodraethwr: A oes gennych unrhyw ddata, canlyniadau arholiadau? Nid wyf yn gwybod pa mor hir y mae'r system wedi bod yn mynd, ond a oes carfan hyd yma sydd wedi mynd o flwyddyn pump trwedd i gyfnod TGAU, a sut mae'r canlyniadau hynny'n edrych o'i gymharu ag ysgolion eraill? Neu a ydym yn rhy fuan i allu darparu hynny?

Bethan Price: Fel awdurdod fyddai gennym ni ddim cymaint â hynny o ddisgyblion. Efallai y byddai Ceredigion yn gallu darparu'r math yna o wybodaeth i ni, maen nhw wedi bod yn gwneud hyn ers blynyddoedd lawer a Gwynedd, er enghraifft. Os ydych chi'n symud i Wynedd does dim opsiwn o ysgol cyfrwng Saesneg, felly mae'n rhaid i bob disgybl fynd trwy Trochi i allu ymuno ag addysg Gymraeg. Felly yn sicr byddai data ar hynny, ond mae'n rhywbeth sydd wedi'i brofi'n rhyngwladol fel opsiwn.

Pennaeth: Os ydych chi wedi dewis symud i'r wlad honno a'ch bod chi wedi dewis mynd trwy'r sefyllfa honno, rhoi eich plentyn mewn Trochi, mae ychydig yn wahanol oherwydd yn amlwg mae'r rhieni wedi ymrwymo i hynny. Rwy'n credu yn y sefyllfa hon, mae'r peth wedi cael ei dafly ar bobl ychydig. Rydyn ni wedi cael plant yma sydd heb fynd trwy Trochi ond maen nhw wedi cael cymorth un i un, ond roedden nhw'n blant galluog. Ond rwy'n credu gyda fy mhen lles a hiechyd meddwl i blant, mae'r syniad y byddai'n rhaid i blant ddal i fyny, mae hynny'n peri gofid. Byddwn ychydig yn bryderus fel rhiant y bydd yn rhaid i fy mhentyn ddal i fyny.

Sarah Astley: Unwaith eto, mae hynny'n un opsiwn. Y gobaith fyddai y byddai cymaint o blant â phosib yn parhau i fynd i Fro Caereinion, ond mae yna opsiwn o hyd i barhau mewn darpariaeth cyfrwng Saesneg mewn ysgol wahanol, mae yna opsiynau gwahanol.

Pennaeth: Mae ysgol newydd sbon wedi agor i lawr yng Nghaerdydd, ysgol ddwy ffrwd wych newydd. Mae hanner ohono yn gyfrwng Cymraeg ac yna i'r disgyblion ail iaith mae lefel llawer uwch o Gymraeg. Roedd hynny'n swnio'n ddi-ddorol iawn i mi gan ei fod yn swnio bron iawn yn debyg iawn i sut roedd Caereinion yn arfer bod pan oedd gen ti Pontio, lle dewiswyd disgyblion oedd â'r gallu i wneud pynciau penodol drwy gyfrwng y Gymraeg achos rydym yn trio gwneud hynny fan hyn. Mae llawer o bethau'n digwydd yn y dosbarth lle maen nhw'n cael eu dysgu daearyddiaeth, ond mae llawer o Gymraeg yn cael ei ddefnyddio ar yr un pryd, dydy'r plant ddim hyd yn oed yn sylwi, maen nhw fel sbyngau. Nid yw'n effeithio arnynt yn academiaidd. Mae'n ehangu eu dealltwriaeth o'r iaith. Dwi'n meddwl bod y gair Trochi yn codi ofn ar bobl. Dim ond eich plentyn chi fydd yn gorfod dysgu Cymraeg.

Bethan Price: Rwyf wedi bod mewn cysylltiad â phennaeth yr ysgol yng Nghaerdydd, fe wnaethant agor ym mis Medi. Rwy'n gobeithio gallu ymweld â nhw

rywbyrd yn ystod y flwyddyn academaidd i weld sut mae eu model yn gweithio mewn gwirionedd oherwydd ei fod yn beilot newydd ac yn fodel newydd i Gyngor Caerdydd, ac yn sicr mae'n rhywbeth yr hoffwn edrych arno fel opsiwn wrth symud ymlaen.

Llywodraethwr: Pryder arall sydd gen i ynghylch amseriadau a phopeth yw nad yw'n teimlo hir ers i ni ddod allan o'r pandemig ac mae byd pawb wedi troi ben i waered. Rwy'n credu ei fod y math o ddal i fyny mae plant yn gorfod ei wneud wedi'i adnabod, ac o safbwynt iechyd meddwl, rwy'n teimlo ein bod ni mewn byd lle byddwn yn gyflym iawn i fynd yn ôl i ddysgu o bell. Nid yw'n amhosib y gallem gael cyfnodau clo eraill efallai, a wedyn bydde ni no li weithio o bell mae'n siwr. Wrth fynd yn ôl i trochi i'r Gymraeg, byddwn yn nerfus iawn ynglŷn â sut y byddai'r plant hynny sydd eisoes ar y droed gefn yn ymdopi pe bai'n rhaid i ni fynd i mewn i'r sefyllfa eto. Pa mor bell y tu ôl y byddent yn disgyn? Pan gafodd y strategaeth ei gytuno, ni chafodd y pandemig ei ystyried. Felly a yw'r strategaeth honno wedi'i haddasu ar ôl cyfnodau clo Covid?

Bethan Price: Yn ddiddorol iawn mae cryn dipyn o'n Trochi wedi'i gyflwyno ar-lein. Oherwydd natur Powys fel sir, mae cryn dipyn o'n darpariaeth wedi digwydd ar-lein beth bynnag, ac mae llawer o'r gefnogaeth ar ôl wedi digwydd ar-lein hefyd. Rydym eisoes yn rhedeg model sydd yn hybrid i raddau o'i gymharu â rhai cyngorau ar hyn o bryd.

Llywodraethwr: A yw hynny'n cael ei wneud un i un?

Bethan Price: Grwpiau bach fel arfer.

Llywodraethwr: Byddai nier y disgyblion a allai fod angen y ddarpariaeth yn llawer mwy. A fyddai Powys yn gallu darparu mwy?

Bethan Price: Yn amlwg yr awgrym yw cyflwyno'r newid fesul cam. Felly dydyn ni edrych ar bawb yn mynd i fod angen trochi ar unwaith, ac rydym yn derbyn na fydd pawb ei eisiau chwaith. Rydym wedi edrych ar nifer y disgyblion a allai fod eisiau cael mynediad ato, ac yna byddai'n rhaid i ni ystyried sut i symud ymlaen, yn dibynnu ar bwy sy'n barod ar ei gyfer, pwy sy'n awyddus, a pha grwpiau oedran y mae'r disgyblion.

Llywodraethwr: Lle ydych chi'n gweld Ysgol Bro Caereinion ymhen 10 mlynedd?

Marianne Evans: Os bydd hyn yn mynd yn ei flaen, rwy'n gweld Ysgol Bro Caereinion fel ein prif ddarparwr cyfrwng Cymraeg uwchradd, yn darparu i blant o bob oed yn y rhan hon o'r sir.

Llywodraethwr: Pa ddata sydd gennych chi ar niferoedd disgyblion wrth symud ymlaen?

Marianne Evans: Mae niferoedd disgyblion yn y ddogfen. Os edrychwch chi ar niferoedd y disgyblion cynradd, maen nhw'n uwch yn y blynyddoedd is, felly byddem yn disgwyl i hyn arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion Cymraeg.

Sarah Astley: Mae'r ddogfen yn cynnwys niferoedd cyfredol ym mhob ysgol yn y dalgyrch sydd wedi'u torri i lawr fesul ffrwd yn seiliedig ar y niferoedd oedd yn yr ysgolion ym mis Medi. Yna mae gennym y rhagamcanion ar gyfer ysgolion yr effeithir arnynt gan y cynnig nad ydynt wedi'u dadansoddi fesul ffrwd, dyma rhagamcanion PLASC. Yn anffodus nid oedd gennym ragamcanion PLASC 23 erbyn i'r ymgynghoriad ddechrau, felly maent wedi'u seilio ar 22.

Llywodraethwr: Rydych chi'n dweud bod niferoedd cyffredinol yn mynd i gynyddu, ond fy ngwybodaeth i yw bod niferoedd disgyblion yn mynd i leihau.

Marianne Evans: Oes, mae disgwyl i niferoedd disgyblion yn gyffredinol leihau. O safbwynt Ysgol Dafydd Llwyd, mae niferoedd ar gynnydd, mae Ysgol Gymraeg Y Trallwng ar gynnydd, mae niferoedd disgyblion Cymraeg ar gynnydd yn yr ardal hon.

Llywodraethwr: Ydych chi'n seilio'ch rhagamcanion ar bob un o'r plant hynny'n mynd i Ysgol Uwchradd Llanfair?

Marianne Evans: Dyna'r mater arall mewn gwirionedd a dyna beth rydyn ni'n ceisio mynd i'r afael ag ef. Ar hyn o bryd mae rhai o ddisgyblion Ysgol Gymraeg Y Trallwng wedi dod i Gaereinion, eraill wedi mynd i'r Trallwng ac wedi gadael addysg Gymraeg. Mae Dafydd Llwyd yn un arall, yn y gorffennol aeth bron pob disgybl o Ysgol Dafydd Llwyd i Gaereinion, ond am y 4 neu 5 mlynedd diwethaf mae'r duedd wedi newid, mae'r disgyblion wedi bod yn mynd i Lanidloes neu Ysgol Uwchradd Y Drenewydd.

Llywodraethwr: Ydych chi'n meddwl y bydd ei gwneud hi'n ysgol cyfrwng Cymraeg yn eu tynnu nhw'n ôl? Neu a fyddwch yn mynnu bod rhaid i chi fynd i Fro Caereinion, os ydych chi wedi mynychu Ysgol Dafydd Llwyd?

Marianne Evans: Rydym yn gobeithio, drwy ddod yn ddarparwr cyfrwng Cymraeg blaenllaw ar gyfer gogledd y sir, y byddai'n denu'r rhai sy'n mynd i ysgolion eraill. Fodd bynnag, bydd yn cymryd amser. Yr hyn fyddai'n rhaid digwydd yw y byddai'n rhaid i Fro Caereinion fod yn ddarparwr addysg Gymraeg o safon. Dyna ddylai fod yn ganolbwynt a dyna sy'n denu rhieni.

Llywodraethwr: Mynd yn ôl ychydig, buom yn siarad am ddenu athrawon. Nid wyf yn gwybod unrhyw athro a fyddai'n dymuno mynd i adeilad sydd mewn cyflwr gwael, oherwydd mae'r adeilad yn edrych yn flinedig. Soniodd Llywodraethwr neithiwr nad yw'r ysgol yn wahanol iawn i fel yr oedd pan oedden nhw yn yr ysgol. Fel athrawes Gymraeg newydd, byddwn i'n edrych am ysgol Gymraeg newydd braf i fod yn hollol onest gyda chi.

Yr un peth rydw i eisiau i chi ei gymryd o yma heno yw bod llawer o boen, mae llawer o ofid yn y gymuned. Gadewch i ni gael y boen unwaith ac unwaith yn unig. Nid wyf am weld ymgynghoriad arall ar gyfer y gymuned hon ymhen pum mlynedd gyda'r posibilrwydd o gau. Bydd ysgolion yn cau, rydym yn gwybod hynny, ond gadewch i ni gael y boen unwaith ac unwaith yn unig, gan nad yw hyn yn dda i unrhyw gymuned.

Llywodraethwr: Beth yw'r cynllun ar gyfer yr ysgol hon yn y dyfodol? Mae'n mynd i newid y ddeinameg yn enfawr os ydy Bro Caereinion yn mynd yn gyfrwng Cymraeg

felly mae'n rhaid cael cynllun o'r hyn sy'n mynd i ddigwydd i'r ysgol yma, yr ysgolion sy'n bwydo.

Marianne Evans: Os aiff hyn yn ei flaen a bod Bro Caereinion yn dod yn ysgol cyfrwng Cymraeg, yna chi fyddai'r unig ddarparwr dwy ffrwd yn y dalgylch oherwydd mae'r lleill i gyd yn ysgolion cyfrwng Cymraeg. I fynd yn ôl at y targedau sydd gennym, mae angen i ni weithio gyda'n holl ysgolion i'w symud ar hyd y continwwm iaith. Mae hynny'n rhan o ddyhead Llywodraeth Cymru. Felly, o ran y gwaith o ailddiffinio'r categorïau cyfrwng Cymraeg ar gyfer ysgolion, mae Llywodraeth Cymru yn mynd i fod yn deddfu ar fil addysg cyfrwng Cymraeg newydd, os mai dyna'r derminoleg gywir, a bydd hyn yn gwneud y categorïau hynny yn gyfraith, felly bydd rhaid i'r awdurdod weithio gydag ysgolion o fewn y fframwaith hwnnw nawr ac wrth symud ymlaen. Buom yn trafod hyn yn gynharach, byddem yn cadw llygad ar niferoedd disgyblion, ond byddem hefyd yn gweithio gyda phob ysgol o ran sut y maent yn gweld eu hunain yn symud ymlaen o ran y continwwm iaith. Yn ddiweddar rydym wedi ymgynghori a symud Ysgol Dyffryn Trannon yn Nhrefeglwys o fod yn ysgol dwy ffrwd i fod yn ysgol Gymraeg yn raddol. Ond y gwahaniaeth yno yw, ar y pryd, mae'n debyg eu bod yn 90% yn y ffrwd Gymraeg a 10% yn y ffrwd Saesneg a neb yn y ffrwd Saesneg ym mlwyddyn Derbyn na blwyddyn un bryd hynny. Felly, roedden nhw'n symud yn naturiol. Yr hyn yr hoffem ei wneud yw gweithio gydag ysgolion sydd yn symud yn naturiol, ond mae pob sefyllfa yn wahanol ac mae angen i ni edrych ar beth arall sydd yn eich dalgylch, beth arall sy'n digwydd yn y gymuned, pa fath o gymuned. Mewn ardal arall yn y De rydym wedi cyflwyno peilot dosbarth cyfrwng Cymraeg mewn ysgol cyfrwng Saesneg ac yna fe wnaethom ymgynghori a mae'r ysgol bellach yn dod yn ysgol ddwy ffrwd. Felly does dim cynllun ar gyfer Rhiw Bechan ar hyn o bryd ar wahân i barhau â'r ddeialog os bydd nifer eich disgyblion yn newid.

Sarah Astley: Ein dyhead yw cefnogi pob ysgol i symud ar hyd y continwwm iaith, ond yn amlwg mae hynny'n golygu rhywbeth gwahanol ym mhob ysgol yn dibynnu ar gyd-destun yr ysgol. Does 'na ddim cynllun ar hyn o bryd i newid categori iaith Ysgol Rhiw Bechan, dyw hynny ddim i ddweud efallai na fydd pethau'n newid yn y dyfodol, ond pe bai yna bwynt lle byddai hynny'n rhywbeth oedd yn cael ei ystyried, fyddai o ddim yn rhywbeth fyddai'n digwydd dros nos. Byddai angen yr un broses, ymgynghoriad ac yn y blaen eto.

Marianne Evans: Soniwyd yn gynharach bod ysgolion dwy ffrwd yn gweithio orau pan mae'r niferoedd yn eitha cyfartal. Pan fydd un ffrwd yn fwy na'r llall, mae'n dod ag anawsterau gweithredol ac anawsterau ariannol, yn tydy.

Sarah Astley: Gwnaed sylw diddorol yn gynharach ynglŷn â beth allai ddigwydd i Rhiw Bechan pe bai'r newid hwn yn digwydd. Gallai olygu bod disgyblion yn dewis cyfrwng Cymraeg er mwyn mynd i Fro Caereinion, ond hefyd gallai olygu bod mwy o ddisgyblion yn dod yma i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Saesneg.

Pennaeth: Rydych chi wedi siarad am eisiau rhoi'r cyfle i ddisgyblion yn Dafydd Llwyd ac Ysgol Gymraeg y Trallwng fynd trwy addysg Gymraeg, rydych chi'n teimlo ar hyn o bryd nad ydy'r cyfle hwnnw ar gael iddynt. Beth os na fyddant yn manteisio ar y cyfle hwnnw o hyd? Rwy'n ymwybodol bod llawer o ddisgyblion yn cerdded i'r

ysgol yn Dafydd Llwyd ac mae'r un peth yn Gymraeg y Trallwng, mae'n hawdd cerdded i'ch ysgol leol. Felly beth sy'n digwydd wedyn gyda Bro Caereinion?

Marianne Evans: Os aiff hyn yn ei flaen, fel y dywedais yn gynharach, byddai gwir angen i ni fod yn codi ymwybyddiaeth am addysg cyfrwng Cymraeg. Rwy'n credu bod diffyg dealltwriaeth ymysg rhieni. Byddai angen i ni wneud hynny, ond hefyd, pe bai Bro Caereinion yn symud, byddai cyfrifoldeb arnynt i weithio gyda'r ysgolion clwstwr i egluro beth y gallant ei ddarparu. Dwi'n meddwl y gallai gymryd amser gan fod pobl eisoes wedi gwneud eu penderfyniadau, mae rhai yn Dafydd Llwyd yn mynd i Lanidloes.

Pennaeth: A fydd Bro Caereinion yn cael ei gefnogi'n ariannol o gwmpas hynny?

Marianne Evans: Rydym wedi cael sylwadau cryf iawn gan Bro Caereinion, yn pwysleisio y bydd angen y cymorth ariannol ychwanegol hwnnw os bydd hyn yn mynd yn ei flaen. Yr hyn maen nhw'n ofni yw y byddan nhw'n lleihau i ddechrau o ran niferoedd disgyblion, ond yna yn tyfu. Er ei fod yn ymddangos bod hyn yn digwydd yn gyflym ac rwy'n deall ei fod yn bryder i rieni orfod gwneud dewisiadau, ond mae'n gynllun tymor hwy a fydd yn cymryd peth amser i'w weld trwyddo.

Llywodraethwr: Mae pob Cyngor dan bwysau ariannol eithriadol, bydd yn rhaid iddyn nhw ddod o hyd i'r arian i gefnogi Bro Caereinion. Gan fynd yn ôl at y polisi trafndiaeth, yn enwedig y plant mwy agored i niwed, rwy'n ei chael hi'n anodd gweld sut na allech newid eich polisi trafndiaeth, oherwydd credaf y byddech yn agored i lawer o hawliadau posibl o safbwynt gwahaniaethu. Yna i fynd yn ôl at yr holl strategaethau eraill yn ymwneud efo cynyddu nifer y 6ed dosbarth, eu perswadio i fynd i brifysgol yng Nghymru, bwrsariaethau. Mae hynny'n mynd i gymryd arian, felly o ble mae'r arian hwnnw'n dod? Mae hynny'n broblem ym Mhowys, ond a yw hynny'n mynd i ddod o agweddau eraill o addysg? A fyddem yn gweld toriadau i'r ysgol hon i ariannu hynny? A fydd cynllun yn cael ei rannu gyda ni fel rhan o'r ymgynghoriad neu fel rhan o'r broses yn y dyfodol? Rwy'n gwerthfawrogi eu bod i gyd yn gwestiynau 'beth os', ond rwy'n siŵr y gallwch werthfawrogi bod y rhain yn bwysig i helpu rhieni i benderfynu a ddylid cadw eu plant ym Mro Caereinion neu eu symud nawr.

Marianne Evans: O ran cyllid a datblygiad addysg cyfrwng Cymraeg ym Mhowys. Un o'r pethau allweddol yr ydym yn dal i'w ddweud wrth ein cynghorwyr yw bod datblygu addysg cyfrwng Cymraeg yn mynd i gostio'r awdurdod, gan ein bod yn dechrau ar lefel isel. Ond o ran y cynllun strategol hwnnw o newid y rhwydwaith cyfan o ysgolion ym Mhowys, mae hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid i ni ei dderbyn a'i sylweddoli. Rwy'n credu bod y Cynghorwyr wedi dechrau deall hynny ac mae angen i ni gael sgysiau gyda Llywodraeth Cymru oherwydd mae hyn yn rhan o gyflawni eu gweledigaeth hefyd ac rydych chi'n gwybod, costau cyfalaf, mae angen sbriws ar yr ysgol, os nad mwy. Un o brif flaenoriaethau'r rhaglen gyfalaf ysgolion yw datblygu addysg cyfrwng Cymraeg.

Mari Thomas: Yr hyn yr ydym wedi'i wneud o ran y Strategaeth Trawsnewid Addysg yw ceisio costio hynny dros gyfnod o 60 mlynedd, sy'n gyfnod oes safonol ar gyfer buddsoddiad cyfalaf. Rydym wedi cymharu cost y strategaeth, gan gynnwys y cyfrwng Cymraeg a'r datblygiadau Cymraeg, efo parhau gyda'r status quo a gwneud

y lleiaf posibl. O ran gwaith atgyweirio a chynnal a chadw a buddsoddi yn yr ysgolion, mae'r rhaglen drawsnewid yn rhatach yn y tymor hir. Dydw i ddim yn mynd i ddweud ei fod yn rhad oherwydd does dim ffordd y bydd yn digwydd gyda'r lefel o fuddsoddiad cyfalaf sydd ei angen mewn gwirionedd, ond yn gyffredinol hyd yn oed gyda'r gost ychwanegol honno o dyfu'r ddarpariaeth Gymraeg, dyna'r opsiwn orau yn ariannol dros y cyfnod cyfan, gan edrych ar y strategaeth gyfan yn hytrach na phrosiectau unigol. Roeddwn i'n meddwl y byddai'n ddefnyddiol i chi ddeall hynny, ein bod ni wedi gwneud y gymhariaeth honno.

Llywodraethwr: Os na fydd hyn yn mynd drwodd, a oes gennych leoliad arall wedi'i drefnu?

Marianne Evans: Nac oes. Ond does dim dianc y bydd y pwysau yn dal i fod yno.

Llywodraethwr: Pa sicrwydd allwch chi ei roi i rieni plant sydd ar hyn o bryd ym Mro Caereinion ac yn mynd i'r ffrwd Saesneg y bydd y plant yma'n gallu gorffen eu gyrfa ym Mro Caereinion trwy gyfrwng y Saesneg, yn enwedig os oes llawer o athrawon yn gadael? Oherwydd rwy'n credu bod rhai rhieni sydd eisoes â phlant yn yr ysgol uwchradd yn poeni a ydyn nhw'n mynd i barhau i gael addysg o safon dda mewn gwirionedd.

Marianne Evans: O ran yr athrawon ym Mro Caereinion, mae'r mwyafrif yn gallu siarad Cymraeg felly dyw hynny ddim yn broblem gan ein bod ni'n ei newid hi'n raddol. Mae yna athrawon yno sydd ddim yn rhugl ac maen nhw'n bryderus, ond oherwydd ein bod ni'n ei gyflwyno'n raddol mae amser i ni roi cymorth ychwanegol a chyfleoedd hyfforddi ychwanegol iddyn nhw i'w cael nhw i safon os mai dyna maen nhw ei eisiau – efallai nad yw rhai eisiau hynny ac efallai y byddan nhw'n dewis opsiwn arall. Bydd y rhai sy'n mynd i flwyddyn chwech ar hyn o bryd yn mynd i flwyddyn saith ym Mro Caereinion ym mis Medi nesaf. Ni fydd y newid yn effeithio arnynt, ond yr hyn rydych chi'n ei ddweud yw efallai y byddan nhw'n cael eu heffeithio os bydd staff yn gadael. Os bydd hyn yn mynd yn ei flaen, yna mae risg y gallai staff symud, mae hynny'n rhywbeth y mae angen i ni ei gydnabod. Fodd bynnag, oherwydd ein bod yn ei wneud fesul cam, yna mae gennym amser i weithio gyda staff yno a darparu'r cymorth ychwanegol os ydynt am ddod gyda ni.

Lynette Lovell: Roeddwn i'n mynd i ddod i mewn ar addysgu. Fe wnaethon ni gyfarfod â staff Caereinion ddydd Mercher diwethaf, a dim ond ambell un sydd ddim yn ddwyieithog yno, dwi'n gwybod bod rhai ohonyn nhw'n amlwg yn gallu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, a dim ond ambell un sydd ddim, a rhai o'r rheiny yn dysgu ieithoedd tramor modern a Saesneg. Mae'r mwyafrif yno, mae'r mwyafrif helaeth yn ddwyieithog. Fodd bynnag, byddem yn gweithio gyda'r holl staff yno wrth i ni symud ymlaen.

Marianne Evans: Mae dros wythnos i fynd nes bydd yr ymgynghoriad yn cau, felly os nad ydych wedi ymateb yn unigol byddwn yn eich annog i wneud hynny, ac i annog eraill hefyd.

Llywodraethwr: Un peth arall. Pam na ellid ei gyflwyno'n raddol yn fwy tebyg i Ysgol Bro Hyddgen? Ai penderfyniad ariannol yw hwn? Pam na ellir gwneud hynny yma?

Marianne Evans: Mae'r cynnig i ddechrau symud blwyddyn 7 ar yr un pryd â'r blwyddyn derbyn er mwyn diwallu'r angen hwnnw i symud ymlaen ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg uwchradd yn gyflymach. Efallai y byddwn yn mynd yn ôl ac edrych ar hyn, ac y byddwn yn penderfynu nad opsiwn Blwyddyn 7 yw'r opsiwn cywir ar hyn o bryd a gallem wedyn fod mewn sefyllfa lle byddai'n cael ei gyflwyno yn y flwyddyn Derbyn yn unig. Byddwn yn cymryd popeth yr ydym wedi'i glywed ac yn ei roi yn yr adroddiad.

Sarah Astley: Mae'n gyd-destun ychydig yn wahanol yma hefyd o'i gymharu â Bro Hyddgen. Mae pob ardal yn wahanol iawn ac yma mae'r bwlch mawr yn y ddarpariaeth uwchradd.

Llywodraethwr: Rwy'n teimlo ei bod hi'n annheg bod yna ddisgyblion bellach wedi dechrau yn Llanfair yn meddwl bod eu plant yn mynd i fynd yr holl ffordd drwy'r ysgol, ond nawr efallai y bydd yn rhaid iddyn nhw fynd i Ysgol Uwchradd wahanol. Rwy'n credu nad yw amseru hynny'n deg.

Marianne Evans: Rydyn ni'n wirioneddol yn deall y pryderon.

Llywodraethwr: Mae yna lawer o angerdd allan yna. Rydym yn gwerthfawrogi eich bod dim ond yn gwneud eich gwaith, eich gwaith chi yw cynrychioli Powys rydym i gyd yn parchu hynny. Rwy'n credu o fy safbwynt i, mae angen cael y rhieni yn rhan o'r ymgynghoriad fel y gallwch weld lefel y gofid a'r angerdd sydd allan yna. Dyna elfen o'r ymgynghoriad hwn sy'n ddiffygiol.

Sarah Astley: Rydym wedi gweld barn rhieni o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Diolchwyd i bawb am eu hamser.

Cyfarfod gyda disgyblion Ysgol Rhiw Bechan

28 Tachwedd 2023

Presennol:

Marianne Evans, Sarah Astley – Cyngor Sir Powys;
Allyson Whitticase, Becca Edwards, Jacci Foulkes – Ysgol Rhiw Bechan
Roedd 16 disgybl o flynyddoedd 4, 5 a 6 yn bresennol o'r ddwy ffrwd.

Cyfarfu swyddogion â disgyblion i drafod yr ymgynghoriad i newid categori iaith Ysgol Bro Caereinion o ddwy ffrwd i gyfrwng Cymraeg fesul cam, gan ddechrau gyda Derbyn a Blwyddyn 7 ym mis Medi 2025.

Eglurodd swyddogion mai syniad yn unig yw'r cynnig ar hyn o bryd, ac mae'r Cyngor yn gofyn i bobl roi gwybod iddynt beth yw eu barn am y cynnig hwn.

Gofynnwyd i'r disgyblion nodi a oeddent yn credu bod hwn yn syniad da, yn syniad drwg neu a oeddent yn ansicr. Nododd bron pob disgybl eu bod yn meddwl ei fod yn syniad gwael.

Yna gofynnwyd i ddisgyblion roi eu barn / sylwadau ar pam ei fod yn syniad drwg neu'n syniad da. Dyma grynodedeb o'r sylwadau a wnaed:

Pam ydych chi'n meddwl ei fod yn syniad drwg?

- Byddai'n rhannu teuluoedd – byddai'n rhaid i rai plant fynd i ysgol wahanol i'w brodyr a'u chwirydd
- Byddai'n rhannu ffrindiau – byddai'n rhaid i ffrindiau fynd i wahanol ysgolion
- Efallai na fydd rhai disgyblion ffrwd Saesneg yn mynd i Fro Caereinion, efallai y byddan nhw'n dewis ysgolion eraill
- Byddai angen mwy o fysiau, a fyddai'n costio mwy, ac a fyddai'n effeithio ar gynhesu byd-eang a newid hinsawdd. Pwy fyddai'n talu am fwy o fysys petai eu hangen?
- Byddai'r plant sydd yn Ysgol Bro Caereinion ar hyn o bryd yn gadael.
- Byddai rhai o'r athrawon yn colli eu swyddi os nad ydyn nhw'n siarad Cymraeg
- Byddai'n anoddach cael athrawon Cymraeg
- Os yw pobl yn ei chael hi'n anodd yn y ffrwd Gymraeg, fydden nhw ddim yn gallu symud i'r ffrwd Saesneg.

Oes gan unrhyw un awgrym pam ei fod yn syniad da?

Nid oedd unrhyw awgrymiadau.

Lle mae disgyblion Ysgol Rhiw Bechan yn mynd i'r ysgol uwchradd nawr?

- Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn mynd i Ysgol Bro Caereinion i'r ysgol uwchradd, bron pob disgybl mewn gwirionedd. Dim ond ambell ddisgybl sy'n mynd i ysgolion eraill, fel Ysgol Uwchradd Y Drenewydd, a mae hyn yn bennaf os yw'r disgyblion yn byw y tu allan i ddalgylch Ysgol Rhiw Bechan.

Gofynnwyd i'r disgyblion a oedd ganddynt unrhyw sylwadau neu gwestiynau eraill:

- Allwch chi ddim ymestyn y dyddiad fel y gallai'r rhai sydd yn y dosbarth Derbyn nawr barhau yn y cyfrwng Saesneg?
- Onid yw ysgol uwchradd i fod i gefnogi ieithoedd gwahanol?
- A fyddai'n anodd symud i'r ffrwd Gymraeg?
- A fydd digon o bobl i'n dysgu ni?
- Beth yw'r siawns y bydd Ysgol Bro Caereinion yn cael ei chau i lawr yn y dyfodol?
- Onid ydych chi'n meddwl ei fod yn galed ar y ffrwd Saesneg?
- Byddai mwy o fysics yn effeithio ar yr hinsawdd
- Os oes rhaid i ni gael mwy o fysics, pwy fyddai'n talu amdanynt?
- Beth fydd yn digwydd i ysgolion dwy-ffrwd eraill?

Atgoffwyd y disgyblion y bydd yr ymgynghoriad yn parhau tan 7 Rhagfyr, ac fe'u hanogwyd i ysgrifennu unrhyw sylwadau sydd ganddynt os ydynt yn meddwl am unrhyw beth arall a'u rhoi i'w hathrawon a fydd yn sicrhau eu bod yn cael eu hanfon ymlaen.